

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 17/2014

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig



Gwerthuso'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

ICF GHK ar y cyd ag Arad Consulting

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Martina Aumeyr

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801125

E-bost: martina.aumeyr@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, year

ISBN 978-1-4734-1005-3

® Hawlfraint y Goron year

Tabl Cynnwys

Tabl o dablau	i
Tabl o flychau	ii
Tabl o ffigurau	iii
Rhestr acronymau	iv
Crynodeb Gweithredol	1
1 Cyflwyniad	15
2 Deall cymorth i ddisgyblion SIY	32
3 Rhoi MELAP ar waith.....	43
4 Allbynnau a deilliannau.....	74
5 Gwerth ychwanegol y prosiect.....	112
6 Casgliadau ac argymhellion.....	132
Atodiad 1 Astudiaethau achos	143
Atodiad 2 Gwybodaeth fanwl o Wybodaeth Reoli	170
Atodiad 3 Gweithgareddau a gyflwynwyd	175
Atodiad 4 Cyflawniad dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP	180
Atodiad 5 Canllawiau cyfweld ar gyfer ymchwil ansoddol	182
Atodiad 6 Arolwg Disgyblion	199
Atodiad 7 Arolwg Staff	203

Tabl o dablau

Tabl 2.1	Cyllid wedi'i ddyrannu a'i wario yn ôl ardal Awdurdod Lleol ar 10/2013 (£)	41
Tabl 3.1	Ysgolion sy'n darparu cymorth drwy MELAP	43
Tabl 3.2	Nifer y disgyblion SIY sy'n cael cymorth drwy MELAP	45
Tabl 3.3	Gwariant cyfartalog fesul cyfranogwr sy'n derbyn cymorth	46
Tabl 3.4	Oedran y buddiolwr pan gofnodwyd ar gronfa ddata gwybodaeth reoli MELAP	48
Tabl 3.5	Grwpiau ethnig mwyaf cyffredin a gynorthwywyd drwy MELAP.....	49
Tabl 3.6	Staff sydd wedi cael hyfforddiant a chyflawni cymwysterau drwy MELAP .	51
Tabl 3.7	Gweithgareddau a gyflwynwyd drwy MELAP.....	58
Tabl 3.8	Staff cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu gwasanaethau drwy MELAP (cyfanswm y staff).....	61
Tabl 4.1	Nifer y disgyblion a gynorthwyir drwy MELAP o gymharu â'r targed.....	77
Tabl 4.2	Nifer y disgyblion sy'n cyflawni cymhwyster iaith gartref drwy MELAP o gymharu â'r targedau	78
Tabl 4.3	Nifer y disgyblion sy'n cyflawni deilliant cadarnhaol drwy MELAP o gymharu â'r targed	79
Tabl 4.4	Dadansoddiad o Newid mewn cyfnod iaith SIY yn ôl Awdurdod Lleol	82
Tabl 4.5	Dadansoddiad o newidiadau mewn cyfnod iaith SIY yn ôl rhyw	83
Tabl 4.6	Dadansoddiad o newidiadau mewn cyfnod iaith SIY yn ôl cyfnod SIY pan ddechreuodd cymorth MELAP.....	84
Tabl 4.7	Dadansoddiad o newidiadau mewn cyfnod iaith SIY yn ôl nifer y blynyddoedd o gymorth	85
Tabl 4.8	Cyfanswm canlyniadau arolwg PASS, sgorau cyfartalog	94
Tabl 4.9	Cyfanswm canlyniadau PASS, nifer y fflagiau a gyhoeddwyd	95
Tabl 4.10	Disgyblion yn cymryd rhan ym mhob cam o arolwg PASS, sgorau cyfartalog.....	96
Tabl 4.11	Disgyblion yn cymryd rhan ym mhob cam o arolwg PASS, nifer y fflagiau a gyhoeddwyd	97
Tabl 4.12	Barnau staff MELAP am y cymorth a ddarparwyd	106
Tabl 5.1	Ychwanegedd MELAP	114
Tabl 6.1	Ystyried materion dylunio a datblygu	133
Tabl 6.2	Ystyried materion cyflwyno a pherfformiad	135
Tabl 6.3	Ystyried materion gwerth ychwanegol	137

Tabl o flychau

Blwch 1: Nodau'r cyfnod gwerthuso interim.....	20
Blwch 2: Nodau'r cyfnod gwerthuso terfynol.....	21
Blwch 3: Ffynhonnell data PAR	25
Blwch 4: Ffynhonnell data PASS	26

Tabl o ffigurau

Ffigur 1.1 Model Rhesymeg Gwerthuso'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig	30
Ffigur 3.1 Nifer y disgyblion yn adrodd am y math o weithgareddau a dderbyniwyd	54
Ffigur 3.2 Nifer y staff yn adrodd am nifer y disgyblion a gafodd gymorth	63
Ffigur 3.3 Gweithgareddau a gyflawnwyd gan staff SIY	64
Ffigur 4.1 Barnau disgyblion am effaith y cymorth	87
Ffigur 4.2 Barnau disgyblion am y lefel cymorth a gânt	90
Ffigur 4.3 Effaith gweithgareddau ar ddisgyblion yr adroddwyd amdanynt gan staff cyflwyno.....	103
Ffigur 5.1 Cyflawniad yr holl ddisgyblion SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP, 2010-2012	117
Ffigur 5.2 Gwahaniaeth rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP, 2010-2012	119
Ffigur 5.3 Cyflawniad disgyblion SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP (heb gynnwys disgyblion ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012	121
Ffigur 5.4 Gwahaniaeth rhwng cyflawniadau dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP, 2010- 2012 (heb gynnwys disgyblion ag AAA a hawl i gael PYDd)	123
Ffigur 5.5 Gwahaniaeth pwynt canran rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 1 (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012	126
Ffigur 5.6 Gwahaniaethu rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012	127
Ffigur 5.7 Gwahaniaethu rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 CS&M (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a dysgwyr â hawl i gael PYDd), 2010-2012	128

Tabl o dablau i

Tabl o flychau ii

Tabl o ffigurau iii

Rhestr acronymau vi

Crynodeb Gweithredol 1

- | | |
|----------|---|
| 1 | Cyflwyniad 15 |
| 2 | Deall cymorth i ddisgyblion SIY 32 |
| 3 | Rhoi MELAP ar waith 43 |
| 4 | Allbynnau a deilliannau 74 |

0% 85

0% 85

1% 85

71% 85

26% 85

1% 85

0% 85

100% 85

0% 85

0% 85

0% 85

56% 85

39% 85

4% 85

1% 85

100% 85

0% 85

0% 85

1% 85

47% 85

46% 85

6% 85

1% 85

100% 85

0% 85

0% 85

1% 85

55% 85

40% 85

4% 85

0% 85

100% 85

5 Gwerth ychwanegol y prosiect 112

6 Casgliadau ac argymhellion 132

Rhestr acronymau

AWEMA:	Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
BME:	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
SIY:	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
EMAS:	Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig
ESF:	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
SC&M:	Saesneg, Cymraeg a mathemateg
FTE:	Cyfwerth ag Amser Llawn
TGAU:	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
GRT:	Sipsiwn, Roma a Theithwyr
ALI:	Awdurdod Lleol
MEAG:	Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig
MELAP:	Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
NEET:	Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
PAR:	Cofnod Cyflawniad Disgyblion
PASS:	Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol
CYBLD:	Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion
UN:	Y Cenhedloedd Unedig
WEFO:	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cefndir i'r astudiaeth

1. Bu'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MELAP) yn rhedeg am dair blwyddyn ysgol o fis Medi 2010 i fis Gorffennaf 2013. Roedd ganddo dri phrif nod¹, sef:
 - Codi cyrhaeddiad a mynd i'r afael â risg tangyflawni ymhlith grwpiau o bobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig;
 - Gwella cyfle cyfartal at gyflogaeth a chyflogadwyedd i bobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y dyfodol, drwy ymgysylltiad gwell mewn addysg a hyfforddiant; ac
 - Adeiladu ar systemau monitro a gwerthuso presennol er mwyn mesur yn effeithiol lefelau cyflawniad ac ymgysylltiad y disgyblion targedig a gynorthwywyd.
2. Roedd disgwyl i MELAP:
 - Fynd i'r afael ag anghenion cymorth ychwanegol disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig 11 i 19 oed er mwyn cael gwared ar y bwch mewn cyflawniad;
 - Cynnig ymagwedd hyblyg, wedi'i theilwra, at gymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) yn yr ystafell ddosbarth a thu allan i'r ysgol;
 - Helpu atal pobl ifanc rhag peidio â mynd i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), drwy wella llythrennedd a chyrhaeddiad mewn ysgolion a chodi dyheadau ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant a swyddi yn y dyfodol; a
 - Helpu sicrhau bod yr holl ddisgyblion 14 i 19 oed yn cael cynnig llwybr dysgu sy'n diwallu anghenion pob unigolyn, gan gynnwys haenau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol addysg, a mynediad i gymorth personol – i helpu goresgyn unrhyw rwystrau personol rhag dysgu.²
3. Ym mis Medi 2012, comisiynwyd ICF GHK ac Arad Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Prosiect Iaith a

¹ Cynllun Busnes gwreiddiol MELAP (2010)

² <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/pathways/?lang=en>

Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MELAP). Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwerthusiad crynodedol o'r prosiect. Fel y cyfryw, mae'n:

- Bodloni gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop trwy roi cyfrif ac asesiad o'r rhaglen;
- Asesu effeithiolrwydd MELAP o ran bodloni ei nodau, amcanion a thargedau, o ran gwella cyflawniad plant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a chynorthwyo adeiladu capasiti mewn ysgolion ac awdurdodau lleol (ALLau);
- Nodi enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu cymorth i ddisgyblion 11 i 19 oed nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gan amlinellu lle mae dulliau wedi bod yn llwyddiannus a lle nad ydynt wedi cael yr effaith a gynlluniwyd, ac archwilio'r rhesymau y tu ôl i hyn;
- Galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried y dulliau mwyaf priodol i weithredu unrhyw barhad neu ehangiad posibl i'r rhaglen.

Dull

4. Defnyddiwyd y wybodaeth ganlynol i werthuso MELAP:

- Cyfweiliadau ffôn gydag arweinwyr Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau yn y naw ardal a gyfranogodd yn MELAP ar gamau amrywiol o'r gwerthusiad;
- Astudiaethau achos o un ysgol ym mhob un o'r naw ardal ALL yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn gweithio yn yr ysgol, uwch reolwyr ac athrawon pwnc a grwpiau ffocws gyda disgyblion a gynorthwywyd (35 o staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, 21 o athrawon pwnc, 9 aelod o dîm rheoli'r ysgol, 47 o ddisgyblion a dau riant);
- Arolygon o ddisgyblion SIY yn cael cymorth (466 o ymatebion, 24 y cant o'r rheiny yn cael cymorth yn 2012/13 ac yn gynrychioliadol i gryn raddau o ran oed a rhyw) a staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn cyflwyno gweithgareddau o gyllid y prosiect (51 o ymatebion, cyfradd ymateb o 58 y cant o'r rheiny a ariannwyd);
- Gwybodaeth reoli a oedd yn cynnwys data am ddeilliannau a buddiolwyr a gasglwyd ar gyfer adroddiad Cronfa Gymdeithasol

Ewrop yn erbyn targedau'r Gronfa, nodweddion cyfranogwyr a'u lleoliad, data'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion a ddarparwyd gan saith ALI³ (a alluogodd dadansoddi'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a gynorthwywyd o ran eu cymhwysedd yn Saesneg yn erbyn nodweddion eraill); a data ar nifer y disgyblion a gynorthwywyd a'r staff a gyflogwyd cyn i'r prosiect ddechrau yn 2010 (cefnogwyd gan y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig) ym mhob ardal.

- Data arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS) ar gyfer disgyblion a gynorthwywyd gan y prosiect i ganfod unrhyw newidiadau mewn agweddau at bresenoldeb, bod yn barod i ddysgu ac ymateb i'r cwricwlwm dros y cyfnod y maent wedi cyfranogi⁴;
- Data cyflawniad a data disgyblion a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru o ysgolion (Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)) i gymharu disgyblion SIY yn yr ardaloedd yn cyfranogi yn MELAP dros y cyfnod 2010-12 gyda disgyblion SIY a'r rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY mewn ardaloedd yng Nghymru nad ydynt yn cyfranogi yn y prosiect;
- Adolygiad o lenyddiaeth i nodi arfer gorau a hyrwyddwyd ar gyfer gwasanaethau ac ysgolion i gynorthwyo dysgwyr SIY a'r dystiolaeth ymchwil y mae hyn yn seiliedig arni;
- Dogfennaeth y prosiect (achos busnes, gwariant) ac adroddiadau arolygu Estyn o ysgolion sy'n cael cymorth drwy MELAP lle tynnwyd sylw at y ddarpariaeth SIY yn yr adroddiad arolygu; a
- Data o ALLau unigol ynglŷn â hyfforddiant a ddarparwyd i staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ac athrawon pwnc mewn ysgolion yn ystod y rhaglen, a'r staff a gyflogwyd.

5. Mae'r data gwaelodlin a data CYBLD wedi galluogi asesiad o ychwanegedd y rhaglen am y bu modd mesur yr hyn yr oedd y cyllid ychwanegol yn ardaloedd MELAP (o gymharu ag ardaloedd a gynorthwyir drwy'r grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn unig) wedi galluogi ei

³ Blaenau Gwent, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

⁴ Arolwg cyfrifiadur 20 munud yw hwn sy'n mynd i'r afael â naw ffactor sy'n gysylltiedig â nodau addysgol allweddol, yn cynnwys agwedd at bresenoldeb, bod yn barod i ddysgu ac ymateb i'r cwricwlwm. Mae wedi'i drwyddedu ac yn cael ei weinyddu gan Granada Learning Group, sy'n darparu'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru.

ddarparu o ran dysgwyr a gynorthwywyd. Mae hefyd yn galluogi cymharu'r hyn y mae dysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP wedi'i gyflawni ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 o gymharu â'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY (a yw cymorth MELAP wedi lleihau'r bwlch?) a dysgwyr SIY mewn ardaloedd eraill (a ydynt wedi gwneud rywfaint gwell o gwbl?).

6. Mae rhai cyfyngiadau o ran yr hyn y mae'r astudiaeth wedi gallu ei wneud i ymateb i nodau'r gwerthusiad. Yn benodol:

- Mae data CYBLD yn nodi disgyblion SIY (na fyddai pob un ohonynt o angenrheidrwydd wedi cael cymorth drwy MELAP) er bod y data ar gyfranogwyr a gweithgareddau yn dynodi y byddai'r rhan fwyaf ohonynt wedi elwa ar MELAP. O ganlyniad, gellir ystyried cymariaethau disgyblion SIY a'r rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY i *ystyried* effaith MELAP;
- Mae'r data ar hyfforddiant staff yn anghyflawn ac mae'r deilliannau a adroddwyd mewn perthynas ag arfer a pherfformiad o natur ansoddol (h.y. nid ydynt yn gynrychiadol o'r boblogaeth staff gyfan) ac ni chawsant eu casglu'n systematig gan y staff a gyfranogodd yn yr hyfforddiant;
- Ni chasglwyd unrhyw ddata ar ddilyniant dysgwyr SIY i ddysgu pellach neu hyfforddiant. Felly nid yw'n glir a yw MELAP wedi atal disgyblion SIY rhag mynd yn NEET, er y dylai cyflawniadau uwch mewn Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd (TGAUau), gan gynnwys Saesneg a mathemateg, alluogi symud ymlaen at Safon Uwch a llwybrau dysgu eraill; ac
- Mae'n rhaid nodi dulliau llwyddiannus o'r data cyflawniad cyffredinol ac ymatebion ansoddol cyfranogwyr sy'n ei gwneud hi'n anodd crisialu mwy ar arfer da, er bod modd cymharu dulliau gwahanol o hyfforddi.

7. Wrth ystyried y canfyddiadau, dylid ystyried bod gan yr ALLau niferoedd gwahanol iawn o ddysgwyr SIY a meintiau gwahanol o dimau Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. O ran disgyblion, mae hyn yn amrywio o Abertawe gyda dros 2,900 o ddisgyblion SIY (2011/12) i Flaenau Gwent gyda 185. Hefyd, mae lefelau gwahanol o ddisgyblion SIY fesul ysgol uwchradd a fyddai'n effeithio ar gyflwyno gweithgareddau. Ar

gyfartaledd, mae gan Abertawe gyfartaledd o 68 o ddysgwyr SIY fesul ysgol uwchradd, a phedwar disgybl yn unig fesul ysgol uwchradd sydd gan Flaenau Gwent.

Canfyddiadau

Rheoli a chyflwyno MELAP

8. Ar y cychwyn, roedd ALLau yn cael rhai anawsterau yn amcangyfrif a gosod targedau. Roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â deilliannau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ddiffiniwyd, ac anawsterau yn gwneud rhagolygon. Deilliodd hyn yn rhannol o ddiffyg profiad gyda rhaglenni grant a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn benodol, ac mewn llawer o achosion, diffyg systemau canolog ar waith i fonitro disgyblion SIY. Trwy'r rhaglen, mae pob un o'r ALLau wedi mabwysiadu a/neu addasu'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion yr oedd Abertawe eisoes yn ei ddefnyddio i gofnodi a monitro gallu ieithyddol disgyblion SIY a'r cymorth a roddwyd. Hefyd, fe wnaeth yr ALLau cyfrannog gynnwys ysgolion wrth drefnu i'r rhan fwyaf o ddisgyblion SIY gwblhau arolygon PASS ar gyfnodau rheolaidd, a defnyddio'r canlyniadau. Er i staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig weld y gofynion gweinyddol ychwanegol yn anodd ar y cychwyn, roeddent yn gweld mantais data'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion a data PASS ar gyfer monitro disgyblion. Yn anffodus, ni wnaeth yr ALLau cyfrannog gasglu data'n systematig i fonitro cyflawniad deilliannau eraill (dilyniant, adeiladu gallu).
9. Roedd ehangu gweithgareddau yn dibynnu hefyd ar adleoli a recriwtio staff ychwanegol ym mhob un o'r ALLau. Cafodd y rhan fwyaf ohonynt anawsterau yn gwneud hyn oherwydd amseru cychwyn y rhaglen ychydig cyn dechrau'r flwyddyn ysgol a'r angen i recriwtio staff newydd nad oedd modd eu recriwtio o gronfeydd staff a oedd yn wynebu colli swydd. Canfu'r rheiny a oedd yn recriwtio cynorthwyyr addysgu dwyieithog fod rhaid iddynt newid eu gofynion hanfodol a chynnig hyfforddiant cymorth addysgu.

Ail-lunio gweithgareddau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig o fewn MELAP

10. Roedd yr ALLau cyfrannog yn ymwybodol o arweiniad Llywodraeth Cymru ar addysgu disgyblion SIY pan ddatblygont eu cynlluniau ar gyfer rhoi MELAP ar waith, ac roeddent wedi rhoi ystyriaeth iddo yn eu gwasanaethau cyfredol lle'r oedd y rhain wedi'u sefydlu'n dda. Ni theimlai'r un ohonynt fod angen dulliau gwahanol iawn arnynt. Credai'r rhan fwyaf y gallent, o gael y cyllid ychwanegol, ddarparu cymorth i fwy o ddisgyblion a/neu gymorth ychwanegol ar ôl bod heb ddigon o adnoddau i fodloni'r galw cynyddol mewn ysgolion uwchradd, ac felly roedd angen iddynt recriwtio mwy o gynorthwywyr addysgu dwyieithog a/neu athrawon arbenigol SIY. Fodd bynnag:
- Penderfynodd Abertawe ddefnyddio'r cyfle i sefydlu rhaglen i gynyddu capasiti athrawon dosbarth i addysgu disgyblion ag anghenion SIY yn hytrach na chynyddu cymorth ystafell ddosbarth yn sylwedol. Golygai hyn cynyddu nifer yr athrawon SIY arbenigol;
 - Penderfynodd rhai ehangu'r gweithgareddau y gallai athrawon arbenigol SIY a chynorthwywyr addysgu dwyieithog eu darparu er mwyn bod o fudd i ddysgwyr SIY a'u hathrawon i lenwi bylchau, fel hyfforddiant manwl i athrawon a meithrin cysylltiadau gwell rhwng yr ysgol a'r cartref gyda rhieni disgyblion SIY; a
 - Phenderfynodd saith gynyddu eu cymorth i alluogi rhai disgyblion ennill cymhwyster yn eu hiaith gartref (mewn ymateb i'r targed a osodwyd ar gyfer MELAP) tra bod dau wedi sefydlu hyn am y tro cyntaf.
11. O ganlyniad, parhaodd y rhan fwyaf o'r ALLau â'r un gweithgareddau yr oeddent yn eu darparu o dan y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, ond gan gynnig cymorth ehangach gyda'r staff ychwanegol yr oeddent yn gallu'u hariannu, ac ehangu'r gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu. Cadarnhawyd hyn gan ddisgyblion a ymatebodd i'r arolwg a chyfweliadau gyda staff mewn ysgolion. Ychydig o'r ALLau a gychwynnodd unrhyw weithgareddau arloesol nad oeddent eisoes yn cael eu darparu gan o leiaf un Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arall. Cyflwynwyd

gweithgareddau arloesol ar raddfa fach gan un ALI, gan gynnwys treialu dysgu o bell, cynnig cyrsiau darllen y tu allan i'r dosbarth, a darparu llechi i rai dysgwyr SIY.

Disgyblion yn elwa ar MELAP

12. Cynorthwywyd 1,943 o ddisgyblion mewn 74 o ysgolion gwahanol gan MELAP. Yn Abertawe (57 y cant) yr oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a gynorthwywyd, ac roedd bron pob un ohonynt rhwng 11 ac 16 oed (93 y cant). Mae hyn yn unol â disgwyliadau'r rhaglen o gynorthwyo disgyblion ysgolion uwchradd. Roedd y disgyblion yn cynrychioli 81 o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gwahanol, gyda'r chwech uchaf ond yn cyfrif am 53 y cant o'r cyfanswm. Pwyliaid oedd y grŵp mwyaf cyffredin mewn wyth ALI. Yn Abertawe, Bangladeshiaid oedd y grŵp mwyaf.
13. Er na wnaeth y prosiect gyflawni ei dargedau gwreiddiol, llwyddodd i gyflawni'r targed diwygiedig terfynol ar gyfer disgyblion i'w cynorthwyo, a chyflawnodd pob un o'r ALLau o leiaf 90 y cant o'u targed. Hefyd, cyflawnodd y prosiect 93 y cant o'r targed diwygiedig terfynol ar gyfer nifer y cymwysterau iaith gartref i'w cyflawni, gyda phedwar ALI yn cyflawni 100 y cant neu fwy o'u targed; ac 82 y cant o'r targed diwygiedig terfynol ar gyfer gwelliant o un cam o leiaf ar raddfa Llywodraeth Cymru mewn gallu yn yr iaith Saesneg. Cyflawnodd ddau ALI fwy na'u targed a chyflawnodd ddau ALI tua hanner eu targed.
14. Yn y rhan fwyaf o'r ALLau, fe wnaeth 55 i 65 y cant o ddisgyblion a gafodd gymorth wella eu gallu yn yr iaith Saesneg o un cam o leiaf ar raddfa Llywodraeth Cymru. Yr eithriadau i hyn oedd Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot a gyflawnodd gyfrannau uwch (97 y cant a 75 y cant yn y drefn honno), ac Abertawe, lle dim ond 36 y cant a gyflawnodd hyn. Roedd yn ymddangos bod perthynas rhwng nifer y blynyddoedd o gymorth a dderbyniodd disgybl, a'r lefel gallu yn yr iaith Saesneg pan ddechreuodd disgybl gael cymorth, a chyfran y disgyblion yn cyflawni gwelliant o un cam o leiaf yn Saesneg. Roedd y rheiny â lefel gychwynnol is o ran gallu yn yr iaith Saesneg yn fwy tebygol o gyflawni gwelliant un cam a'r rheiny a oedd wedi derbyn cymorth am y cyfnod i gyd.

15. Roedd disgyblion a staff a ymatebodd i'r arolygon ac a gyfranogodd mewn cyfweiliadau yn gadarnhaol i raddau helaeth ynglŷn ag effeithiau'r cymorth a roddwyd, a sut yr oedd hyn wedi helpu disgyblion i integreiddio i addysg a bywyd ysgol. Teimlai 82 y cant o ddisgyblion a gafodd eu cyfweled fod y cymorth yr oeddent wedi'i gael wedi'u helpu i wella'u hiaith Saesneg; teimlai 76 y cant ei fod wedi'u helpu i gyflawni canlyniadau gwell yn y dosbarth ac mewn profion; a theimlai 74 y cant ei fod wedi'i helpu i ddeall eu hathrawon. Teimlai'r rhan fwyaf o'r staff fod y gweithgareddau yr oeddent wedi'u cyflwyno wedi helpu gwella lefelau Saesneg y disgyblion a'u cyflawniad yn y dosbarth.

Staff yn elwa ar MELAP

16. Darparodd MELAP hyfforddiant ar gyfer o leiaf 756 o staff. Staff addysgu mewn ysgolion oedd y rhain yn bennaf (710); staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig oedd y gweddill, a gafodd helpu i ennill cymwysterau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Chwec ALI wnaeth gyfrif am y rhan fwyaf o'r hyfforddiant i athrawon, gyda'r niferoedd uchaf yn Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Fe wnaeth wyth ALI gynorthwyo staff i hyfforddi ar gyfer cymwysterau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Roedd yr hyfforddiant i athrawon yn amrywio o sesiynau mewn diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, i hyfforddiant grwpiau bach dros ddiwrnod, a chwrs hyfforddi 10 i 12 wythnos, yn Abertawe, ar gyfer athrawon pwnc (hanes, mathemateg, a gwyddoniaeth) a oedd yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol, arsylwi a mentora. Roedd nifer o ALLau wedi bwriadu gwneud mwy o hyfforddiant manwl ond cawsant anawsterau o ran cael ysgolion i ymgysylltu â'r cyfryw raglenni.
17. Roedd staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael ac effaith hyn ar eu gwaith yn yr ysgol. Roedd barnau mwy cymysg ynglŷn â'r hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael gan staff addysgu'r ysgolion. Yn aml, adroddodd y rheiny a oedd wedi cael cyfnodau hyfforddi byrrach nad oedd yn ddefnyddiol iawn gan nad oedd yn darparu digon o enghreifftiau ymarferol i'w defnyddio ar ôl hynny, neu fod yr hyfforddiant wedi'i gynnal

ar ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd prysur. Roedd athrawon yn Abertawe yn fwy cadarnhaol o lawer ynglŷn â'r hyfforddiant a'r cymorth yr oeddent wedi'u cael, y wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd a'r effaith a gafodd y rhain ar addysgu dysgwyr SIY.

Gwerth ychwanegol MELAP

18. Yn sgil cyllid MELAP ychwanegol, roedd pob ALI wedi gallu cynyddu nifer y staff a oedd yn darparu cymorth mewn ysgolion uwchradd o gymharu â'r sefyllfa cyn MELAP. Fe wnaeth hyn yn ei dro alluogi rhoi mwy o gymorth ym mhob maes i ddisgyblion SIY. Amcangyfrifir bod hyn yn gynydd net o 386 o ddisgyblion yn cael cymorth ar draws pob un o'r ALI⁵. Hefyd, aeth chwech ALI ati i gynyddu nifer gyfartalog yr oriau o gymorth uniongyrchol y mae disgyblion SIY yn ei gael bob wythnos, ac fe wnaeth chwech ALI gynyddu nifer y staff ysgol uwchradd a oedd yn cael hyfforddiant ar gyfer SIY.
19. Yn ogystal, mae'r dadansoddiad o ddata CYBLD yn awgrymu bod cyllid MELAP wedi darparu gweithgareddau sydd wedi helpu gwella cyflawniad dysgwyr SIY mewn arholiadau TGAU. Er nad yw nifer y dysgwyr SIY sy'n cyflawni lefel 1 yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi newid yn yr ALLau MELAP dros gyfnod y prosiect, fe wnaeth eu cyrhaeddiad ar lefel 2 wella 15.8 pwynt canran, a 13.4 pwynt canran ar lefel 2 Saesneg, Cymraeg a mathemateg (SC&M). Un o nodau'r prosiect oedd lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion SIY a disgyblion eraill. Mae'r data CYBLD yn awgrymu bod hyn wedi digwydd, gyda'r gwahaniaeth rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn lleihau 5.8 pwynt canran ar lefel 2 a naw phwynt canran ar lefel 2 SC&M.
20. O gymharu â'r ardaloedd na chafodd gyllid MELAP, ni fu gymaint o leihad yn y bwlch rhwng dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY. Tra bod y bwlch, ar lefel 2, wedi lleihau naw pwynt canran yn yr ardaloedd MELAP, fe wnaeth gynyddu bedwar pwynt canran yn yr ardal

⁵ Mae hyn yn seiliedig ar gymharu'r cyfanswm a gynorthwywyd ym mis Gorffennaf 2013 â'r cyfanswm amcangyfrifedig a gynorthwywyd ym mis Gorffennaf 2010 a ddarparwyd gan yr arweinwyr prosiect ar gyfer pob ALI.

Cystadleurwydd. Mae hyn yn awgrymu bod MELAP, ynghyd â chyllid arall, wedi cyfrannu at wella cyflawniad yn yr ardal Gydgyfeirio, at wella cyflawniad dysgwyr SIY ac at leihau'r bwlch cyflawniad.

Casgliadau

21. Mae MELAP wedi darparu adnoddau ychwanegol i ALLau i gynorthwyo ysgolion a'u disgyblion gydag anghenion SIY. Mae'n amlwg bod yr adnoddau wedi galluogi rhoi cymorth i fwy o ddisgyblion, darparu mwy o gymorth a darparu dulliau ychwanegol o gynorthwyo. Er bod y prosiect wedi methu ei dargedau gwreiddiol, mae wedi bodloni ei darged diwygiedig ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion SIY ac wedi dod yn agos at gyflawni ei dargedau diwygiedig ar gyfer cyflawni gwelliannau mewn cymwyseddau yn yr iaith Saesneg a sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer cymwyseddau yn yr iaith gartref.
22. O ran ei nodau i godi cyrhaeddiad a lleihau risg tangyflawni, darparu cyfle cyfartal ar gyfer dilyniant a rhoi systemau ar waith ar gyfer mesur cyflawniad ac ymgysylltiad, mae MELAP wedi:
 - Cyfrannu at gyrhaeddiad addysgol disgyblion ag anghenion SIY. Er ei fod wedi helpu cynyddu cymwyseddau yn Saesneg i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac wedi darparu cymorth i ennill cymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn ieithoedd tramor, mae hefyd wedi helpu codi cyflawniad disgyblion SIY o ran TGAU, gan gynnwys cyflawni Gradd C ac uwch yn Saesneg a mathemateg a lleihau'r bwlch gyda disgyblion nad ydynt yn ddisgyblion SIY. Dylai hyn wella rhagolygon dysgwyr ar gyfer symud i addysg bellach ac addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant, er nad oes unrhyw ddata i gefnogi hyn;
 - Adeiladu capasiti'r gweithlu arbenigol mewn timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a chapasiti athrawon pwnc yn yr ystafell ddosbarth i addysgu disgyblion ag anghenion SIY yn effeithiol, a chyflwyno systemau ar gyfer monitro cyflawniad. Yn gyffredinol, mae'r athrawon sydd wedi cael hyfforddiant manwl a chymorth o'r farn fod hyn wedi eu helpu i ymgysylltu â disgyblion a'u gallu i ddysgu.

23. O ran ei **dyluniad a'i datblygiad**, mae'r rhaglen wedi parhau i ddiwallu anghenion disgyblion ac yn gyffredinol wedi rhoi'r hyblygrwydd i ALLau i lunio eu hymateb a'u gweithredoedd. Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o'r ALLau (ond nid bob un) wynebu anawsterau o ran ehangu neu addasu'u gweithgareddau gyda'r cyllid ychwanegol. Gellid yn wir fod wedi rhagweld materion yn ymwneud â recriwtio staff ychwanegol gyda sgiliau priodol, er bod yr hyblygrwydd yn y rhaglen wedi galluogi rhai i ymateb yn gadarnhaol. Mae materion yn ymwneud â gosod targedau yn awgrymu y cafwyd systemau gwybodaeth reoli annigonol a chynlluniau wedi'u prisio'n wael.
24. O ran **cyflwyniad a pherfformiad**, mae'r rhaglen fwy neu lai wedi cyflawni ei hallbynnau diwygiedig ac wedi cyfrannu at wella cyrhaeddiad dysgwyr SIY ar lefel TGAU, a lleihau'r bwlch. Mae hyn yn cefnogi gwerth y cymorth a roddwyd tuag at roi'r cyfle i bob dysgwr gydweddu ei gyflawniadau â'i alluoedd drwy gaffael cymhwysedd yn Saesneg a chymorth i ddysgu pynciau eraill. Fodd bynnag, mae'n anodd o hyd canfod pa agweddau ar gymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd wedi gwneud y gwahaniaeth hwn.
25. Ac mewn perthynas â **gwerth ychwanegol**, darparwyd ychwanegedd gan y rhaglen drwy gyfrannu at leihau'r bwlch mewn cyflawniad, a gwneud hynny'n fwy sylweddol nag yn yr ardal Cystadleurwydd. Er ei bod hefyd wedi darparu rhywfaint o sylfaen ar gyfer perfformiad gwell yn sgil adeiladu gallu a systemau i reoli cymorth i ddysgwyr SIY yn fwy effeithiol, mae'n destun pryder y bydd adnoddau ar gyfer timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn lleihau wrth i'r rhaglen ddod i ben. Gellid fod wedi gwneud yn fwy o'r cyfle i wella gallu athrawon pwnc arbenigol yn yr ystafell ddosbarth i integreiddio dysgwyr SIY â hyfforddiant ar y modd y maent yn addysgu'r cyfryw ddysgwyr a'r ffordd maent yn gweithio gydag arbenigwyr sy'n darparu cymorth. Mae profiad Abertawe yn awgrymu bod hyn yn arfer da.

Beth ellir ei ddysgu o'r prosiect?

26. Mae'r asesiad uchod yn arwain at rai gwersi ar gyfer polisi ac arfer yn ymwneud â SIY i ddarparwyr gwasanaeth ALI, WEFO a Llywodraeth Cymru.

Gwersi i ddarparwyr awdurdod lleol

27. Gallai'r canlynol fod wedi gwneud gwahaniaeth:

- Cydnabod y byddai staff posibl yn brin ac addasu gofynion hanfodol yn unol â hynny (fel y gwnaeth rhai yn ddiweddarach). I'r disgyblion hynny â Saesneg gwell, gall cymorth dwyieithog fod yn llai angenrheidiol felly gallai cynorthwyydd addysgu profiadol heb y sgiliau yn yr iaith gartref fod o fudd i ddisgyblion;
- Ystyried staff posibl sydd wedi colli swyddi fel ymgeiswyr blaenoriaeth ochr yn ochr ag ymgeiswyr ar gyfer athrawon SIY a chynorthwywyr addysgu dwyieithog;
- Gallai addasu a mabwysiadu system Cofnod Cyflawniad Disgyblion Abertawe yn fwy cyflym ym mhob un o'r ALIau fod wedi cynorthwyo â monitro'r rhaglen a rheoli gweithgareddau SIY yn y dyfodol. Byddai cael adnoddau gweinyddol ychwanegol yn nhimau'r prosiect wedi helpu;
- Defnyddio data gwaelodlin a model syml o effaith ddisgwyliedig y rhaglen i osod targedau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (niferoedd a gynorthwyir ar hyn o bryd, niferoedd heb eu cynorthwyo, tueddiadau, dyraniadau staff i weithgareddau a chostau). Gallai'r model rhesymeg fod wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru o'r achos busnes; a
- Defnyddio'r model rhesymeg i bennu disgwyliadau o'r ystod ehangach o gyflawniadau fel bod modd cytuno targedau a deilliannau eraill ar gyfer pob ALI mewn perthynas â'u gweithgareddau cynlluniedig, a chytuno'r gofynion tystiolaeth ar gyfer monitro a gwerthuso ar y cychwyn.

28. Byddai'r canlynol wedi gwneud gwahaniaeth:

- Sefydlu model rhesymeg ar gyfer y rhaglen fel rhan o'i hachos busnes i arwain monitro a gwerthuso;
- Cael dyddiad cychwyn ar ddechrau tymor yr haf ar gyfer rhaglen y mae angen iddi gael staff ychwanegol yn eu lle erbyn dechrau blwyddyn ysgol;
- Sefydlu dull cyson o amcangyfrif targedau o ystyried y cyllid a gynigir; a
- Darparu arweiniad ar gynlluniau gwasanaeth, data gwaelodlin a gwybodaeth reoli i gyflwyno tystiolaeth o holl amcanion y rhaglen.

29. Mae dwy wers allweddol o ddeilliannau'r rhaglen y mae angen eu hystyried yn ehangach.

30. Yn gyntaf, mae'r rhaglen wedi cyfrannu at gynyddu cyrhaeddiad a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad. Mae hyn ochr yn ochr â mentrau Blaenoriaeth 1 eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop mewn ysgolion yn yr ardal Gydgyfeirio⁶ ond rhaid bod gwaith timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a ariannwyd o dan MELAP yn ffactor arwyddocaol. Rhaid cydnabod gwerth cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn cyngor i ysgolion ynglŷn â sut gallant leihau'r bylchau mewn cyrhaeddiad yr eir i'r afael â nhw trwy raglenni eraill ar hyn o bryd.

31. Yn ail, mae'r rhaglen wedi galluogi mwy o hyfforddiant manwl ar gyfer athrawon ystafell ddosbarth i addysgu dysgwyr SIY, addasu eu harferion addysgu a dysgu sut gallant weithio'n effeithiol gyda chynorthwyyr addysgu dwyieithog ac athrawon arbenigol. Yn Abertawe, gwelwyd hyn fel budd cadarnhaol. Mae hyn yn helpu cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. Dylid adlewyrchu hyn mewn arweiniad wedi'i ddiweddarau i ysgolion a darpariaeth Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau, a dylid ei fabwysiadu'n ehangach.

⁶ Roedd y rhain yn cynnwys Ymgysylltu ac Atal [Engage and Pre-vent], Cyrraedd y Nod, Llwyddo'n Lleol, STEM Cymru ac AWEMA. Gweler adroddiad WEFO ar werthusiad Thematisig o Flaenoriaeth 1 Ardal Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Ionawr 2012

Argymhellion

32. Dylai ALLau a Llywodraeth Cymru ystyried y gwersi uchod a chymryd camau priodol i'w rhoi ar waith, gan gynnwys lledaenu.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Medi 2012 comisiynwyd ICF GHK ac Arad Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MELAP). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gwerthusiad crynodedol o'r prosiect. Fel y cyfryw, mae'n:
- Bodloni gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop trwy roi cyfrif ac asesiad o'r rhaglen;
 - Asesu effeithiolrwydd MELAP o ran bodloni ei nodau, amcanion a thargedau, o ran gwella cyflawniad plant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a chynorthwyo adeiladu capasiti mewn ysgolion ac awdurdodau lleol;
 - Nodi enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu cymorth i ddisgyblion 11 i 19 oed nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gan amlinellu lle mae dulliau wedi bod yn llwyddiannus a lle nad ydynt wedi cael yr effaith a gynlluniwyd, ac archwilio'r rhesymau y tu ôl i hyn;
 - Galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried y dulliau mwyaf priodol i weithredu unrhyw barhad neu ehangiad posibl i'r rhaglen.

Cyd-destun y rhaglen

Anghenion

- 1.2 Mae ymchwil a dadansoddi data perfformiad disgyblion yn dangos bod gan ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru gyrhaeddiad is yn y pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 1 i 4 o gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol⁷. Dangosodd astudiaeth gynhwysfawr fod cyrhaeddiad, ar gyfartaledd, rhwng chwech a 21 o bwyntiau canran yn is ymhlith disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig na disgyblion Gwyn, ac mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad yn fwy amlwg yn yr ysgol uwchradd na'r ysgol gynradd.⁸ Nid yw disgyblion lleiafrifoedd ethnig, fodd bynnag, yn

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Cyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru

⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Cyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru

grŵp unffurf; mae amrywiadau mawr mewn cyrhaeddiad rhwng grwpiau ethnig. Er enghraifft, mae gan ddisgyblion o ethnigrwydd Indiaid a Tsieineaidd yng Nghymru gyfraddau cyflawniad cymharol uchel, ac felly hefyd disgyblion o gefndir cymysg neu gefndir Gwyn Dwyrain Ewrop, er bod cyrhaeddiad yn amrywio rhwng Cyfnodau Allweddol, tra bod lefelau cyflawniad disgyblion o gefndiroedd Pacistanaidd a Bangladeshaidd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.⁹ Cydnabyddir bod plant ymfudwyr mwy diweddar dan anfantais yn yr ysgol yn aml oherwydd eu gafael cymharol wael ar y Saesneg, a defnyddio mamiaith gartref heblaw am Saesneg¹⁰.

Strategaethau

- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i'r egwyddor o sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial llawn beth bynnag yw ei gefndir, ac i alluogi poblogaeth gynyddol o ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig i gyflawni hyfedredd yn Saesneg neu Gymraeg fel sylfaen ar gyfer dysgu pynciau a sgiliau eraill.
- 1.4 Mae cyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu yn ganolog i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru fel sail ei holl bolisiau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae cydraddoldeb deilliannau ar gyfer grwpiau gwahanol yn thema allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu¹¹ ac adlewyrchir hyn mewn ffocws clir ar leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng grwpiau gwahanol. Mae 'Gwella Ysgolion' yn amlinellu'r polisi cyfredol sy'n amlygu'r angen i wella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol. Mae'n cynnwys camau gweithredu i wella addysgu llythrennedd a rhifedd, cynyddu datblygiad proffesiynol athrawon a chefnogi disgyblion o gefndir difreintiedig i gyflawni eu potensial¹².

⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Cyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru; Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Adolygiad o'r Grant Cyflawniad Ethnig Lleiafrifol, CRG Research Ltd, a data'r Dadansoddiad o Gyflawniad Academaidd yn ôl Nodweddion Disgyblion, 2011, rhyddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/8593891/?skip=1&lang=cy>

¹⁰ W Knapp Language and learning disadvantage for learners with a migrant background, Cyngor Ewrop, Y Gynhadledd Ryngwladol ar Ieithoedd yn yr Ysgol, Hydref 2006

¹¹ Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2011)

¹² <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121025improvingschoolsen.pdf>

- 1.5 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru i ysgolion ac ALLau ar Gynhwysiant a Chymorth Disgyblion yn amlygu'r angen i weithio i sicrhau system addysg gynhwysol lle bydd ysgolion yn addasu at anghenion grwpiau dysgwyr gwahanol. Mae'r arweiniad yn nodi grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac ymhlith y rhain y mae disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig, dysgwyr sy'n Dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY), ceiswyr lloches a ffoaduriaid, dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant gweithwyr mudol. Mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-15¹³ Llywodraeth Cymru, a ddisodlwyd gan gynllun gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu¹⁴, yn tynnu sylw at gamau i nodi a chefnogi'r rheiny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), grŵp sy'n tueddu bod â lefelau llythrennedd cymharol wael.

Cyllid i gynorthwyo disgyblion

- 1.6 Datblygwyd MELAP i helpu ysgolion ac ALLau yn Ardal Gydygyfeirio Cymru (gorllewin Cymru a'r cymoedd) i wella'r gweithgareddau yr oeddent yn eu gwneud i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn cyflawniad rhwng disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig ag anghenion SIY a'r rheiny heb yr anghenion hynny. Roedd y ffocws felly ar ddisgyblion nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a'r rheiny a allai fod yn ymfudwyr diweddar.
- 1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid ychwanegol i ALLau ar gyfer y gweithgareddau hyn ers cryn amser. Yn 2007, cyfunwyd y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Ceiswyr Lloches i sefydlu'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG). Yn y flwyddyn academiaidd 2012/13, darparodd MEAG oddeutu £10 miliwn i ALLau ar hyd a lled Cymru. Ei nod yw darparu cymorth i ddisgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a hefyd disgyblion o rai grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig y nodwyd eu bod mewn perygl o dangyflawni (dehonglwyd hyn fel disgyblion 'nad ydynt yn cyflawni'u potensial', gan

¹³ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/yeep/?skip=1&lang=cy>

¹⁴ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?skip=1&lang=cy>

na roddwyd unrhyw ddiffiniad yn y ddogfen ffynhonnell).¹⁵ Gall y cyllid gael ei ddefnyddio gan ALLau i ariannu athrawon SIY arbenigol a chynorthwyrwyr addysgu dwyieithog, yn ogystal ag adnoddau addysg, hyfforddiant i staff prif ffrwd a phrosiectau penodol. Mewn llawer o awdurdodau lleol (ALLau), defnyddiwyd MEAG i ariannu Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS)¹⁶ sy'n gweithio gyda disgyblion ar draws ardal yr ALI mewn ysgolion gwahanol¹⁷.

- 1.8 Cynigiodd MELAP gyfle i ehangu a chynyddu gweithgareddau grant presennol er mwyn codi cyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig 11 i 19 yr oedd perygl iddynt danberfformio neu o beidio â gweithio tuag at addysg bellach neu gyflogaeth yn Ardal Gydygyfeirio Cymru trwy ddefnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae cyllid MEAG ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer MELAP.

Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

- 1.9 Mae gan MELAP dri phrif nod¹⁸, sef
- Codi cyrhaeddiad a mynd i'r afael â risg tangyflawni ymhlith grwpiau o bobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig;
 - Gwella cyfle cyfartal at gyflogaeth a chyflogadwyedd i bobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y dyfodol, drwy ymgysylltiad gwell mewn addysg a hyfforddiant; ac
 - Adeiladu ar systemau monitro a gwerthuso presennol er mwyn mesur yn effeithiol lefelau cyflawniad ac ymgysylltiad y disgyblion targedig a gynorthwywyd.
- 1.10 Yn sylfaen i'r nodau hyn, roedd yr amcanion a'r targedau gwreiddiol canlynol gan MELAP:

¹⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Adolygiad o'r Grant Cyflawniad Ethnig Lleiafrifol, CRG Research Ltd, a *data'r Dadansoddiad o Gyflawniad Academaidd yn ôl Nodweddion Disgyblion, 2011, rhyddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012*

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/8593891/?skip=1&lang=cy>

¹⁶ Mae enwau gwahanol i EMAS ym mhob ardal Awdurdod Lleol. Er hwylustod, byddwn yn cyfeirio at bob un o'r gwasanaethau hyn fel EMAS yn yr adroddiad hwn.

¹⁷ Mewn ychydig o ardaloedd lle mae'r nifer fach o ddisgyblion SIY a'r lefel isel gyfatebol o adnoddau ychwanegol yn golygu nad yw tîm cymorth canolog yn ymarferol, mae cyllid wedi'i ddatganoli i ysgolion penodol.

¹⁸ Cynllun Busnes Gwreiddiol MELAP (2010)

- Amcan 1: Goresgyn rhwystrau rhag dysgu i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i oddeutu 3,000 o bobl ifanc 11 i 19 oed;
- Amcan 2: Gwellu lefelau cyrhaeddiad addysgol ymhlith 3,000 o bobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig ac felly gwella'u rhagolygon o symud i addysg bellach neu addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant;
- Amcan 3: Adeiladu capasiti a rhannu arfer da ymhlith ymarferwyr arbenigol mewn gwasanaethau i wella lefelau ymgysylltiad â grwpiau o bobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

1.11 Disgwylir y bydd MELAP:

- Yn mynd i'r afael ag anghenion cymorth ychwanegol disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig 11 i 19 oed er mwyn cael gwared ar y bwlch mewn cyflawniad;
- Yn cynnig ymagwedd hyblyg, wedi'i theilwra, at gymorth SIY yn yr ystafell ddosbarth a thu allan i'r ysgol;
- Yn helpu atal pobl ifanc rhag peidio â mynd yn NEET, drwy wella llythrennedd a chyrhaeddiad mewn ysgolion a chodi dyheadau ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant a swyddi yn y dyfodol; ac
- Yn helpu sicrhau bod yr holl ddisgyblion 14 i 19 oed yn cael cynnig llwybr dysgu sy'n diwallu anghenion pob unigolyn, gan gynnwys haenau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol addysg, a mynediad i gymorth personol – i helpu goresgyn unrhyw rwystrau personol rhag dysgu.¹⁹

1.12 Mae'r prosiect wedi'i reoli gan Gangen Amddiffyn Lleiafrifoedd Ethnig a Phlant Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Roedd systemau rheoli eisoes ar waith ar gyfer gweinyddu cynllun MEAG. Yn yr ALLau, rheolir y prosiect gan arweinydd tîm yr EMAS gyda rhywfaint o gymorth gan Swyddogion Ewropeaidd ALI wrth wneud ceisiadau i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae'r arweinwyr tîm ym mhob ALI yn cysylltu ag ysgolion a staff (staff

¹⁹ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/pathways/?lang=en>

ysgolion prif ffrwd a staff EMAS) i sefydlu'r lefel a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer pob disgybl a gyfeirir atynt, i asesu disgyblion newydd er mwyn pennu beth yw eu hanghenion SIY, a'u gallu yn eu hiaith gartref (i bennu a yw unrhyw Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu celu gan anghenion SIY), rheolaeth llinell ar gyfer staff EMS, a darparu gwybodaeth reoli i Lywodraeth Cymru.

Nodau'r gwerthusiad a chwestiynau ymchwil allweddol

1.13 Mae'n rhaid i'r gwerthusiad crynoddol:

- Fodloni gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop trwy roi cyfrif ac asesiad o'r rhaglen;
- Asesu effeithiolrwydd MELAP o ran bodloni ei nodau, amcanion a thargedau, o ran gwella cyflawniad plant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a chynorthwyo adeiladu capasiti mewn ysgolion ac ALLau;
- Nodi enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu cymorth i ddisgyblion 11 i 19 oed nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gan amlinellu lle mae dulliau wedi bod yn llwyddiannus a lle nad ydynt wedi cael yr effaith a gynlluniwyd, ac archwilio'r rhesymau y tu ôl i hyn;
- Galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried y dulliau mwyaf priodol i weithredu unrhyw barhad neu ehangiad posibl i'r rhaglen.
- Yn ystod **cyfnod interim** y gwerthusiad, y gofynion penodol oedd:

Blwch1: Nodau'r cyfnod gwerthuso interim

1. Darparu asesiad cychwynnol o gynnydd y rhaglen MELAP:

- A yw'r prosiect ar y trywydd iawn i fodloni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau?
- Beth oedd y man cychwyn ar gyfer pob ALL a sut ydynt wedi datblygu oddi yno?
- Pa ffactorau sydd wedi effeithio ar gynnydd?

2. Archwilio'r dulliau cyflwyno gwahanol ar draws yr ALLau, drwy nodi:

- Beth yw sail resymegol dulliau ALL gwahanol? Sut cafodd angen lleol ei asesu?
- Pa fathau o weithgareddau a gwasanaethau sydd wedi'u cyflwyno gan y rhan fwyaf o ALLau?
- A oes enghreifftiau o gyflwyno arloesol?

3. Dechrau nodi enghreifftiau o arfer da sy'n dod i'r amlwg, gan fesur:

- Pa weithgareddau a dulliau cyflwyno gwasanaethau sy'n gweithio'n dda a pha rai sydd ddim yn gweithio cystal? Beth fu'r galluogwyr, a'r rhwystrau?

- A oes enghreifftiau o arfer da a ddylai lywio gwasanaethau yn y dyfodol?
- 4. Pa mor effeithiol y mae'r prosesau a'r strwythurau sylfaenol yn cael eu gweinyddu? Yn fwyaf nodedig:**
- A yw'r prosesau a'r strwythurau rheoli sydd ar waith yn gweithio'n effeithiol?
 - Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gweithio ar y cyd ar gyfer pob ardal ALI?
 - Pa drefniadau casglu data sydd ar waith? Pa wybodaeth reoli sy'n cael ei chasglu (ymhellach na gofynion gorfodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop)? Sut bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio yn y cyfnod gwerthuso terfynol? A yw'n caniatáu ar gyfer dadansoddi gwelliannau mewn cyflawniad?
 - A yw'r offeryn deilliannau meddal yn cael ei ddefnyddio'n briodol? Sut mae ALLau yn gwahaniaethu o ran y defnydd maent yn ei wneud ohono?

1.14 Yn ystod cyfnod terfynol y gwerthusiad, y gofynion penodol oedd:

Blwch 2: Nodau'r cyfnod gwerthuso terfynol

5. Cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd cyllid MELAP ar lefel rhaglenni:

- Asesu i ba raddau y mae'r rhaglen wedi bodloni'r gofynion a nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol ac a yw'r sail resymegol gychwynnol yn ddilys;
- Nodi newidiadau mewn prosesau sydd wedi gwella'r gwasanaeth a ddarperir, a sut y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar wasanaeth cyflwyno gwasanaethau yn y rhanbarthau sy'n gysylltiedig â'r prosiect?

6. Asesu effeithiau rhaglen MELAP ar gyfranogwyr, ALLau ac ymarferwyr, mewn perthynas â chyrhaeddiad, uchelgais, gweithgareddau, cyflwyno gwasanaethau a chapasiti:

- Trwy ddulliau ymchwil sy'n cipio 'llais y dysgwr' cynnal dadansoddiad o ganfyddiadau buddiolwyr mewn perthynas â'u: hunan hyder, uchelgeisiau, cyflawniadau, ac ymdeimlad o integreiddio yn eu cymuned o ganlyniad i gyfranogi;
- Pa effaith gafodd cymorth MELAP ar y cyfranogwyr a'u lefelau cyflawniad mewn perthynas â 5 cam SIY?
- Sut gwnaeth y rhaglen ddylanwadu ar ymarferwyr mewn ysgolion a gwasanaethau ieuencid, yn ogystal â chysylltiadau a nodwyd mewn ALLau?

7. Archwilio gwaddol rhaglen MELAP:

- Canolbwyntio ar adeiladu capasiti fel deiliant, gan asesu pa un a yw, ac i ba raddau, y mae'r cynnydd mewn capasiti yn sgil cyllid MELAP wedi cynhyrchu: cymorth gwell yn cael ei ddarparu gan ALLau; hyfforddiant staff cynaliadwy a strategaethau ar gyfer addysg Saesneg fel iaith ychwanegol i'w hymgorffori mewn ysgolion; neu newid mewn dulliau i addysg Plant Lleiafrifoedd Ethnig?
- A yw'r hyfforddiant ychwanegol a ddarparwyd i staff yn cael eu cyflogi gan MELAP wedi gwella nifer yr athrawon sy'n gallu cynorthwyo plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol?
- I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae ALLau wedi gwneud newidiadau i'w gwasanaethau mewn ymateb i unrhyw wybodaeth fonitro neu ddata arall a gasglwyd?
- Pa broblemau wnaeth ALLau ac ymarferwyr eu hwynebu a sut cafodd y rhain eu goresgyn?
- Beth yw barnau ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth am y rhaglen, gan gynnwys y ffordd y cafodd ei gweinyddu, ei gweithredu, effeithiolrwydd y rhaglen a'r effeithiau ar gyfranogwyr?

8. Adolygu dyluniad a chyflwyniad y rhaglen, gan gipio arfer da gyda ffocws ar wella darpariaeth MELAP yn y dyfodol:

- Sut gwnaeth ALLau nodi anghenion lleol a theilwra eu dulliau i fodloni'r galw hwn?
- Pa mor dda wnaeth strwythur rheoli a llywodraethu'r rhaglen weithio, gan gynnwys archwiliad i fewnbwn Llywodraeth Cymru i hyn?
- Beth ellid ei wneud i wella'r ffordd y gweithiodd y rhaglen - gan gynnwys adolygiad cynhwysfawr o gyflwyno gwasanaethau a rheoli rhaglenni?
- Beth yw'r goblygiadau i adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol, yng ngolau'r effeithiau a nodwyd a gwaddol cymorth MELAP? I ba raddau y mae cyllid ychwanegol MELAP yn darparu cymorth i gyrhaeddiad a chyflawniad ymhlith pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig? Adolygu'r materion yn ymwneud â pharhau cyllid.

1.15 Mae'r adroddiad hwn yn dod â'r holl ddeunydd ynghyd i ymateb i'r nodau a'r cwestiynau hyn.

Dull

1.16 Mae'r gwerthusiad wedi'i lunio yn ôl y model rhesymeg yn Ffigur 1.1 isod. Mae hwn yn amlinellu'r mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a deilliannau (tymor canolir a thymor hir) a ddisgwyllir gan MELAP, gan ddefnyddio'r adolygiad o ddogfennaeth y prosiect a thrafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfnod cwmpasu. Defnyddiwyd y wybodaeth ganlynol i gynnal y gwerthusiad:

- **Cyfweliadau gydag arweinwyr EMAS ALI** – cyfweliadau ffôn²⁰ gyda staff ALI a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r prosiect ym mhob ardal mewn dau gam (un awr ar gyfer pob cam): Hydref 2012 a diwedd y Gwanwyd 2013 cyn diwedd y prosiect. Mae hyn yn cynrychioli'r holl ardaloedd lle mae'r prosiect yn cael ei ddarparu (mae Conwy a Sir Ddinbych yn darparu'r prosiect mewn partneriaeth). Archwiliodd y cyfweliadau hyn sail resymegol a disgwyliadau a oedd gan ALLau ar gyfer y prosiect, ffurf darpariaeth yn eu hardal gan ddefnyddio'r cyllid, y data maent yn ei gasglu a sut maent yn defnyddio'r data, buddion y prosiect, a'r anghenion a ddiwallwyd gan y gweithgareddau a lefel y cymorth a gynigiwyd;
- **Cyfweliadau a grwpiau ffocws** mewn un ysgol ym mhob o'r naw ardal ALI gyda staff cyflwyno MELAP, yn cynnwys cyfweliadau gydag aelod o dîm rheoli'r ysgol, athrawon pwnc a grwpiau ffocws gyda

²⁰ Cynhaliwyd tri chyfweliad cam cyntaf wyneb yn wyneb.

disgyblion a gynorthwywyd. Gyda'i gilydd, roedd y rhain yn cynnwys 35 o staff cyflwyno, 21 o athrawon pwnc, 9 aelod o dîm rheoli'r ysgol, 47 o ddisgyblion a dau riant. Darparodd y rhain astudiaethau achos o sut y mae cyllid yn cael ei ddefnyddio ar lawr gwlad. Rhoddir crynodeb o bob un yn Atodiad 1;

- **Arolwg o ddisgyblion SIY** sy'n cael cymorth, a oedd yn eu holi ynghylch y cymorth yr oeddent wedi'i gael a'u canfyddiad o'r effaith ar eu haddysg ac integreiddio. Cafwyd 466 o ymatebion i'r arolwg, sef rhyw 24 y cant o'r rheiny yn cael cymorth yn 2012/13. Cynhaliwyd yr arolwg o ddisgyblion fel arolwg ar-lein ac arolwg papur (roedd 308 o ymatebion yn ymatebion ar-lein, sef 66 y cant; ac roedd 158 o ymatebion yn ymatebion papur, sef 34 y cant), er mwyn galluogi disgyblion nad oedd ganddynt fynediad i gyfrifiadur allu cwblhau'r arolwg. Roedd ar gael mewn 13 o ieithoedd²¹. Cafwyd ymatebion gan wyth ALL:

- Blaenau Gwent (20, 4.3 y cant o gyfanswm nifer yr ymatebwyr);
- Sir Gaerfyrddin (44, 9.4 y cant);
- Ceredigion (53, 11.4 y cant);
- Sir Ddinbych (3, 0.6 y cant);
- Merthyr Tudful (106, 22.7 y cant);
- Castell-nedd Port Talbot (17, 3.6 y cant);
- Sir Benfro (45, 9.7 y cant); ac
- Abertawe (171, 36.7 y cant)²².

Mae hyn yn tangynrychioli disgyblion yng Nghonwy, Sir Ddinbych ac Abertawe, ac yn gorgynrychioli disgyblion yn Sir Gaerfyrddin a Merthyr Tudful. Roedd ychydig dros hanner y disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yn wrywaidd, sy'n unol â nodweddion y disgyblion a gafodd gymorth drwy MELAP (53 y cant yn wrywaidd). Roedd proffil oedran y disgyblion a ymatebodd i'r arolwg fwy neu lai'n unol â phroffil oedran y rheiny a gafodd gymorth, gyda 50 y cant o ymatebion gan ddisgyblion 11-13 oed (o gymharu â 54 y cant o'r rheiny a gynorthwywyd i gyd),

²¹ Roedd yr arolwg ar gael yn yr ieithoedd canlynol: Saesneg, Pwyleg, Portiwgaleg, Lithwaneg, Japaneg, Koreeg, Arabeg, Wrddw, Dari, Cwrdeg (sgript Bahdini), Pwnjabeg (sgript Gurmukhi), Tigrinya, a Bengaleg

²² Roedd saith o ymatebion (1.5%) lle nad oedd modd nodi ardal yr ALL.

45 y cant gan ddisgyblion 14 i 16 oed (o gymharu â 38 y cant o ddisgyblion a gynorthwywyd i gyd) a'r gweddill gan y rhai 17 oed neu hŷn. Oherwydd amseru'r arolwg yn nhymor yr haf, ni wnaeth yr arolwg gipio disgyblion a oedd wedi gadael yr ysgol ers iddynt gael eu cynorthwyo neu a oedd yn gwneud arholiadau ar y pryd, ac fe wnaeth hyn leihau'r ymateb gan ddisgyblion hŷn. Pwyliaid oedd y grŵp ethnig mwyaf a ymatebodd i'r arolwg, sef 27 y cant o'r holl ymatebion (18 y cant o'r rheiny a gynorthwywyd). Roedd disgyblion Bangladeshaidd wedi'u tangynrychioli yn yr arolwg, gyda phedwar y cant o ymatebion (17 y cant);

- **Arolwg ar-lein** o staff MELAP sy'n cyflwyno gweithgareddau oddi wrth gyllid y prosiect, a oedd yn eu holi ynghylch y gweithgareddau, eu hyfforddiant ac effaith y gweithgareddau ar ddisgyblion a'r ysgol. Cafwyd 51 o ymateb, sef cyfradd ymateb o 58 y cant. Derbyniwyd ymatebion gan chwe ardal ALI (Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe). Roedd dros hanner y staff yn athrawon SIY (29, 57 y cant), gyda 37 y cant (19) yn Gynorthwywyr Addysgu (roedd tri ymateb yn y categori "arall").
- **Dadansoddi'r wybodaeth reoli a gasglwyd** – mae hyn wedi cynnwys:
 - Data am ddeilliannau a buddiolwyr a gasglwyd ar gyfer adroddiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae hyn wedi galluogi dadansoddi cyflawniadau'r prosiect yn erbyn targedau'r Gronfa, nodweddion cyfranogwyr a'u lleoliad;
 - Data'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion a gadwyd gan ALLau neu ysgolion cyfrannog. Gweler y blwch isod sy'n disgrifio'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion. Mae hyn wedi galluogi dadansoddi'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a gynorthwywyd o ran eu cymhwysedd yn Saesneg. Er bod y data hwn yn cael ei gadw gan bob un o'r ALLau, fel cofnodion unigol yn unig y cânt eu cadw yn aml yn lle set ddata electronig gyflawn i alluogi dadansoddi gwybodaeth gan yr holl ddisgyblion a gynorthwywyd. O ganlyniad,

mae data'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion ar gyfer saith ardal ALI²³ wedi'i ddefnyddio ar gyfer dadansoddi, sef rhyw 1,781 (92 y cant) o'r disgyblion a gynorthwywyd;

Blwch 3: Ffynhonnell ddata'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion

Mae Cofnod Cyflawniad Disgyblion wedi'i gwblhau yn llawn yn rhoi:

- **Gwybodaeth am y disgybl;** oed, rhyw, iaith, ethnigrwydd, grŵp blwyddyn, gwybodaeth deuluol, anghenion y disgybl (er enghraifft, dietegol neu anabledd), cyfnod yn y DU a dyddiad dechrau ar y prosiect.
- **Deilliannau asesiad cychwynnol;** y canlyniadau o'r asesiad cychwynnol a gaiff y disgybl, gan gynnwys lefel gallu SIY a gallu yn yr iaith gartref.
- **Cofnod o gymorth;** faint o gymorth a'r math o gymorth y mae'r disgybl yn ei gael, a pha aelod o staff wnaeth ddarparu'r cymorth.
- **Cyflawniad y disgybl;** y data cyflawniad ar gyfer y disgybl, ar ba lefel o'r Cwricwlwm Cenedlaethol y mae, cyrchfan ôl-16, canlyniadau arholiadau, presenoldeb a phresenoldeb mewn nosweithiau rhieni.
- **Gwybodaeth a sylwadau ychwanegol;** gofod i athrawon a staff cymorth nodi unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol am ddysgu, ymddygiad a chynnydd y disgyblion.
- **Cofnod cynnydd SIY a phecyn cymorth;** lefel gallu SIY y disgybl, y cynnydd dros gyfnod y prosiect.
- **Siartiau cynnydd a chyflawniad;** siart o'r cynnydd a wnaed o ran gallu SIY a phynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, a chymharu â chynnydd disgwylidiedig.

Datblygwyd y Cofnod Cyflawniad Disgyblion gan Abertawe lle mae staff SIY wedi'i bod yn ei ddefnyddio ers sawl blwyddyn i gofnodi a mesur cynnydd, ac fe'i addaswyd i fodloni gofynion penodol MELAP. Dechreuodd pob un o'r ALLau eraill ei ddefnyddio ar ddechrau'r prosiect, er bod cyfraddau cwblhau'r cofnod a'r dull o'i storio wedi amrywio rhwng ALLau. Yn ddelfrydol, byddai'r Cofnodion Cyflawniad Disgyblion yn cael eu cwblhau ar ôl pob sesiwn cymorth er mwyn darparu data monitro ar gyfer y staff addysgu. Defnyddiodd arweinwyr prosiectau ALI wybodaeth o'r ffurflenni Cofnod Cyflawniad Disgyblion i adrodd ar ddeilliannau cadarnhaol y rhaglen.

- Data ar nifer y disgyblion a gynorthwywyd a'r staff a gyflogwyd cyn i'r prosiect ddechrau yn 2010 (gyda chymorth MEAG) ym mhob ardal. Mae hyn wedi galluogi nodi'r cymorth ychwanegol a ddarparwyd i ddisgyblion drwy MELAP;

- **Data arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS)** ar gyfer disgyblion a gynorthwywyd gan y prosiect. Gweler y blwch isod sy'n disgrifio PASS. Mae'r arolwg cyfrifiadur 20 munud hwn yn disgrifio naw ffactor sy'n gysylltiedig â nodau addysgol allweddol, gan gynnwys agwedd at bresenoldeb, bod yn barod i ddysgu ac ymateb i'r

²³ Yr ardaloedd ALI lle mae data Cofnod Cyflawniad Disgyblion wedi'i ddadansoddi yw: Blaenau Gwent, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

cwricwlwm. Gall sgôr isel mewn unrhyw ffactor nodi agweddau negyddol na fyddent yn amlwg fel arall o bosibl. Mae arolwg PASS yn arolwg ar-lein a gwblheir gan ddisgyblion yn yr ysgol. Fe'i gweinyddir gan Granada Learning Group, sy'n darparu'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru. Cafodd ei gwblhau i gychwyn gan gyfranogwyr yn nhymor yr Hydref 2011 (nid ar ddechrau eu cyfranogiad) ar ôl caffael y drwydded ar gyfer yr offeryn. Ers hynny cynhaliwyd pedwar cam²⁴ o'r arolwg gan ddisgyblion yn cael cymorth drwy MELAP. Fe wnaeth niferoedd gwahanol o ddisgyblion gwblhau'r arolwg ym mhob cam (1,135; 1,219; 1,182; a 1,276 o ymatebion yn y drefn honno)²⁵, ac fe wnaeth 390 o ddisgyblion gwblhau'r arolwg ym mhob un o'r pedwar cam. Mae data o'r pedwar cam wedi'i ddadansoddi, ac mae hyn wedi galluogi dadansoddi'n gymharol y newidiadau mewn agweddau dros y cyfnod y buont yn cyfranogi;

Blwch 4: Ffynhonnell data PASS

Arolwg o agweddau disgyblion o bob oed yw PASS, sy'n rhoi mesur o agweddau disgyblion tuag at eu hunain fel dysgwyr a'u hagweddau tuag at yr ysgol. Mae'r arolwg cyfrifiadur 20 munud yn mynd i'r afael â naw ffactor sy'n gysylltiedig â nodau addysgol allweddol, yn cynnwys agwedd at bresenoldeb, bod yn barod i ddysgu ac ymateb i'r cwricwlwm. Gall sgôr isel mewn unrhyw ffactor nodi agweddau negyddol na fyddent yn amlwg fel arall o bosibl. Mae'r adroddiad canlyniadol wedi'i raddio yn ôl CAG (coch, ambr, gwyrdd) sy'n galluogi ymarferwyr i nodi anghenion cymorth lle'r ymddengys bod disgyblion mewn perygl o ymddieithrio neu fethu â chyflawni'u potensial. Cafodd arolwg PASS ei gwblhau i gychwyn gan gyfranogwyr yn nhymor yr Hydref 2011 (nid ar ddechrau eu cyfranogiad) ar ôl caffael y drwydded ar gyfer yr offeryn. Ers hynny, cynhaliwyd tri cham pellach o arolwg PASS, yn Haf 2012, Gwanwyn 2013 a Haf 2013.

- **Dadansoddiad o ddata cyflawniad** a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru o ysgolion (Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)) i archwilio cyflawniadau disgyblion SIY dros y cyfnodau 2010-12 a chymharu'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn cael cymorth SIY yn yr ardaloedd yn cyfranogi yn MELAP gyda'r disgyblion hynny mewn ardaloedd yng Nghymru nad ydynt yn cyfranogi yn y prosiect;

²⁴ Cynhaliwyd pedwar cam yr arolwg yn: Hydref 2011; Haf 2012; Gwanwyn 2013; a Haf 2013.

²⁵ Mae hyn yn 58 y cant, 63 y cant, 61 y cant a 66 y cant o gyfanswm nifer y disgyblion a gynorthwywyd gan MELAP yn y drefn honno. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r disgyblion wedi bod yn yr ysgol ac yn cael cymorth ym mhob un o'r blynnyddoedd. Er enghraifft, bydd rhai disgyblion a gynorthwywyd ar ddechrau'r prosiect wedi gadael yr ysgol cyn diwedd y prosiect, ac ni fydd disgyblion eraill a gynorthwywyd ar ddiwedd y prosiect wedi derbyn cymorth yn yr hydref 2011, gan na fyddent yn yr ysgol uwchradd eto.

- **Adolygiad o lenyddiaeth i nodi arfer gorau i gynorthwyo dysgwyr SIY** - ymchwil ddesg i nodi beth a argymhellir fel arfer da a beth mae'r llenyddiaeth ymchwil wedi'i gyflwyno fel tystiolaeth ynglŷn â beth sy'n gweithio i gynorthwyo dysgwyr SIY, a chymharu hyn â darpariaeth MELAP. Ni phennwyd terfyn daearyddol ar yr adolygiad o lenyddiaeth, gan y gwelir SIY mewn llawer o wledydd ledled y byd. Roedd ffocws yr adolygiad o lenyddiaeth ar ymchwil a wnaed yn yr 20 mlynedd diwethaf;
- **Adolygiad o adroddiadau arolygu Estyn** – ymchwil ddesg i nodi ysgolion sy'n cael cymorth drwy MELAP lle tynnwyd sylw at y ddarpariaeth SIY yn yr adroddiad arolygu; ac
- **Adolygiad o ddogfennaeth y prosiect** - yr achos busnes dros gymorth gan Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gwybodaeth ariannu wedi'i hategu gyda gwybodaeth lafar am ddatblygiad y prosiect gan Lywodraeth Cymru a staff ALI sydd wedi gweithio ar y prosiect.

- 1.17 Yn ogystal, cyfwelwyd â rheolwr prosiectau Llywodraeth Cymru, a darparodd ALI Abertawe wybodaeth am ganlyniadau eu hyfforddiant ar adeiladu capasiti.
- 1.18 Er mwyn gwerthuso effaith prosiect, dull arferol fyddai nodi deilliannau crynswth y prosiect (yn yr achos hwn, nifer y disgyblion sy'n derbyn cymorth, yn ennill cymhwyster yn eu hiaith gartref, yn gwella eu cam dysgu SIY), ac yna asesu ychwanegedd y prosiect (cyfrifo di-fuddiant, colled, amnewid a dadleoli, ac unrhyw effeithiau lluosydd lleol) er mwyn amcangyfrif effeithiau net y prosiect. Yn absenoldeb grŵp rheoli addas i gymharu deilliannau gyda chyfranogwyr MELAP, nid ydym wedi ceisio amcangyfrif di-fuddiant (h.y. beth fyddai wedi digwydd beth bynnag) yn ardal yr astudiaeth. Fel arall, aethom ati i gymharu deilliannau dysgwyr SIY yn yr ardaloedd a gyfranogodd yn MELAP, â deilliannau dysgwyr SIY yng ngweddill Ardal Gydgyfeirio ac Ardal Gystadleurwydd Cymru, na fu'n cyfranogi yn MELAP. Roedd modd gwneud hyn gan ddefnyddio data CYBLD ar gyfer dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yng Nghymru dros y cyfnod 2010-12 (rhan o gyfnod y rhaglen) a'u cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Gall cymariaethau o

garfannau dros gyfnod o 2010 (cyn MELAP) roi tystiolaeth wedyn o werth ychwanegol y rhaglen.

Cyfyngiadau

1.19 Mae'r canlynol yn gyfyngiadau yn yr ymchwil a gwblhawyd i fynd i'r afael â nodau ac amcanion y gwerthusiad a amlinellwyd uchod.

- Mae'r data'r CYBLD yn nodi disgyblion SIY (na fyddai pob un ohonynt o angenrheidrwydd wedi cael cymorth drwy MELAP) er bod y data ar gyfranogwyr a gweithgareddau yn dynodi y byddai'r rhan fwyaf ohonynt wedi elwa ar MELAP. O ganlyniad, gellir ystyried cymariaethau disgyblion SIY a'r rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY i ystyried effaith MELAP ar ddysgwyr SIY a gynorthwywyd;
- Roedd y data ar gymorth i staff, fel hyfforddiant, yn anghyflawn. Mae ALLau wedi darparu data ar nifer y staff ysgolion uwchradd a hyfforddwyd, a nifer y staff cymorth SIY a enillodd gymwysterau. Fodd bynnag, ni fu modd pennu hyd na chynnwys penodol yr holl hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion uwchradd, na faint o weithwyr cymorth SIY a gafodd hyfforddiant heblaw am hyfforddiant cymhwyster trwy MELAP;
- Er mwyn cyfrannu at yr asesiad o ychwanegedd y prosiect, mae lefel y ddarpariaeth cyn i'r prosiect ddechrau (a ariannwyd gan y Grant Cyrraedd Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) yn 2009/10 wedi'i chymharu â lefel y ddarpariaeth ar ddiwedd y prosiect (2012/13). Mae hyn yn darparu rhywfaint o dystiolaeth o'r cymorth ychwanegol y mae'r prosiect wedi'i ddarparu, er y bydd hyn hefyd yn adlewyrchiad o newidiadau i'r galw yn ystod y cyfnod nad ydynt o angenrheidrwydd wedi bod yr un fath ym mhob ardal ALI nac yn gyson;
- Ni chasglwyd unrhyw ddata meintiol ar rai deilliannau tymor canolig a thymor hir ar gyfer cyfranogwyr (er enghraifft, integreiddio a llwybrau dilyniant) gan yr ALLau. Rydym wedi asesu'r rhain yn ansoddol yn lle hynny. Mae data PASS yn rhoi cipolygon i rai o'r deilliannau meddalach (er enghraifft, integreiddio ac agweddau tuag at yr ysgol); ac

- Mae data ar y graddau y mae hyfforddiant wedi dylanwadu ar arfer addysgu a chymorth SIY yn ansoddol gan mwyaf, yn defnyddio cyfweiliadau astudiaethau achos ac ymatebion i arolygon.

1.20 O ganlyniad, mewn perthynas â'r fframwaith gwerthuso hwn, mae'r gwerthusiad hwn wedi gallu asesu'r rhan fwyaf o'r allbynnau a'r deilliannau a gyflawnwyd gan y prosiect (fel yr amlinellir yn Ffigur 1.1) drwy gymysgedd o ymchwil feintiol ac ansoddol. Yr allbynnau a'r deilliannau a aseswyd yw:

- Nifer y disgyblion sy'n fuddiolwyr;
- Gweithgareddau a gyflwynwyd, a ph'un a oes amrywiaeth ehangach ac ystod o weithgareddau o ansawdd gwell wedi'i ddarparu;
- Cynorthwyr Addysgu Ychwanegol a gafodd eu recriwtio a'u huwchsgilio;
- Staff ALI arall a staff addysgu a gafodd eu huwchsgilio;
- Nodi a lledaenu arfer da;
- Y graddau y mae systemau casglu a monitro data wedi'u defnyddio i gynorthwyo cynnydd;
- Cyrhaeddiad disgyblion SIY, a chymhariaeth gyda'r rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY; a
- Pha un a oes darpariaeth cymorth gwell ar gyfer disgyblion SIY wedi'u darparu.

1.21 Fodd bynnag, ni fu modd cipio'r holl weithgareddau uwchsgilio a nifer buddiolwyr y rhain, ac ni fu modd ychwaith cipio deilliannau mewn perthynas â dilyniant disgyblion a oedd yn fuddiolwyr ar ôl cwblhau addysg orfodol neu eu hintegreiddio i gymuned yr ysgol.

Ffigur 1.1 Model Rhesymeg Gwerthuso'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

Cyd-destun MELAP: Llunnir y cyd-destun polisi cyffredinol gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sef prif bolisi Cymru ar gyfer diwygio addysgol, y polisi Gwella Ysgolion, a Deddf Plant 2004 *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*. Mae MELAP yn cynorthwyo ALLau i godi cyrhaeddiad a mynd i'r afael â risg tangyflawni ymhlith disgyblion SIY. Mae plant duon a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 7.4% o'r boblogaeth ysgol yng Nghymru. Mae ymchwil wedi sefydlu bod cyrhaeddiad, ar gyfartaledd, rhwng 6 a 21 o bwyntiau canran yn is ymhlith disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig na disgyblion nad ydynt felly. Mae 9 o'r 15 ALI yn yr ardal Gydgyfeirio yn cyfranogi. Mae'r Prosiect yn cael ei gynnal o 1 Awst 2010 hyd at 31 December 2013.

Mewnbynnau: - Gwariant y Llywodraeth (a ragwelir) £4,530,105 - Amser + adnoddau i arweinydd ALI, staff cyllid, a'r Swyddog Ewropeaidd (fel bo'n briodol) - Ymarferwyr/ cynorthwywyr addysgu wedi'u recriwtio a'u hyfforddi i gyflwyno gweithgareddau MELAP - Staff ysgolion yn cynorthwyo â chyflwyno'r prosiect (gweinyddu, casglu data, cysylltu ag ALLau)	Grŵp Targed: - Disgyblion SIY 11-19 oed nad yw eu cyrhaeddiad yn dda neu sydd mewn perygl o dangyflawni - Arweinwyr ALLau gyda ffocws ar gynorthwyo myfyrwyr ag anghenion SIY - Ymarferwyr/ cynorthwywyr addysgu â sgiliau a phrofiad perthnasol	Gweithgareddau: - 15 o weithgareddau allweddol wedi'u cyflwyno drwy MELAP ee cymorth astudio integredig ar ôl ysgol, cymorth gwell ar gyfer pontio ôl-16 - Data a gwybodaeth reoli wedi'u casglu: Data Cofnod Cyflawniad Disgyblion, arolwg PASS, ffurflenni data chwarterol i WEFO – uwch-sgilio ymarferwyr / athrawon i gyflwyno SIY	Sail Resymegol: - Darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion SIY yn y dosbarth i allu manteisio ar y cwricwlwm - Codi cyflawniad er mwyn gwella rhagolygon symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant - Uwchsgilio ymarferwyr i feithrin gallu i gefnogi disgyblion SIY	Allbynnau: - ALLau yn cyfranogi (9) - Buddiolwyr disgyblion - Gweithgareddau wedi'u cyflwyno mewn ysgolion/ y tu allan i ysgolion - Staff newwydd wedi'u recriwtio a'u huwchsgilio - Staff ALI ac ysgolion wedi'u huwchsgilio - Arfer da wedi'i nodi a'i ledaenu - Defnyddio data i fonitro cynnydd a chymorth	Deilliannau tymor canolig: - Integreiddio disgyblion SIY (a'u rhieni) yn well yn yr ysgol - Defnyddio systemau/offer monitro i gynorthwyo disgyblion SIY, mesur cynnydd a chofnodi pellter a deithiwyd - Dulliau cefnogi o ansawdd gwell a mwy amrywiol mewn ysgolion - Mwy o ymarferwyr â sgiliau i gefnogi disgyblion SIY, ymdriniaeth iaith ehangach ac ymateb i anghenion sy'n newid	Deilliannau tymor hir: - Cyrhaeddiad cyfranogwyr o leiaf yn cyfateb i'w cyfoedion nad ydynt yn SIY - Llwybrau dilyniant llwyddiannus ar gyfer buddiolwyr - Trefniadau cyffredin ar gyfer casglu a dadansoddi data - Arfer gorau wedi'i ymgorffori mewn ysgolion ac arfer da wedi'i rannu - Cymorth â ffocws gwell gan y Llywodraeth i ddysgwyr SIY
---	--	---	---	--	---	--

Strwythur yr adroddiad

1.22 Mae gweddill yr adroddiad yn ymdrin â'r canlynol:

- Deall cymorth ar gyfer disgyblion lleiafrifoedd ethnig: mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r arweiniad a roddwyd i athrawon a darparwyr y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ynglŷn â darparu cymorth SIY; sail y dystiolaeth ar gyfer beth sy'n gweithio'n dda i gynorthwyo dysgwyr SIY; a barnau darparwyr Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr ALLau am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn eu profiad nhw;
- Cyflwyno gweithgareddau MELAP: mae'r bennod hon yn cynnwys disgrifiad o ble mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno; pwy sydd wedi elwa ar y gweithgareddau; disgrifiad o'r gweithgareddau a gyflwynwyd; proffil o bwy sy'n cyflwyno'r gweithgareddau; a sut y cafodd y prosiect ei reoli;
- Allbynnau a deilliannau: mae'r bennod hon yn disgrifio'r allbynnau a'r deilliannau a gyflawnwyd gan MELAP ym mhob ardal ALL yn erbyn targedau Cronfa Gymdeithasol Ewrop; a barnau disgyblion, staff pwnc a staff cyflwyno SIY ynglŷn â'r deilliannau a gyflawnwyd;
- Gwerth ychwanegol: mae'r bennod hon yn disgrifio'r ychwanegedd y mae'r prosiect wedi'i ddarparu i wasanaethau Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr ALLau, yr ysgolion a'r disgyblion; a gwaddol y prosiect;
- Casgliadau ac argymhellion; mae'r bennod hon yn tynnu'r casgliadau at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion gwerthuso ac ystyried pa mor dda y mae MELAP yn cymharu â beth sy'n gweithio; y gwersi a ddysgwyd o MELAP; a beth mae'r canfyddiadau hyn yn ei olygu ar gyfer cyllid a chymorth yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru i SIY.

2 Deall cymorth i ddisgyblion SIY

- 2.1 Yn y bennod hon amlinellwn pa gymorth y dylid ei roi i ddisgyblion ag anghenion SIY a sut dylid gwneud hyn; beth mae'r llenyddiaeth ehangach yn ei awgrymu yw arfer da o ran darparu cymorth SIY a'r dystiolaeth y mae'n ei defnyddio; a beth sydd wedi dylanwadu ar weithredu'r prosiect yn yr ALLau sy'n cyfranogi yn MELAP.

Arweiniad

- 2.2 Darparodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar arfer da ar ffurf y DVD '**Un Gymru, Sawl Llais**' ar addysgu dysgwyr SIY mewn lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd yn 2010. Mae'r DVD yn darparu arweiniad ac arfer gorau i athrawon ac arbenigwyr SIY, yn cynnwys:

- Nodi nad yw dysgwyr yn grŵp unffurf;
- Asesu gallu dysgwyr yn Saesneg ac yn eu hiaith gartref, er mwyn canfod a oes anghenion addysgol arbennig yn cael eu celu gan anghenion SIY;
- Cael gwybodaeth o ansawdd da pan fydd y disgybl yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf;
- Darparu gwybodaeth ysgrifenedig mewn amryw o ieithoedd;
- Darparu cynorthwyywyr addysgu dwyieithog, sy'n gallu cyfathrebu gyda rhieni hefyd;
- Defnyddio 'system gyfeillio' – pan fydd disgyblion newydd yn yr ysgol yn cael eu neilltuo i ddisgyblion eraill yr ysgol fel y gallant ddangos iddynt sut i fynd o amgylch yr ysgol, a helpu yn y dosbarth;
- Darparu gwasanaeth cynhwysol, fel bod disgyblion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth â disgyblion sy'n siarad Cymraeg a Saesneg;
- Darparu cymwysterau yn yr iaith gartref i ddisgyblion;
- Cynnig addysgu cydweithredol rhwng athrawon pwnc ac athrawon arbenigol SIY, er mwyn sicrhau y gall disgyblion SIY ddeall y cwricwlwm;
- Darparu gwybodaeth gydag arweiniad gweledol, fel y gall dysgwyr weithio allan beth yw ystyr geiriau a chysyniadau. Gall y dysgwyr ddefnyddio'r

cymhorthion gweledol hyn gartref wedyn fel bod

rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn gallu'u helpu gyda gwaith cartref; a

- Darparu mentoriaid ar gyfer dysgwyr.

2.3 Yn deillio o astudiaeth o adnoddau'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG – y grant a gafodd ALLau cyn creu MEAG)²⁶, mynnodd Estyn y dylai'r hol arolygiadau o ysgolion gynnwys adran ar gyd-destun yr ysgol (yn rhoi manylion yr ieithoedd a siaredir, a nifer y disgyblion sy'n dysgu SIY o 2010). Y testunau y bydd Estyn yn ymdrin â nhw mewn arolygiad o ymagwedd ysgol at SIY yw:²⁷

- A oes polisi ysgol gyfan ar gyfer cynorthwyo disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, ac os felly, a yw'n cael ei weithredu'n gyson?
- A yw'r amgylchedd yn groesawgar i ddisgyblion SIY?
- A yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd a siaredir gan y disgyblion?
- A yw disgyblion sy'n siarad SIY yn gallu manteisio'n llawn ar y cwricwlwm? A yw unrhyw athrawon prif ffrwd wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall anghenion dysgu disgyblion ag anghenion SIY?
- Pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng athrawon SIY ac athrawon prif ffrwd?
- Sut mae gwersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd, a lle bo'n berthnasol, yn ystod unrhyw sesiynau ymneilltuo, wedi'u strwythuro i ddiwallu anghenion penodol disgyblion SIY?
- A yw'r ysgol yn olrhain cynnydd ei darpariaeth SIY drwy werthuso cyrhaeddiad disgyblion, ac a yw'n defnyddio'r wybodaeth i nodi targedau ar gyfer gwella?
- A yw'r ysgol yn defnyddio'r iaith gyntaf i gefnogi dysgu?
- Sut mae'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion SIY pan nad oes unrhyw addysgu cynorthwyol ar gael?
- A yw'r ysgol yn darparu cyfieithiadau o lythyrau a dogfennau'r ysgol mewn ieithoedd cymunedol? Os nad ydyw, sut mae'n cyfathrebu gyda rhieni nad oes ganddynt fawr o Saesneg/Cymraeg neu ddim o gwbl?

²⁶ Canfu hyn mai ychydig o athrawon prif ffrwd oedd â'r hyfforddiant neu'r sgiliau i ddiwallu anghenion SIY yn effeithiol ac nad oedd digon o gydweithredu rhwng athrawon prif ffrwd ac athrawon cymorth wrth gynllunio cymorth o'r fath i ddisgyblion.

²⁷ Estyn, (2010), Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel iaith ychwanegol

- A yw'r ysgol yn llwyr ddeall nad yw diffyg cymhwysedd yn Saesneg ar ei ben ei hun yn gyfystyr ag anawsterau dysgu?
- Sut mae'r ysgol yn asesu anghenion disgyblion SIY pan amheuir hefyd fod ganddynt anghenion addysgol arbennig?

2.4 Mae Ofsted, y corff sy'n gyfrifol am arolygu ysgolion yn Lloegr, wedi cynhyrchu astudiaethau achos o arfer da o ran darpariaeth SIY. Mae'r rhain ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd. Mae tair astudiaeth achos o arfer da mewn ysgolion uwchradd, sy'n tynnu sylw at yr agweddau canlynol ar arfer effeithiol:²⁸

- Cymwysterau yn yr iaith gartref ar gael yn y cwricwlwm safonol fel rhan o'r cynnig ieithoedd modern;
- Asesiad cyflawn yn yr ieithoedd a gynigir yn yr ysgol pan fyddant yn cofrestru;
- Teithiau ac ymweliadau i alluogi disgyblion i ymarfer eu hiaith gartref;
- Rhaglen ymsefydlu bersonol, yn cael ei chynnal yn ddwyieithog;
- Darparu cyfai ll sydd, yn ddelfrydol, yn siarad yr un iaith;
- Llyfrau a chymhorthion gweledol mewn dwy iaith;
- Cynnwys rhieni yn y gymuned, a darparu dosbarthiadau yn yr iaith Saesneg;
- Codi dyheadau staff ar gyfer y cyfryw ddisgyblion;
- Adolygu cynnydd yn parhau drwy olrhain;
- Cyflogi athrawon arbenigol SIY;
- Hyfforddi athrawon dosbarth i ddiwallu anghenion disgyblion SIY a chyflwyno arfer da;
- Cynnig cwricwlwm amgen (er enghraifft, cwrs Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) ryngwladol ar gyfer cyflawnwyr uchel, neu gymwysterau BTEC i'r rheiny sy'n ei chael yn anodd); a
- Pharhau i fod yn hyblyg o ran ymagwedd.

2.5 Cyhoeddodd yr Adran Addysg grynodeb o bolisi'r Llywodraeth yn Lloegr tuag at ddysgwyr SIY yn 2012. Fe wnaeth ddatgan:²⁹

²⁸ <http://www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-raising-achievement-of-students-for-whom-english-additional-language-belle-vu>, <http://www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-provision-for-new-arrivals-learning-english-additional-language>, and <http://www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-raising-achievement-of-students-learning-english-additional-language>

²⁹ Yr Adran Addysg (2012) A brief summary of Government policy in relation to EAL learners – ar gael yn http://www.naldic.org.uk/Resources/NALDIC/Research%20and%20Information/Documents/Brief_summary_of_Government_policy_for_EAL_Learners.pdf

- Blaenoriaeth y Llywodraeth Glymblaid ar gyfer plant sy'n dysgu SIY yw hyrwyddo caffael iaith yn gyflym a'u cynnwys mewn addysg brif ffrwd cyn gynted ag y bo modd;
- Yn gyffredinol, dylai disgyblion sy'n dysgu SIY gael eu haddysgu yn y dosbarth prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion. Fel arfer, bydd disgyblion sydd newydd gyrraedd yn cael help ychwanegol i ddysgu Saesneg gan athrawon arbenigol neu gan gynorthwyr dosbarth dwyieithog. Ar lefel gynradd ac uwchradd, mae athrawon neu ymgynghorwyr SIY yn gweithio ar y cyd ag athrawon dosbarth i gynllunio gwersi a deunyddiau addysgu. Gan yr athrawon dosbarth y mae'r cyfrifoldeb i sicrhau y gall disgyblion gyfranogi mewn gwersi. Lle bo'n briodol, gall ysgolion hefyd sefydlu dosbarthiadau ymneilltuo mewn grwpiau bach i ddarparu cymorth dwysach neu arbenigol;
- Mewn cyd-destun ysgol gyfan lle caiff disgyblion eu haddysgu gyda'u cyfoedion y mae dysgwyr SIY yn gwneud y cynnydd gorau. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu orau pan fyddant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dylai ysgolion ganolbwyntio ar y cyfraniadau cadarnhaol a wneir gan newydd ddyfodiaid a disgyblion symudol. Mae angen seilio darpariaeth ar asesiad ystyrlon o wybodaeth a phrofiad blaenorol disgyblion yn ogystal â'u sgiliau iaith;
- Mae dwyieithrwydd yn arwain at fanteision deallusol - pan fydd plant wedi datblygu iaith wybyddol ac academiaidd, gallant drosglwyddo llawer o'r dysgu hwn i ieithoedd ychwanegol. Mae plant yn elwa'n aruthrol os rhoddir cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu mamiaith ochr yn ochr â Saesneg. Mae plant sy'n dysgu SIY mor alluog ag unrhyw blant arall, ac ni ddylai'r profiadau dysgu a gynllunnir ar eu cyfer fod yn llai heriol yn wybyddol. Mae datblygu partneriaethau gyda rhieni, gofawyr a chymunedau yn hanfodol os bydd plant yn gallu cyflawni'u potensial; ac
- Mae gan ysgolion y rhyddid i ddewis pa fath o gymorth SIY y mae dysgwyr yn ei gael.

2.6 Mae'r polisïau a'r canllawiau arolygu hyn yn ymwneud ag addysg disgyblion SIY fwy neu lai'n gyson â'i gilydd o ran asesu, dysgu iaith gartref, integreiddio yn yr ystafell ddosbarth a chymorth i alluogi integreiddio i gymuned yr ysgol a manteisio ar y cwricwlwm gyda chymorth i athrawon dosbarth, a hyfforddiant ar eu cyfer, yn ogystal â'r disgyblion eu hunain.

Tystiolaeth o beth sy'n gweithio'n effeithiol

- 2.7 Fe wnaeth adolygiad o lenyddiaeth ar raddfa fach nodi astudiaethau o agweddau allweddol ar gynorthwyo dysgwyr ag anghenion SIY. Roedd y rhain yn cynnwys integreiddio dysgwyr SIY i ddosbarthiadau prif ffrwd a'r cwricwlwm ar gyfer eu grŵp oedran, dysgu grŵp, a dysgu ategol heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol trwy drefniadau cyfeillio a defnyddio adnoddau digidol.
- 2.8 Mae dau ddull gwahanol ar gyfer integreiddio dysgwyr SIY i gwricwlwm y brif ffrwd. Un dull yw gwneud gwersi cyfrwng Saesneg yn gynhwysol a buddiol i ddysgwyr SIY; neu wneud y gwersi yn hygyrch i ddysgwyr SIY drwy fynd ati i ddefnyddio eu hiaith gartref (Lueng, 2003).³⁰

Dulliau cynhwysol

- 2.9 Cyflawnir dulliau cynhwysol yn aml trwy gymorth addysgu integredig a chymorth integredig yn y dosbarth. Un ffordd o sicrhau bod gwersi cyfrwng Saesneg yn gynhwysol yw trwy gyfarwyddyd iaith yn seiliedig ar gynnwys. Dyma ble caiff iaith neu eirfa benodol i bwnc ei nodi (a sicheir bod dysgwyr SIY yn gwybod beth mae'r eirfa hon yn ei golygu), a chaiff gwersi a strategaethau eu hadeiladu o amgylch yr eirfa hon, a fydd yn arwain at sgiliau Saesneg gwell. Er enghraifft:
- “... it is pointed out that mathematics uses English language vocabulary and structures in particular ways, e.g. the notion of subtraction can be expressed by ‘subtract from’, ‘decreased by’, ‘less’, ‘take away’ and so on, and language expressions such as ‘If A is a positive number, then -A is a negative number ...’ to represent the axioms of opposites.”*³¹
- 2.10 Mae ymchwil empirig wedi dangos bod y ffurf hon ar addysgu disgyblion SIY yn effeithiol o ran helpu disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm.³²
- 2.11 Aeth astudiaeth o 2010 ati i archwilio arfer athrawon pwnc a oedd yn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon arbenigol SIY, tra bod dysgwyr SIY yn astudio'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn dysgu Saesneg ar yr un pryd (Creese, 2010). Daeth yr astudiaeth ymchwil i'r casgliad, er bod y bartneriaeth rhwng athrawon

³⁰ Lueng, C. (2003) Integrating School-Aged ESL Learners into the Mainstream Curriculum

³¹ Dale & Cuevas, (1987), dyfynnir yn Lueng, C. (2003) Integrating School-Aged ESL Learners into the Mainstream Curriculum

³² Tsai, Y. & Shang, H. (2010) The Impact of Content-Based Language Instruction on EFL Students' Reading Performance

pwnc ac athrawon arbenigol SIY yn arwain at welliant o ran mynediad i'r cwricwlwm pynciau, nid yw'n creu cyfleoedd gwell i'w gwersi ddarparu dysgu Saesneg mwy cyffredinol.³³

- 2.12 Defnyddir cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog yn eang mewn llawer o wledydd i ddarparu cymorth i ddisgyblion yn y dosbarth er mwyn galluogi eu trawsnewid i ddefnyddio Saesneg yn fwy cymwys a gweithredu fel cyfryngwyr diwylliannol, gan fentora disgyblion yn y diwylliant mewn ysgolion a'r tu allan i ysgolion^{34 35}
³⁶. Mae'r tair astudiaeth hon yn canfod bod cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog yn gweithio'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion drwy ymchwil ansoddol, ond mewn llawer o weledydd, ni fydd cynorthwyrwyr addysgu yn ddwyieithog mewn lleoliadau addysgu³⁷.
- 2.13 Credir hefyd fod disgyblion, yn enwedig y rhai â lefelau Saesneg is, yn perfformio'n well wrth ddysgu Saesneg drwy iaith sy'n canolbwyntio ar gyd-destun (ble bynnag y mae'r iaith ar lefel cwricwlwm yn anhygyrch, maent yn dysgu'n well drwy gymhorthion gweledol neu weithgareddau, yn hytrach na throi'n ôl at iaith gymdeithasol).³⁸
- 2.14 Mae ymchwil yn Awstralia yn awgrymu y gall defnyddio dull amlfodd o addysgu SIY fod yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o'r ddarpariaeth SIY wedi canolbwyntio ar addysgu'n seiliedig ar destun, boed yn ysgrifenedig neu gyda chymhorthion gweledol. Fodd bynnag, nid yw addysgu SIY wedi cyd-fynd â datblygiadau technolegol mewn addysgu, er enghraifft, defnyddio deunyddiau digidol i helpu disgyblion ddysgu Saesneg. Gall y rhain hefyd helpu i gysylltu disgyblion â diwylliant ieuenctid y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a fydd yn eu helpu i ddysgu.³⁹ Canfuwyd hefyd fod cymorth fideo neu gymorth clywedol yn gwella ymgysylltiad dysgwyr Saesneg â stori o gymharu â darllen yn unig.⁴⁰
- 2.15 Canfuwyd bod cyfeiriadedd disgyblion a gwaith grŵp mewn setiau gallu cymysg yn ffyrdd da i ddysgwyr SIY ddatblygu sgiliau Saesneg am ei fod yn gofyn am

³³ Creese A. (2010), Content-Focused Classrooms and Learning English: How Teachers Collaborate, Theory Into Practice

³⁴ Fang Gao, a Shum, M. (2010) Investigating the role of bilingual teaching assistants in Hong Kong: an exploratory study.

³⁵ Cable, C (2004) 'I'm going to bring my sense of identity to this': the role and contribution of bilingual teaching assistants.

³⁶ Cable, C. et al (2006) Bilingualism and inclusion: more than just rhetoric?

³⁷ Institute of Education, Training and Development Agency for Schools (2009) English as an Additional Language (EAL) provision in schools – 10 astudiaeth achos

³⁸ Lueng, C. (2003) Integrating School-Aged ESL Learners into the Mainstream Curriculum

³⁹ Alford, J. & Jetnikoff, A. (2011) High-challenge Teaching for Senior English as an Additional Language Learners in Times of Change

⁴⁰ Whiting, J. & Granoff, S. (2010) The Effects of Multimedia Input on Comprehension of a Short Story

gynnal sgysiau gyda'u cyfoedion sy'n siarad iaith frodorol.⁴¹ Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y dull hwn yn gweithio o ran datblygu gallu dysgwyr SIY yn yr iaith Saesneg, ond hefyd eu dealltwriaeth o ymddygiad priodol.⁴² Gwnaeth astudiaeth o Falaysia arolwg o ddisgyblion a oedd yn cymryd rhan mewn gwaith grŵp. Adroddodd y cyfranogwyr fod hyn wedi helpu datblygu'u sgiliau Saesneg. Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng barnau disgyblion â lefelau gwahanol o ran gallu yn yr iaith Saesneg.⁴³ Fodd bynnag, canfu astudiaeth o ddisgyblion Tsieineaidd na fydd y dull hwn yn gweithio gystal efallai oherwydd gwahaniaethau o ran ymddygiad diwylliannol.⁴⁴

- 2.16 Canfuwyd bod cyfeillio, yn enwedig ar gyfer darllen Saesneg, yn llwyddiannus yn fyd-eang. Dewisir cyfaill ar gyfer dysgwyr SIY, a gall fod yn ddisgybl sy'n siarad yr un iaith gartref ond bod ganddo/ganddi allu gwell yn yr iaith Saesneg, neu'n siaradwr iaith frodorol. Mantais ychwanegol defnyddio cyfaill yw nad yw'n mynnu adnoddau helaeth. Lle mae'r cyfaill yn ddysgwr arall â'r un iaith gartref, canfuwyd fod y system yn gwella gallu'r ddau gyfranogwr yn yr iaith Saesneg.⁴⁵

46

Dulliau anghynhwysol

- 2.17 Fodd bynnag, gellir cyflawni integreiddio hefyd trwy ddarparu'r cwricwlwm yn iaith gartref disgybl, a chyflwyno'r Saesneg yn raddol i'r disgybl. Gall y disgybl gael ei integreiddio'n llawn wedyn mewn dosbarthiadau prif ffrwd pan fydd ei Saesneg wedi cyrraedd lefel i allu ymdopi. Manteision y dull hwn yw ei fod yn annog dwyieithrwydd, ac yn hyrwyddo cyflawniad academiaidd uchel, gan nad yw'r disgybl SIY yn colli allan ar addysgu'r cwricwlwm drwy anallu i ddeall yr iaith. Nid yw'r dull hwn yn gyffredin yn y DU. Er y 1980au bu'r ffocws ar sicrhau bod dysgwyr SIY yn mynychu dosbarthiadau gyda'u cyfoedion, ond canfu astudiaethau fod y dull hwn yn llwyddiannus yn UDA.⁴⁷ Canfu arolwg hydredol o UDA fod *"disgyblion SIY a oedd yn cael eu haddysgu drwy raglenni dwyieithog*

⁴¹ Lueng, C. (2003) Integrating School-Aged ESL Learners into the Mainstream Curriculum

⁴² Qi, S. & Steen, S. (2010) Group Work With English as Second Language (ESL) Students: Integrating Academic and Behavior Considerations

⁴³ Nair, G. et al. (2012) Group Work in the Secondary ESL Classroom

⁴⁴ Runyi Chen & Hird, B. (2006) How do Chinese students collaborate in EFL group work?

⁴⁵ Alfalasi, H. (2008) Big Sisters: A Buddy Reading Project; Mak, B. et al. (2008) A buddy reading programme in Hong Kong schools

⁴⁶ Cianca, S. (2012) Cross-Age Reading Buddies and Cultural-Sensitive Literature: Student-Centered English Language Instruction in an Ethiopian Budget School

⁴⁷ Lueng, C. (2003) Integrating School-Aged ESL Learners into the Mainstream Curriculum

yn perfformio'n well na disgyblion SIY yn cael eu haddysgu yn Saesneg yn unig".⁴⁸ Roedd hon yn astudiaeth ymchwil bum mlynedd (1996-2001) yn cwmpasu pump o ardaloedd ysgol trefol a maestrefol mewn amryw ranbarthau o'r UDA lle mae niferoedd uchel o ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig yn mynychu ysgolion gwladol. Aeth yr astudiaeth ati i asesu cyrhaeddiad dros 700,000 o ddisgyblion o'r fath, a chymharu disgyblion a arhosodd ar raglenni cymorth iaith hirdymor (pump i chwe blynedd) â'r rheiny ar raglenni tymor byr (un i dair blynedd), a'r rheiny a addysgwyd mewn dosbarthiadau prif ffrwd Saesneg yn unig. Canfu'r astudiaeth hefyd fod disgyblion a oedd yn cael eu haddysgu ar raglenni dwyieithog yn llai tebygol o adael yr ysgol.

Seiliau rhesymegol dros i awdurdodau lleol roi MELAP ar waith

- 2.18 Roedd pob un o'r ALLau yn ymwybodol o gyngor Llywodraeth Cymru ar beth sy'n gweithio'n dda i ddarparu cymorth i ddysgwyr SIY, o ran bod yn ymwybodol y dylai cymorth SIY fod yn gynhwysol, ac y dylid ei ddarparu yn y dosbarth, ac y gall disgyblion SIY ddysgu oddi wrth eu cyfoedion. Mae hyn eisoes wedi digwydd yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd ALL, gyda disgyblion SIY yn cael eu gosod mewn dosbarthiadau gyda'u cyfoedion a chymorth yn cael ei ddarparu yn y dosbarth gan mwyaf. Fodd bynnag, cafodd arweinwyr prosiect ALLau eu harwain hefyd gan beth oedd yn gweithio'n dda yn eu hardal, yr adnoddau cyfredol a oedd ar gael iddynt, yn enwedig yn yr ysgolion, i gynorthwyo disgyblion ag anghenion SIY, a'u dealltwriaeth o anghenion heb eu diwallu. I lawer, roedd y galw'n fwy na'r cyflenwad cymorth dosbarth y gallent drefnu ei fod ar gael oherwydd y nifer gynyddol o ddisgyblion ag anghenion SIY yn mynd i mewn neu'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd.
- 2.19 O ganlyniad, penderfynodd wyth o'r ALLau bod eu model cyflwyno presennol gyda chymorth cynorthwywyr addysgu dwyieithog yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, a gweithgarwch y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, yn gweithio'n effeithiol, a'r flaenoriaeth ar ôl archwilio nifer y disgyblion yr oedd angen cymorth arnynt a'u hamcanestyniadau o'r angen yn y dyfodol oedd

⁴⁸ <http://www.naldic.org.uk/research-and-information/research+summaries/collier-thomas> - yn seiliedig ar ymchwil gan Thomas, W. a Collier, V (2002) A National Study of School Effectiveness for Language Minority Students' Long-Term Academic Achievement Adroddiad Terfynol: Prosiect 1.1

cynyddu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig⁴⁹. Roedd pedwar o'r ALLau hyn eisoes yn darparu rhywfaint o hyfforddiant SIY a gwybodaeth ac arweiniad i athrawon pwnc, felly penderfynont gynyddu'r gwasanaeth hwn. Roedd y pedwar arall yn gallu sefydlu hyfforddiant ar gyfer athrawon dosbarth.

2.20 Mabwysiadodd Abertawe ddull gwahanol i'r ALLau eraill gyda'u cynlluniau ar gyfer cyllid MELAP. Yn Abertawe roedd, ac mae, llawer mwy o ddysgwyr SIY nag yn unrhyw un o'r ALLau eraill sy'n cyfranogi yn MELAP (dros deirgwaith yn fwy na'r ALI uchaf nesaf, sef Castell-nedd Port Talbot)⁵⁰. Dywedodd pob un o arweinwyr Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yr ALLau eu bod yn disgwyl i nifer y dysgwyr SIY naill ai aros yn gyson neu gynyddu, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn meddwl y byddai nifer y dysgwyr SIY yn cynyddu. Adroddodd rheolwr y prosiect yn Abertawe fod nifer y disgyblion SIY yn cynyddu'n gyflymach hefyd nag yn yr ardaloedd ALI eraill (oherwydd cynllun gwasgaru Llywodraeth y DU ar gyfer ceiswyr lloches – mae Abertawe yn ardal anheddu ar gyfer ceiswyr lloches, ynghyd â Chaerdydd, Casnewydd a Wrecsam)⁵¹, a chredai y byddai'r model cymorth a oedd ganddynt gan ddefnyddio cynorthwyyr addysgu dwyieithog yn mynd yn anghynaliadwy, oherwydd y nifer fawr o ddisgyblion. Felly, penderfynodd y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn yr ALI hwn ddefnyddio'r cyllid i ad-drefnu eu darpariaeth. Roedd y ffocws felly ar adeiladu capasiti athrawon pwnc a pheidio â chynyddu'r cymorth dosbarth gan gynorthwyyr addysgu, fel y byddai'r gwersi a oedd yn cael eu haddysgu gan athrawon pwnc yn fwy hygyrch i ddysgwyr SIY heb yr angen am gymaint o gymorth yn y dosbarth.

2.21 Yn ogystal, penderfynodd y rhan fwyaf o'r ALLau ddefnyddio'r cyllid ychwanegol a gawsant i gynnig gweithgareddau newydd mewn ysgolion, nad oedd yr adnoddau ganddynt i'w darparu o'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG). Gan mwyaf, bwriadwyd i'r rhain fod yn gyfleoedd i ddisgyblion SIY ddysgu iaith yn anffurfiol (er enghraifft, clwb ar ôl ysgol), gweithgareddau i helpu'r disgyblion SIY i integreiddio'n llawnach i gymuned yr ysgol; a defnyddio cynorthwyyr addysgu dwyieithog i ddod â rhieni dysgwyr SIY i mewn i'r ysgol

⁴⁹ Nid oedd y rhain yn amcanestyniadau ffurfiol o'r angen yn y dyfodol, ond yn archwiliad o nifer y disgyblion SIY mewn ysgolion cynradd, a phrofiad blaenorol o nifer y newydd ddyfodiaid SIY yn yr ardal bob blwyddyn.

⁵⁰ Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013

⁵¹ http://www.cardiffhealthalliance.org/attributes/HSCWB_11-14/consultation/S1d_HSCWB-consult_%20AsylumSeekers+Refugees.pdf

a'r gymuned leol. Fel y digwyddodd hi, dim ond tri ALI wnaeth hyn, am ei bod hi'n anodd darparu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol.

2.22 Mae Tabl 2.1 yn dangos y cyllidebau a ddyrannwyd i bob ALI, a'r symiau gwirioneddol a wariwyd hyd at fis Hydref 2013. Dyrannwyd mwyafrif y gyllideb (60 y cant) i Abertawe a Sir Benfro. Nifer y dysgwyr SIY yr oeddent wedi bwriadu eu cynorthwyo, a'r ymagwedd yr oedd Abertawe yn bwriadu ei mabwysiadu sydd i gyfrif am hyn. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod chwech ALI wedi cael gostyngiadau sylweddol yn eu cyllideb (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, a Sir Benfro) oherwydd y lefelau gweithgarwch is. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio yn unol â'r targed o ran gwario eu cyllidebau wedi'u hailbroffilio.

Tabl 2.1 Cyllid wedi'i ddyrannu a'i wario yn ôl ardal Awdurdod Lleol ar 10/2013 (£)

Awdurdod Lleol	Cyllideb wreiddiol a ddyrannwyd	Cyllideb wedi'i hailbroffilio a ddyrannwyd (gwariant disgwylidig)	Cyllideb a wariwyd	Canran y gyllideb wedi'i hailbroffilio a wariwyd (ar 10/2013)
Blaenau Gwent	73,500	76,037	75,534	99%
Sir Gaerfyrddin	504,384	441,373	437,507	99%
Ceredigion	398,901	311,804	299,854	96%
Conwy	331,840	246, 773	212,369	86%
Sir Ddinbych				
Merthyr Tudful	188,287	195,201	184,559	95%
Castell-nedd Port Talbot	497,898	327,111	312,755	96%
Sir Benfro	1,460,354	840,561	821,194	98%
Abertawe	2,623,166	1,743,690	1,733,226	99%
Costau canolog	675,369	347,555	264,159	76%
Cyfanswm	6,753,699	4,530,105	4,341,157	96%

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli tîm Canolog MELAP, Hydref 2013, a'r Cynllun Busnes Gwreiddiol.

Pwyntiau cryno allweddol

- 2.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arweiniad ar ddiwallu anghenion dysgwyr SIY. Mae hyn yn cynnwys y dulliau i gynorthwyo dysgwyr sydd i'w hintegreiddio i'r addysgu yn y dosbarth a'r gymuned ysgol yn ogystal â dysgu a gwella eu Saesneg ac ennill cymwysterau yn yr iaith gartref. Mae arweiniad arall yn debyg i gryn raddau ac mae'n adlewyrchu tystiolaeth ymchwil a gafwyd sy'n dangos mai cymorth yn y dosbarth sy'n agor y drws i gael mynediad i'r cwricwlwm a symud ymlaen mewn dysgu (cefnogir gan gymorth addysgu dwyieithog ac athrawon dosbarth sy'n ymwybodol o eirfa a chymhorthion gweledol i alluogi deall yn Saesneg); cyfeillio gan ddisgyblion eraill; a gwaith grŵp, a gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth i wella galluedd yn yr iaith Saesneg (gwrando a siarad).
- 2.24 Roedd yr ALlau cyfrannog yn ymwybodol o arweiniad Llywodraeth Cymru pan ddatblygont eu cynlluniau i roi MELAP ar waith yn lleol, ac roeddent wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad yn eu gwasanaethau presennol lle'r oedd y rhain wedi'u sefydlu'n dda. Ni theimlai'r un ohonynt fod angen dulliau gwahanol iawn arnynt. Fodd bynnag, dim ond Abertawe benderfynodd ddefnyddio'r cyfle i sefydlu rhaglen o gynyddu capasiti athrawon dosbarth i addysgu disgyblion ag anghenion SIY yn hytrach na chynyddu cymorth dosbarth yn sylweddol. Fe wnaeth pob un ohonynt nodi o leiaf lefel gyson o ddysgwyr SIY yn y dyfodol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd.

3 Rhoi MELAP ar waith

3.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio ble mae cyllid MELAP yn cael ei wario, beth sy'n cael ei gyflwyno, proffil y disgyblion sy'n cael y cymorth, y staff sy'n darparu cymorth a'r gweithgareddau y maent yn eu cyflwyno. Mae disgrifiad o'r modd y caiff y gweithgareddau eu cyflwyno a sut mae'r prosiect yn cael ei reoli ym mhob ALL yn dilyn. Cafwyd y wybodaeth yn y bennod hon o wybodaeth reoli'r prosiect a gwybodaeth a ddarparwyd gan arweinwyr yr ALLau ar MELAP.

Ble cyflwynwyd y prosiect

Ble mae'r buddiolwyr

3.2 Mae MELAP yn cael ei gyflwyno yn yr ardal Gydgyfeirio ond dim ond o fewn y naw ardal ALL ganlynol: Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Mae MELAP wedi darparu cymorth mewn cyfanswm o 74 o ysgolion⁵², fel y dangosir yn Nhabl 3.1 (rhoddir rhestr gyflawn yn Atodiad 2 o'r ysgolion lle darparwyd cymorth o dan MELAP). Yn Abertawe y mae'r nifer uchaf o ddisgyblion a gynorthwyir fesul ysgol, tra bod Castell-nedd Port Talbot yn darparu cymorth i nifer gymharol fach o ddisgyblion mewn nifer fawr o ysgolion (ym Mlaenau Gwent hefyd mae nifer gyfartalog isel o ddisgyblion yn cael cymorth fesul ysgol, ond y rheswm am hyn yw'r nifer fach o ddisgyblion, yn hytrach na nifer fawr o ysgolion).

Tabl 3.1 Ysgolion sy'n darparu cymorth drwy MELAP

Awdurdod Lleol	Nifer yr ysgolion	Nifer y disgyblion a gynorthwywyd	Nifer gyfartalog y disgyblion fesul ysgol
Blaenau Gwent	5	37	7.4
Sir Gaerfyrddin	6	101	16.8
Ceredigion	4	135	33.8

⁵² Hwn yw cyfanswm nifer yr ysgolion y darparwyd cymorth ynddynt; nid yw'n hysbys faint o ysgolion ychwanegol (ysgolion na ddarparwyd cymorth ynddynt yn flaenorol) y mae MELAP wedi darparu cymorth ynddynt.

Awdurdod Lleol	Nifer yr ysgolion	Nifer y disgyblion a gynorthwywyd	Nifer gyfartalog y disgyblion fesul ysgol
Conwy	6	76	12.7
Sir Ddinbych	7	75	10.7
Merthyr Tudful	4	142	35.5
Castell-nedd Port Talbot	18	70	3.9
Sir Benfro	8	207	25.9
Abertawe	16	1,100	68.8
Cyfanswm	74	1,943	26.3

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013⁵³

- 3.3 Mae cyfanswm o 1,943 o ddisgyblion wedi'u cynorthwyo drwy MELAP. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion a gynorthwywyd yn amrywio'n fawr rhwng ALLau (gweler Tabl 3.2). Mae hyn i gryn raddau yn adlewyrchu meintiau cymharol y boblogaeth ddisgyblion a dosbarthiad disgyblion lleiafrifoedd ethnig ac ymfudwyr. Mae dros hanner y disgyblion a gynorthwywyd yn Abertawe (57 y cant o'r cyfanswm). Mae hyn i'w ddisgwyl, am dri rheswm. Abertawe yw'r ardal fwyaf poblog lle mae MELAP yn cael ei ddarparu, ac mae'n un o bedair ardal yng Nghymru sydd wedi'i dynodi'n rhan o gynllun gwasgaru Llywodraeth y DU ar gyfer ceiswyr lloches (ynghyd â Chaerdydd, Casnewydd a Wrecsam)⁵⁴.
- 3.4 Cafodd bron i 30 y cant o'r holl ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd a dderbyniodd gyllid eu cynorthwyo drwy MELAP (er bod hyn yn cynnwys dysgwyr SIY mewn addysg feithrin ac ysgolion cynradd, na allant dderbyn cymorth drwy MELAP). Fodd bynnag, mae canran cyfanswm nifer y disgyblion SIY a gynorthwywyd drwy MELAP yn amrywio gryn dipyn rhwng ALLau (Tabl 3.2). Yn Sir Benfro, cynorthwywyd dros hanner yr holl ddysgwyr SIY drwy MELAP, ond yng Nghastell-nedd Port Talbot, cafodd llai na deg y cant o'r holl ddisgyblion SIY eu cynorthwyo drwy MELAP. Gallai hyn adlewyrchu strwythur oedran y dysgwyr

⁵³ Mae'r ffigurau ar gyfer nifer y disgyblion yn nhablau 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4 yn wahanol i nifer y disgyblion yn Nhabl 4.1. Mae hyn oherwydd bod y ddau rif yn dod o ffynonellau gwahanol - mae'r niferoedd yn nhablau 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4 wedi'u cymryd o gronfa ddata disgyblion tîm canolog MELAP (Hydref 2013), ond mae'r ffigurau yn Nhabl 4.1 wedi'u cymryd o honiad terfynol arweinwyr EMAS ALLau i WEFO o ddeilliannau a gyflawnwyd. Mae gwahaniaethau yn y ddwy ffynhonnell ddata am nad yw'r data a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol yn cyd-daro ag enwau disgyblion a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses hawlio chwarterol. Roedd y data hwn yn cael ei graffu a'i gysoni pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.

⁵⁴ http://www.cardiffhealthalliance.org/attributes/HSCWB_11-14/consultation/S1d_HSCWB-consult_%20AsylumSeekers+Refugees.pdf

SIY yn eu hardaloedd (mae ymfudwyr mwy diweddar yn fwy tebygol o fod â phlant oedran iau). Rheswm arall a allai gyfrannu at y gwahaniaethu yw penderfyniadau'r ALLau ynglŷn â chymorth a'u defnydd o'r cyllid.

- 3.5 Mae Tabl 3.2 hefyd yn dangos crynodiadau cymharol disgyblion SIY a gynorthwywyd, gydag Abertawe yn ôl y disgwyl â'r cyfrannau uchaf ymhlith pobl ifanc oherwydd ei phoblogaeth fwy o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Tabl 3.2 Nifer y disgyblion SIY sy'n cael cymorth drwy MELAP

Awdurdod Lleol	Cyfanswm nifer y dysgwyr SIY mewn ysgolion ⁵⁵	Nifer y disgyblion SIY 11-19 oed a gynorthwywyd drwy MELAP	Canran y disgyblion SIY a gynorthwywyd drwy MELAP	Disgyblion SIY a gynorthwywyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (10-24 oed) ⁵⁶
Blaenau Gwent	185	37	20.0%	2.9
Sir Gaerfyrddin	814	101	12.4%	3.1
Ceredigion	329	135	41.0%	7.1
Conwy	410	76	18.5%	4.1
Sir Ddinbych	453	75	16.6%	4.6
Merthyr Tudful	441	142	32.2%	13.0
Castell-nedd Port Talbot	886	70	7.9%	2.9
Sir Benfro	393	207	52.7%	9.7
Abertawe	2,929	1,100	37.6%	22.0
Cyfanswm	6,840	1,943	28.4%	9.4

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013; Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran a blwyddyn (defnyddwyd data 2012); Disgyblion mewn ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, 2011/12, Cyfrifiad Ysgolion 2012, StatsCymru.

Beth wariwyd ar y buddiolwyr

- 3.6 Mae nifer y disgyblion sy'n cael cymorth drwy MELAP wedi'i chymharu â'r gyllideb a wariwyd ym mhob ardal ALI. Nid yw hyn yn rhoi "cost uned" fesul cyfranogwr, ond mae'n cymharu sut aeth pob ALI ati i wario'r arian a

⁵⁵ Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys disgyblion mewn ysgolion meithrin a chynradd yn ogystal â disgyblion mewn ysgolion uwchradd.

⁵⁶ Yn seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth 10-24 oed yn ardal yr ALI.

ddyrannwyd. Y gwariant cyfartalog fesul disgybl yw ychydig dros £2,000; fodd bynnag, mae hyn yn amrywio o ryw £1,500 yn Abertawe a Chonwy a Sir Ddinbych, i dros £4,000 yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn adlewyrchu nifer y disgyblion a gynorthwywyd, a'r dull a ddefnyddiwyd. Yn Abertawe, bu ffocws ar ddarparu hyfforddiant i athrawon pwnc i sicrhau y gall dysgwyr SIY fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm, ac mae hyn wedi'u galluogi i gynorthwyo mwy o ddisgyblion nag o'r blaen cyn MELAP. Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, bu ffocws hefyd ar gyflogi cyfran uwch o athrawon SIY. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r gwasanaeth SIY yn gymharol newydd ac mae wedi gorfod sefydlu perthnasoedd gydag ysgolion. Gall, serch hynny, amlygu dyraniadau sylweddol uwch o ran oriau o gymorth dosbarth unigol mewn rhai awdurdodau o gymharu ag eraill.

Tabl 3.3 Gwariant cyfartalog fesul cyfranogwyr sy'n derbyn cymorth

Awdurdod Lleol	Nifer y disgyblion yn cael cymorth	Gwariant hyd yn hyn (£)	Gwariant fesul cyfranogwr (£)
Blaenau Gwent	37	75,534	2,041
Sir Gaerfyrddin	101	437,507	4,332
Ceredigion	135	299,854	2,221
Conwy	151	212,369	1,406
Sir Ddinbych			
Merthyr Tudful	142	188,287	1,326
Castell-nedd Port Talbot	70	312,755	4,468
Sir Benfro	207	821,194	3,967
Abertawe	1,100	1,733,226	1,576
Cyfanswm	1,943	4,080,726	2,100

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP a Gwybodaeth Reoli tîm Canolog MELAP ar gyfer gwybodaeth ariannol, y ddau ym mis Hydref 2013

Pwy oedd y buddiolwyr

Disgyblion

- 3.7 Mae cyfranogwyr MELAP i gyd yn ddisgyblion sy'n astudio mewn ysgol uwchradd a gynorthwywyd gan staff wedi'u hariannu gan MELAP rhwng Awst 2010 a Gorffennaf 2013. Mae hyn yn cynnwys disgyblion a oedd yn cael cymorth gan y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig cyn mis Awst 2010 a barhaodd i wneud hynny yn ystod y prosiect. Nid oes gwahaniaeth rhwng disgyblion yn cael cymorth drwy'r Grant neu drwy MELAP; mae pob un o'r disgyblion sy'n cael cymorth SIY yn gyfranogwyr yn MELAP, gan eu bod yn cael cymorth sydd wedi'i wella trwy gyllid MELAP.
- 3.8 Mae rhyw buddiolwyr MELAP yn gogwyddo ychydig tuag at fod yn wrywaidd, gyda dros hanner y buddiolwyr yn wrywaidd (53 y cant). Dangosir proffil oedran buddiolwyr MELAP yn Nhabl 3.4. Roedd y mwyafrif rhwng 11 ac 16 oed pan gawsant eu cynnwys yn y system (93 y cant) gyda'r gyfran uchaf yn y grŵp oedran iau, 11 i 13 (54 y cant o'r holl fuddiolwyr)⁵⁷. Fe wnaeth pob un o'r ALLau gynorthwyo disgyblion a oedd dros 16 oed pan ddechreuodd y cymorth, gyda saith y cant o ddisgyblion dros 16 oed pan ddechreuodd y cymorth. Mae mwy o ddisgyblion oedrannau hŷn wedi'u cynorthwyo ers hynny am fod llawer ohonynt wedi parhau i gael cymorth dros gyfnod y rhaglen wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.
- 3.9 Mae'r dosbarthiadau oedran yn gwahaniaethu rhwng yr ALLau. Tra bod dros hanner y disgyblion a gynorthwywyd rhwng 11 a 13 oed pan ddechreuodd y cymorth mewn pump ALI, roedd mwyafrif y disgyblion a gynorthwywyd yn y pedwar ALI arall yn 14 oed neu'n hŷn pan ddechreuodd y cymorth, gyda dros 60 y cant o'r disgyblion yng Nghonwy a Merthyr Tudful yn 14 oed neu'n hŷn pan ddechreuodd y cymorth.

⁵⁷ Mae'r dyddiad cofnodi'r disgyblion ar y system wedi'i gymryd fel amcangyfrif o'r dyddiad y dechreuont dderbyn cymorth.

**Tabl 3.4 Oedran y buddiolwr pan gofnodwyd ar gronfa ddata gwybodaeth reoli
MELAP**

Awdurdod Lleol	11-13		>14		Cyfanswm
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	
Blaenau Gwent	18	48.6%	19	51.4%	37
Sir Gaerfyrddin	44	43.6%	57	56.4%	101
Ceredigion	73	54.1%	62	45.9%	135
Conwy	30	39.5%	46	60.5%	76
Sir Ddinbych	38	50.7%	37	49.3%	75
Merthyr Tudful	54	38.0%	88	62.0%	142
Castell-nedd Port Talbot	37	52.9%	33	47.1%	70
Sir Benfro	106	51.2%	101	48.8%	207
Abertawe	653	59.4%	447	40.6%	1,100
Cyfanswm	1,053	54.2%	890	45.8%	1,943

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013

3.10 Cynorthwywyd disgyblion ag 81 ethnigrwydd cofnodedig gwahanol gan MELAP (gweler Atodiad 2 am restr gyflawn). Y grwpiau mwyaf oedd Gwyn Ewropeaidd a De Asiaidd. Mae Tabl 3.5 yn dangos y grwpiau ethnig mwyaf cyffredin a gofnodwyd, a'r ganran o gyfanswm y buddiolwyr yw hyn. Y grŵp mwyaf cyffredin yw Pwyliaid, ac yna Bangladeshaidd sy'n cyfrif am dros draean o'r disgyblion (35 y cant), ac mae'r chwe grŵp ethnig uchaf yn cynrychioli ychydig dros hanner yr holl ddisgyblion (53 y cant).⁵⁸

3.11 Mae gwahaniaethau rhwng ardaloedd o ran ethnigrwydd y disgyblion a gynorthwywyd. Mewn wyth o'r naw ALL, disgyblion Pwylaidd oedd y grŵp mwyaf cyffredin⁵⁹, er bod hyn yn amrywio o 16 y cant yn Sir Benfro i 77 y cant yn Sir Gaerfyrddin. Yn Abertawe, y grŵp mwyaf cyffredin o gryn dipyn oedd disgyblion Bangladeshaidd. O'r 310 o ddisgyblion Bangladeshaidd a gynorthwywyd gan MELAP, cafodd 288 (93 y cant) eu cynorthwyo yn Abertawe. Er mai disgyblion

⁵⁸ Mae disgyblion nad ydynt wedi darparu grŵp ethnig wedi'u hepgor o'r cyfrifiadau canran. Mae 129 o gofnodion ar gyfer disgyblion lle na chafodd y wybodaeth am grŵp ethnig disgyblion ei darparu neu gwrthododd y disgybl â darparu'r wybodaeth.

Ym Mlaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, y nhw oedd y grŵp mwyaf cyffredin; yng Ngheredigion roedd mwy gan fod cofnod o 'ddim ymateb' neu grŵp ethnig arall wedi'i gofnodi.

Bangladeshaidd yw'r ail grŵp mwyaf cyffredin, nid oes unrhyw ddisgyblion Bangladeshaidd mewn pedair o'r ardaloedd ALI.⁶⁰ Mae rhai grwpiau ethnig eraill wedi'u crynodi hefyd mewn un neu fwy o'r ALLau. Er enghraifft, mae dros hanner (37 o ddisgyblion, 58 y cant) o'r disgyblion Portiwgeaidd ym Merthyr Tudful, ac mae dros 70 y cant o'r disgyblion Almaenig yn Sir Benfro.

Tabl 3.5 Grwpiau ethnig mwyaf cyffredin a gynorthwywyd drwy MELAP

Grŵp ethnig	Nifer y disgyblion a gynorthwywyd drwy MELAP	Canran y buddiolwyr yn seiliedig ar gyfanswm nifer y buddiolwyr y cofnodwyd eu hethnigrwydd
Pwyliaid	332	18.3%
Bangladeshaidd	310	17.1%
Ffilipiniaid	100	5.5%
Indiaid	77	4.2%
Arabiaid	68	3.7%
Portiwgaliaid	67	3.7%

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013

3.12 Mae'r canlyniadau o'r arolwg disgyblion yn awgrymu nad yw mwyafrif y disgyblion (70 y cant) yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf gartref. Yr ieithoedd a siaradwyd yn fwyaf cyffredin oedd Pwyleg, Arabeg a Thagalog.

Staff

3.13 Roedd staff addysgu mewn ysgolion uwchradd, cynorthwywyr addysgu ac athrawon SIY y talwyd amdanynt gan MELAP yn fuddiolwyr cyllid y prosiect hefyd, a hynny drwy hyfforddiant ac arweiniad a ddarparwyd gan staff y prosiect, hyfforddiant allanol, a chysiau cymwysterau. Mae Tabl 3.6 yn dangos bod 756 o staff wedi cael hyfforddiant, mewn chwech o'r ALLau yn bennaf. Hyfforddiant i staff addysgu yw hyn gan mwyaf, yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn arbennig, ac mae'n cyfrif am ryw ddwy ran o dair o'r cyfanswm (65 y cant). Fe wnaeth pob ALI ac eithrio Ceredigion gynorthwyo rhai staff i ennill

⁶⁰ Ni chynorthwywyd unrhyw ddisgyblion Bangladeshaidd ym Mlaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Conwy na Merthyr Tudful.

cymwysterau, ond darparwyd y rhan fwyaf gan Sir Gaerfyrddin ac Abertawe.

Roedd y cymwysterau'n cynnwys:

3.14 Ar gyfer Cynorthwyr Addysgu

- Tystysgrifau Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor (TEFL);
- Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cymorth Addysgu; a
- Thystysgrifau Dehongli ar gyfer Addysg.

3.15 Ar gyfer athrawon SIY:

- Graddau Meistr mewn Dwyieithrwydd mewn Addysg;
- Tystysgrif Ôl-radd mewn Dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol; a
- Diplomau Ôl-radd mewn Iaith a Llythrennedd;

3.16 Roedd yr hyfforddiant a gafodd staff addysgu yn amrywio rhwng ALLau. Yn y rhan fwyaf ohonynt, darparwyd hyfforddiant ysgol gyfan yn ystod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd gan staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, gan esbonio anghenion disgyblion SIY i'r staff addysgu, a darparu strategaethau i helpu dysgwyr SIY. Mae'r astudiaethau achos yn dynodi, mewn rhai ysgolion, bod staff SIY yn yr ysgolion wedi darparu sesiynau ar gyfer grwpiau o staff ac arweiniad un i un.

3.17 Yn Abertawe, cafodd athrawon mewn tri maes pwnc (mathemateg, hanes a gwyddoniaeth) hyfforddiant adeiladu gallu dwys dros gyfnod estynedig, i newid eu harferion addysgu fel bod dysgwyr SIY yn gallu deall eu gwersi'n llwyr heb fawr o angen am gymorth ychwanegol.

3.18 Yn ystod yr hyfforddiant adeiladu gallu, fe wnaeth athrawon pwnc lenwi holiadur ar ddechrau'u hyfforddiant, er mwyn gosod gwaelodlin ar gyfer eu hyder a'u gallu yn addysgu dysgwyr SIY. Cytunwyd nodau ac amcanion gydag athro arbenigol SIY ynglŷn â sut roeddent yn mynd i addysgu'u dosbarthiadau i gynnwys dysgwyr SIY. Yna bu'r athro SIY yn arsylwi'r athro pwnc dros gyfnod o 10 i 12 wythnos, a rhoddodd adborth i'r athro pwnc. Ar ddiwedd y cyfnod, lluniwyd adroddiad i ddangos yr arferion addysgu a ddefnyddiwyd a sut maent wedi cael effaith ar ddisgyblion SIY, a rhoddwyd ail holiadur i'r athro pwnc ei lenwi.

Tabl 3.6 Staff sydd wedi cael hyfforddiant a chyflawni cymwysterau drwy MELAP

Awdurdod Lleol	Nifer y staff addysgu mewn ysgolion uwchradd yn cael hyfforddiant heb gymwysterau	Nifer y cynorthwyyr addysgu ac athrawon SIY yn cael hyfforddiant ac yn ennill cymwysterau
Blaenau Gwent	0	5
Sir Gaerfyrddin	207	11
Ceredigion	2	0
Conwy	90	2
Sir Ddinbych		
Merthyr Tudful	0	2
Castell-nedd Port Talbot	75	6
Sir Benfro	85	3
Abertawe	251	17
Cyfanswm	710	46

Ffynhonnell: Data o reolwyr prosiectau ALI

Pa weithgareddau a gyflwynwyd a pham

3.19 Roedd yr hyblygrwydd gan yr ALLau i benderfynu pa weithgareddau i'w cefnogi er mwyn teilwra eu darpariaeth yn ôl anghenion disgyblion yn eu hardal. Mae'r crynodeb isod yn 3.7 yn dangos bod wyth o weithgareddau wedi'u darparu gan bob un o'r ALLau, sef:

- Integreiddio newydd ddyfodiaid yn effeithiol i amgylchedd yr ysgol;
- Cysylltiadau rhwng y cartref/ysgol;
- Gwasanaethau cymorth dwyieithog gwell;
- SIY gwell;
- Hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer staff addysgu;
- Mentora a chynorthwyo adeg pontio;
- Gwasanaethau cyfieithu a dehongli gwell; a
- Chymorth gydag arholiadau yn yr iaith gartref (TGAU, UG ac A2).


3.20 Roedd pob un o'r gweithgareddau hyn, ac eithrio'r olaf, ar y ddewislen o weithgareddau a restrwyd yn yr achos busnes.

- 3.21 Darparodd tua hanner yr ALLau o leiaf un o'r gweithgareddau a restrwyd yn yr achos busnes, fel cymorth astudio ar ôl ysgol neu arweiniad manylach ar yrfaeodd. Dim ond un ALI (Castell-nedd Port Talbot) sydd wedi darparu gweithgaredd a ddosbarthwyd fel cryfhau gwybodaeth ieuenctid ac addysg dinasyddiaeth (yn yr achos hwn, addysg dinasyddiaeth). Nid yw gwella gweithgareddau y tu allan i'r ysgol wedi'i gynorthwyo gan unrhyw ALI⁶¹ ac mae dysgu ar gyfer rhieni SIY wedi'i ddarparu gan dri ALI.
- 3.22 Mae'r hyn a adroddwyd gan arweinwyr prosiectau'r ALL yn cael ei ategu gan yr arolwg disgyblion. Dengys Ffigur 3.1 nifer y disgyblion sy'n adrodd am y math o weithgareddau yr oeddent yn gallu cofio eu derbyn. Cymorth yn y dosbarth oedd y gweithgaredd yr adroddwyd amdano amlach, gyda dros dri chwarter yr ymatebwyr (77 y cant, 359 o ddisgyblion) yn dweud eu bod wedi cael y cymorth hwn. Dywedodd lai na hanner yr ymatebwyr eu bod wedi'u tynnu allan o wersi i gael gwersi iaith Saesneg ychwanegol. Mae hyn yn cyfateb i arfer gorau Llywodraeth Cymru ac adborth gan arweinwyr ALLau, a adroddodd fod disgyblion wedi'u cynorthwyo yn y dosbarth yn y rhan fwyaf o achosion, ond y byddai rhai disgyblion sydd megis dechrau dysgu Saesneg yn cael eu tynnu allan o rai gwersi er mwyn eu helpu i wella'u Saesneg. Ategir hyn gan yr astudiaethau achos sy'n dynodi mai dim ond disgyblion newydd gyrraedd â lefelau isel o gymhwysedd yn y Saesneg a sgiliau darllen gwael sy'n cael eu tynnu o wersi yn gyffredinol.
- 3.23 Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu hefyd fod disgyblion yn cael gweithgareddau sy'n anelu at wella cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol. Dywedodd draean o ddisgyblion (33 y cant, 155 o ddisgyblion) eu bod wedi cael llythyrau o'r ysgol a oedd wedi'u cyfieithu i'w hiaith gartref, ond dywedodd bron i hanner (45 y cant, 208 o ddisgyblion) fod help wedi'i ddarparu ar gyfer eu rhieni mewn nosweithiau rhieni. Mae'r astudiaethau achos yn adrodd am enghreifftiau o gymorth iaith i rieni mewn nosweithiau rhieni a phan fydd eu plant yn dechrau yn yr ysgol.
- 3.24 Er i lai o ddisgyblion ddweud eu bod wedi cael help ar ôl ysgol (20 y cant, 93 o ddisgyblion), mae'r astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau lle maent wedi

⁶¹ Nid oedd yn fwriad gan y prosiect i ddarparu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, am fod prosiect ar wahân, ar yr un pryd ag y comisiynwyd MELAP, sef 'Young BME people Aiming High' wedi'i gomisiynu gan WEFO yn yr ardal Gydgyfeirio. Roedd y prosiect hwn yn cael ei redeg gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). Penderfynwyd, er mwyn osgoi dyblygu, y byddai prosiect AWEMA yn darparu cymorth y tu allan i'r ysgol ac y byddai MELAP yn darparu cymorth yn yr ysgol (ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn gysylltiedig â'r ysgol).

cael clybiau ar ôl ysgol i helpu gyda gwaith cartref, a sesiynau arbennig a chymorth i helpu i baratoi ar gyfer arholiadau TGAU.

Ffigur 3.1 Nifer y disgyblion yn adrodd am y math o weithgareddau a dderbyniwyd



Ffynhonnell: Arolwg disgyblion MELAP, sylfaen 466 o ddisgyblion, Haf 2013. Cwestiwn ymateb lluosog yw hwn.

- 3.25 Ceir rhestr lawn yn Atodiad 3 o'r gweithgareddau ym mhob ALI a gynorthwywyd gan MELAP, ynghyd â disgrifiad cyffredinol o'r gweithgareddau hyn.
- 3.26 Esboniodd arweinwyr Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau y rhesymau dros eu pecynnau cymorth a newidiadau iddynt:
- Mae pob un wedi dynodi mai o'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig y darparwyd y gweithgareddau a gynigiwyd yn fwyaf eang, ond bod MELAP wedi'u galluogi i gynyddu eu capasiti a'u dyfnder. Mae hyn yn arbennig o wir gyda'r lefel gynyddol o gymorth SIY a nifer y disgyblion sy'n derbyn y cymorth; dywedodd y rhan fwyaf o'r arweinwyr prosiect eu bod o'r farn fod y cymorth yr oeddent yn ei gynnig wedi gweithio'n dda, a'u bod eisiau ehangu nifer y bobl y gallent eu cynorthwyo (i gael rhagor o wybodaeth am y nifer ychwanegol o ddisgyblion a gynorthwywyd, gweler Tabl 5.1). Dywedodd rhai o'r ALLau eu bod wedi'u cyfyngu eu hunain i weithgareddau 'cymorth mewn dysgu' am mai dyma oedd eu prif faes arbenigedd, ac nad oedd y wybodaeth gan y staff a gyflogwyd i gynorthwyo â darparu cymorth eiriolaeth neu arweiniad manylach ar yrfaeodd, er enghraifft, er y gellid disgwyl iddynt fentora'r disgyblion yn eu rolau;
 - Mae gan lawer ohonynt gefnogaeth a chymorth dwyieithog gwell gydag arholiadau yn yr iaith gartref nad oedd y capasiti gan ddau ohonynt i'w darparu o'r blaen (rhoesant flaenoriaeth i fathau eraill o gefnogaeth cyn darparu cymorth ar gyfer cymwysterau yn yr iaith gartref), ac mae pob ALI arall wedi ehangu'r cymorth y maent yn ei ddarparu ar gyfer cymwysterau iaith gartref (hynny yw, drwy amser a chymorth staff, a chael staff sy'n siarad yr un iaith gartref â'r disgyblion). Roedd hyn mewn ymateb i'r prosiect yn gosod targedau ar gyfer cyflawni'r cyfryw gymwysterau, fel bod disgyblion yn gallu ardystio eu cymhwysedd mewn darllen, ysgrifennu a siarad, a'r galw gan ddisgyblion a oedd eisiau cyflawni cymwysterau yn yr iaith gartref;
 - Nod tri ALI oedd dechrau darparu hyfforddiant i grwpiau bach o athrawon dosbarth er mwyn gwneud eu dosbarthiadau'n fwy hygyrch i ddisgyblion SIY. Darparwyd hyn yn flaenorol yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin, ac roedd yn nod gan Ferthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot i ddarparu'r hyfforddiant hwn hefyd. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn yn Sir Gaerfyrddin a Merthyr Tudful gan na allai'r ysgolion gytuno i gyfranogi yn y cyfryw hyfforddiant. Roedd Castell-nedd Port Talbot yn gallu darparu hyfforddiant mewn grwpiau bach i athrawon. Penderfynodd Abertawe gynyddu hyn am fod nifer y disgyblion

SIY yn yr ysgolion uwchradd yn Abertawe wedi cynyddu i'r graddau na fyddai'n gynaliadwy i ddarparu cymorth yn y dosbarth i'r holl ddisgyblion SIY, felly roedd angen iddynt sicrhau y gallai pob disgybl SIY fanteisio ar y cwricwlwm;

- Mae chwech ALI wedi dechrau darparu cymorth arall a oedd wedi'i ddarparu gan o leiaf un ALI arall; ac
- Adroddodd rhai ALIau y bu'n anodd meithrin cysylltiadau gydag asiantaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau ieuenctid, yn eu hardal, ac o ganlyniad nid oeddent wedi mynd ar drywydd gweithgareddau i gynnwys disgyblion SIY mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, fel gwasanaethau ieuenctid. Archwiliwyd hyn yn yr astudiaethau achos, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn dweud na wnaethant helpu disgyblion y tu allan i'r ysgol, a chan fod gweithwyr y gwasanaethau ieuenctid hefyd yn weithwyr peripatetig, bu'n anodd meithrin perthynas â nhw. Mae gwasgariad daearyddol ysgolion a disgyblion SIY mewn rhai ardaloedd yn ei gwneud yn anoddach gweithio y tu allan i'r ysgol gyda disgyblion neu'u rhieni. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i staff MELAP ymweld â chartrefi disgyblion i gynorthwyo dysgu gartref neu ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer dysgu heb fod yn ffurfiol yn y gymuned.

3.27 Er y bu newid arfer ym mhob un o'r ardaloedd ALI ers cyflwyno cyllid MELAP, mae llai o dystiolaeth o arferion cwbl newydd ac arloesol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd yn nod MELAP i fod yn arloesol, ond yn hytrach darparu gwasanaeth gwell i fwy o ddisgyblion ysgol uwchradd y mae angen cymorth SIY arnynt. Credir bod y rhestr isod yn enghreifftiau o arfer arloesol a gyflwynwyd o ganlyniad i gyllid MELAP:

- Cymorth o bell – Yng Ngheredigion, lle mae un disgybl MELAP yn Aberteifi, tra bod mwyafrif y disgyblion MELAP gyda'r un anghenion SIY yn ogystal â'r cynorthwyydd addysgu dwyieithog perthnasol yn Llanbedr Pont Steffan, mae'r gwasanaeth wedi treialu darparu cymorth ychwanegol gan ddefnyddio cyswllt fideo diogel;
- Fe wnaeth un ysgol ym Merthyr Tudful ddefnyddio cyllid MELAP i gyflwyno 'read write inc' (rhaglen ddarllen i blant â lefel llythrennedd gymharol isel) ar gyfer disgyblion SIY, a oedd yn cael trafferth gyda'r Saesneg. Gyda chyllid MELAP, roedd modd iddynt brynu'r deunyddiau a darparu cymorth darllen y tu allan i'r dosbarth;

- Gwersi i athrawon – Yn Sir Gaerfyrddin, rhoddwyd gwersi i athrawon ysgol uwchradd gan ddisgyblion MELAP yn eu mamiaith, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth yr athrawon o anghenion disgyblion SIY. Yn Sir Ddinbych, rhoddodd gynorthwyydd addysgu dwyieithog gyflwyniad yn ei iaith gartref i staff addysgu ysgol uwchradd. Yn ôl yr hyn a ddeallwyd, mae'r athrawon yn y ddwy ardal wedi gwerthfawrogi sut beth ydyw i gael rhywun yn siarad â nhw mewn iaith dramor nad oeddent yn ei deall;
- Cyd-addysgu (athro pwnc Saesneg ac athro SIY) Saesneg TGAU i ddosbarth â'r holl ddisgyblion SIY yn y grŵp blwyddyn (ochr yn ochr â siaradwyr Saesneg brodorol). Gweithiodd yr athrawon gyda'i gilydd i lunio cynlluniau gwersi ac addysgu'r cwricwlwm trwy gydol y flwyddyn. Aeth yr athro Saesneg ati i gynllunio'r gwersi o safbwynt cwricwlwm Saesneg, yna aeth yr athro SIY ati i adeiladu ar y cynlluniau hyn er mwyn helpu dysgwyr SIY allu manteisio ar y gwersi. Adroddodd yr athrawon am fuddion o'r profiad, ac roedd canlyniadau TGAU y disgyblion yn well na'r disgwyl; a
- Thechnoleg darlunio - Defnyddio cyfrifiaduron tabled fel dyfeisiadau darlunio yn yr ystafell ddosbarth i helpu disgyblion ddeall geiriau a chysyniadau.

3.28 Ni theimlai'r un o'r ALLau fod bylchau yn yr ystod gweithgareddau yr oeddent bellach yn eu darparu yn eu hardal i gynorthwyo cyflawniad a dilyniant disgyblion SIY. Pe bai ganddynt fwy o gyllid ar gael, neu pe bai cyllid yn parhau, dywedodd y rhan fwyaf o reolwyr prosiectau'r ALLau y byddent yn recriwtio mwy o staff ac yn darparu cymorth ychwanegol mewn gweithgareddau dysgu yn yr ysgolion yn eu hardal.

Tabl 3.7 Gweithgareddau a gyflwynwyd drwy MELAP⁶²

	Ysgol	Ysgol estynedig
Dysgu ar gyfer disgyblion SIY	■ Gwasanaethau cymorth dwyieithog gwell (8) ■ Cyfranogiad effeithiol gan ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig (8) ■ Gwasanaethau gwell ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) (8) ■ Gwasanaethau cyfieithu a dehongli gwell (8) ■ Darparu cwricwlwm amgen i'r rheiny sy'n cyrraedd yn rhy hwyr i allu manteisio ar y cwricwlwm safonol (0) ■ Darparu cyrsiau "iaith gartref" i bob disgybl (0)	■ Cymorth astudio integredig ar ôl ysgol (5)
Cyngor ac arweiniad ar gyfer disgyblion SIY	■ Integreiddio newydd ddyfodiad yn effeithiol i'r ysgol (8) ■ Cynlluniau mentora a chynorthwyo, yn enwedig adeg pontio (8) ■ Cymorth gwell ar gyfer trosglwyddo ôl-16 i lwybrau dysgu a ddewiswyd (4)	■ Arweiniad gyrfaedd a lleoliadau profiad gwaith gwell (4) ■ Integreiddio â chymorth i'r gymuned trwy gryfhau cysylltiadau â'r gwasanaethau cymorth ieuenctid (4) ■ Cymorth eiriolaeth (3) ■ Gwella a thargeddu darpariaeth gwybodaeth ieuenctid/addysg dinasyddiaeth (1)
Dysgu ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc	■ Hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth (8)	
Dysgu ar gyfer rhieni SIY		■ Darparu hyfforddiant Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) i rieni (3)
Cyngor ac arweiniad ar gyfer rhieni SIY		■ Darparu cysylltiadau rhwng y cartref/ysgol (8) ■ Gwasanaethau cyfieithu a dehongli gwell (8) ■ Gweithio gyda rhieni i wella cymorth addysgol yn y cartref a'r gymuned (4)

Ffynhonnell: Cyfweiliadau â rheolwyr prosiectau ALLau

⁶² Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dangos nifer yr ALLau y darperir y gweithgaredd ynddynt.

Pwy sy'n cyflwyno'r gweithgareddau a sut

3.29 Cafodd y gweithgareddau ym mhob un o'r ardaloedd ALI eu cyflwyno gan staff yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Lleol. Mae'r staff a gyflogwyd trwy gyllid MELAP yn rhannu'n ddau brif gategori:

- **Athrawon/swyddogion datblygu SIY arbenigol** (disgrifir fel athrawon SIY o hyn ymlaen) - Cafodd y rhain eu recriwtio i gyflwyno gweithgareddau mewn ysgolion ac o amgylch ysgolion; yn gyffredinol, mae ganddynt brofiad dysgu a phrofiad SIY. Eu prif rolau yw cynyddu ymwybyddiaeth o SIY mewn ysgolion a darparu hyfforddiant i athrawon ysgolion uwchradd mewn perthynas â SIY. Byddant yn cynnal yr asesiadau cychwynnol o allu Saesneg y disgyblion sydd i'w cynorthwyo gan y prosiect. Mewn rhai ALLau mae eu rôl hefyd yn cynnwys darparu cymorth yn y dosbarth i ddisgyblion, bod yn rheolwyr llinell i gynorthwywyr addysgu dwyieithog, cysylltu â staff pwnc ynglŷn â pha ddisgyblion y mae angen darpariaeth arnynt, amserlennu staff a darparu sesiynau anffurfiol "galw heibio" i gyfranogwyr MELAP.

- **Cynorthwywyr addysgu dwyieithog** - Cafodd y rhain eu recriwtio i gyflwyno gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth; yn gyffredinol, mae ganddynt brofiad yn y dosbarth a phrofiad SIY, a chymhwysedd iaith yn yr iaith a siaredir gan y disgyblion SIY yn yr ardal. Am nad oes profiad SIY gan gynorthwywyr addysgu yn gyffredinol, adroddodd pump ALI eu bod wedi gorfod recriwtio staff a oedd yn siarad ail iaith, ac a oedd â phrofiad o weithio mewn ysgol (naill ai fel cynorthwydd addysgu neu fel athro yn eu mamwlad) ac yna eu hyfforddi i gefnogi SIY. Mae'r cynorthwywyr addysgu dwyieithog yn darparu cymorth yn y dosbarth i ddisgyblion SIY, ac mae rhai yn helpu ysgolion i gyfathrebu â rhieni.

3.30 Roedd staff ychwanegol a gyflogwyd drwy MELAP na ddarparodd gymorth yn gyffredinol i ddisgyblion yn uniongyrchol yn cynnwys:

- **Rheolwr prosiectau/arweinydd tîm** - rhywun a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r prosiect yn gyffredinol yn eu hardal, yn gweithredu fel

rheolwr llinell i weddill y staff yn aml. Roedd ganddynt gyfrifoldeb dros gasglu data a gwneud cyflwyniadau i dderbyn cyllid, sut a ble y caiff arian ei wario, recriwtio staff, cysylltu â'r Swyddog Ewropeaidd yn yr ardal ALI ar gyfer ceisiadau, tîm rhaglen MELAP ac ysgolion yn yr ardal. Y nhw hefyd oedd yn penderfynu pa ddisgyblion a oedd yn cael cymorth ac ym mha bynciau, ac mewn rhai ALLau roeddent yn llunio amserlen y staff (mewn ALLau eraill, gadewir hyn i'r athrawon SIY).

- **Gweinyddwyr a swyddogion cyllid** – Cafodd y staff gweinyddol eu secondio i raddau helaeth o rannau eraill o'r ALI i ddarparu cymorth rhan-amser (un diwrnod yr wythnos fel arfer⁶³) i gasglu'r data a oedd yn ofynnol gan staff fel rhan o'r prosiect, a sicrhau bod data'n cael ei baratoi a'i gyflwyno i WEFO.

- **Cyfieithwyr/dehonglwyr a gwirfoddolwyr Ewropeaidd** – Defnyddiwyd gwirfoddolwr Ewropeaidd mewn un ALI i ddarparu cymorth tebyg i'r cynorthwywyr addysgu dwyieithog, yn darparu cymorth yn y dosbarth a rhywfaint o gyfathrebu â theuluoedd. Cyflogwyd y dehonglwyr a'r cyfieithwyr ar sail ad hoc gan ysgolion mewn un neu ddau o ALLau pan oedd angen penodol. Nid dehonglwyr neu gyfieithwyr wedi'u hurio gan asiantaeth yw'r rhain, ond yn hytrach pobl o'r gymuned leol y mae'r arweinydd tîm yn ymddiried ynddynt, ac yn bwysicach, y mae'r disgyblion a'r teuluoedd y maent yn cyfieithu neu'n dehongli ar eu cyfer yn ymddiried ynddynt.

3.31 Mae Tabl 3.8 yn dangos bod nifer y staff a gyflogwyd ar y prosiect yn cyfateb i gryn raddau â'r cyllid a ddarparwyd. Er bod mwy o gynorthwywyr addysgu dwyieithog nag athrawon SIY yn y rhan fwyaf o'r ALLau, mae Abertawe a Chonwy/Sir Ddinbych wedi cyflogi mwy o athrawon SIY na chynorthwywyr addysgu dwyieithog. Mae Sir Benfro, yn arbennig, yn ogystal â Cheredigion a Merthyr Tudful, wedi cyflogi mwy o gynorthwywyr addysgu dwyieithog nag athrawon SIY. Fe allai hyn esbonio'n rhannol y gwahaniaethau mewn cyllid a ddefnyddiwyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn, sy'n amrywio o £24,454 ym Merthyr

⁶³ Roedd Abertawe a Sir Benfro yn gallu cyflogi staff gweinyddol am fwy na diwrnod yr wythnos, gan mai y nhw yw'r awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o gyfranogwyr.

Tudful i £80,194 yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn ychwanegol at y mathau o weithgarwch a ariannwyd.

Tabl 3.8 Staff cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu gwasanaethau drwy MELAP (cyfanswm staff)

Awdurdod Lleol	Nifer y cynorthwyyr addysgu dwyieithog cyfwerth ag amser llawn	Nifer yr athrawon SIY cyfwerth ag amser llawn	Nifer y rolau cyfwerth ag amser llawn eraill (gweinyddu, arwain tîm, cyllid ac ati)	Cyfanswm	Gwariant hyd yn hyn (£)	Gwariant fesul cyfwerth ag amser llawn (£)
Blaenau Gwent	0.5	1.1	0.1	1.7	75,534	44,432
Sir Gaerfyrddin	2.5	2.6	0.6	5.7	437,507	76,756
Ceredigion	4.2	1.6	0.6	6.4	299,854	46,852
Conwy	1.0	4.9	0.2	6.1	212,369	34,815
Sir Ddinbych						
Merthyr Tudful	5.1	1.6	1.0	7.7	188,287	24,454
Castell-nedd Port Talbot	1.6	1.6	0.7	3.9	312,755	80,194
Sir Benfro	11.1	1.1	1.3	13.5	821,194	60,829
Abertawe	9.6	13.9	1.0	24.5	1,733,226	70,744
Cyfanswm	35.6	28.4	5.5	69.5	4,080,726	58,715


Ffynhonnell: Rheolwyr prosiectau ALLau

3.32 Mae cyfweiliadau rheolwyr prosiectau wedi canfod fod ALLau wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o staffio, gyda rhai (er enghraifft, Sir Benfro, Merthyr Tudful, a Cheredigion) yn defnyddio cynorthwyyr addysgu dwyieithog yn bennaf, tra bod ALLau eraill wedi penderfynu defnyddio cyllid MELAP i ddarparu mwy o athrawon SIY na chynorthwyyr addysgu dwyieithog (Conwy a Sir Ddinbych ac Abertawe). Ysgogwyd hyn gan y mathau o dasgau y cyflogwyd y staff i'w cyflawni. Er enghraifft, yn Sir Benfro, Ceredigion a Merthyr Tudful, roedd ffocws ar ddarparu cymorth uniongyrchol yn y dosbarth gyda disgyblion SIY, i'w ddarparu gan gynorthwyyr addysgu. Yn Abertawe, Sir

Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, nod y gwasanaeth oedd darparu hyfforddiant i athrawon ysgolion uwchradd, y byddai'n rhaid iddo gael ei ddarparu gan athrawon SIY, sy'n helpu esbonio'r dosbarthiad mwy cyfartal o gynorthwywyr addysgu dwyieithog ac athrawon SIY (ym Merthyr Tudful, roedd mwyafrif y disgyblion mewn un ysgol, felly gallai'r hyfforddiant mewn grwpiau bach a gynlluniwyd fod wedi'i ddarparu gan un athro SIY). Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, roedd mwy o athrawon SIY yr oedd disgwyl iddynt gynnal hyfforddiant a chymorth ar ôl ysgol.


- 3.33 Y model cyflwyno ar gyfer Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yw bod y staff yn beripatetig ac yn darparu cymorth mewn mwy nag un ysgol. I gael rhagor o wybodaeth am y modd y darperir cymorth yn gyffredinol, gweler Atodiad 3.
- Dynododd bron i ddwy ran o dair (65 y cant, 33 o aelodau staff) o'r ymatebwyr i'r arolwg staff eu bod yn gweithio ar safleoedd lluosog, yn hytrach nag mewn un ysgol. Roedd staff y Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig hefyd yn cynorthwyo llawer o ddisgyblion bob wythnos, gyda dwy ran o dair o'r staff yn cynorthwyo mwy na 10 o ddisgyblion yr wythnos (gweler Ffigur 3.2). Dangosir y gweithgareddau y dywedodd y staff eu bod wedi'u cyflawni yn Ffigur 3.3. Y gweithgareddau mwyaf cyffredin oedd cymorth yn y dosbarth i ddisgyblion a mentora disgyblion. Mae hyn yn cyfateb i'r canfyddiadau gan y staff y siaradwyd â nhw yn ystod ymchwiliad gwaith maes, a ddywedodd eu bod yn darparu cymorth yn y dosbarth yn bennaf, ond eu bod hefyd yn cynnal ystod o weithgareddau eraill i gefnogi disgyblion a chynorthwyo athrawon.

Ffigur 3.2 Nifer y staff yn adrodd am nifer y disgyblion a gafodd gymorth



Ffynhonnell: Arolwg o staff cyflwyno MELAP, sylfaen 51, Haf 2013

Ffigur 3.3 Gweithgareddau a gyflawnwyd gan staff SIY



Ffynhonnell: Arolwg o staff cyflwyno MELAP, sylfaen 51, Haf 2013. Pa mor aml fyddwch chi'n gwneud y gweithgareddau canlynol: (Dewiswch un ymateb ym mhob rhes). a) o leiaf unwaith y diwrnod; b) unwaith bob 2-3 diwrnod; c) unwaith yr wythnos; ch) Unwaith y mis; d) byth. Mae'r ffigur yn cynrychioli pawb a atebodd a - ch. Cwestiwn ymateb lluosog yw hwn.

Sut mae'r Awdurdodau Lleol wedi rheoli'r prosiect

3.34 Ym mhob un o'r ardaloedd ALL sy'n gysylltiedig â'r prosiect, gwasanaethau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ac SIY yr ALL oedd yn gyfrifol am reoli a chydlynu'r prosiect, gan y cydnabuwyd bod gan y gwasanaethau hyn brofiad o gyflwyno darpariaeth debyg o gyllid y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i ddisgyblion ag anghenion SIY. Roedd trefniadau rheoli ychydig yn wahanol gan dri All, fodd bynnag. Darperir gwasanaethau SIY Sir Ddinbych a Chonwy fel un gwasanaeth yn cael ei reoli gan Sir Ddinbych. Gwasanaeth SIY Casnewydd sy'n rheoli ac yn cyflwyno MELAP ym Mlaenau Gwent. Roedd y trefniadau hyn yn eu lle ar gyfer y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. Hyd yn ddiweddar, ychydig iawn o ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig fu ym Mlaenau Gwent a Gogledd Cymru.

Bodloni gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop

3.35 Dim ond un o'r arweinwyr prosiect oedd ag unrhyw brofiad blaenorol o wneud cais am gyllid prosiect a'i reoli, ac nid oedd unrhyw brofiad o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan yr un ohonynt. Yn ôl yr arweinwyr prosiect, gwnaeth hyn y broses ymgeisio am gyllid MELAP yn anodd iawn ac roedd yn cymryd llawer o amser. Fe wnaeth pob un o'r arweinwyr gael cymorth gan eu swyddog lleol o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a thîm MELAP Llywodraeth Cymru. Er y dywedont fod y cymorth hwn yn '*gyflym ac yn hanfodol iddynt er mwyn llunio'r cynnig*', roedd llawer o waith iddynt wneud o hyd. Roedd hyn yn cynnwys gosod y targedau ar gyfer nifer y disgyblion y byddent yn eu cynorthwyo. Disgrifiwyd y broses o amcangyfrif nifer y disgyblion y byddent yn eu cynorthwyo fel '*gwyddor anfanwl*' gan y rhan fwyaf o'r arweinwyr, proses a oedd yn mynnu ystyried nifer y disgyblion SIY sydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyn o bryd, pa un a oedd y nifer hon yn cynyddu neu'n gostwng, a defnyddio'u profiad a'u gwybodaeth leol i amcangyfrif nifer y dysgwyr SIY y byddai angen iddynt eu cynorthwyo, a faint. Mewn un achos, ni wnaeth yr unigolyn a

ysgrifennodd y cynnig sylweddoli mai nifer y cyfranogwyr oedd nifer y bobl yn cael cymorth, ond yn hytrach credai mai nifer y disgyblion yr oeddent yn eu holrhain ydoedd. Arweiniodd hyn at oramcangyfrif mawr o ran y targed yn yr ardal hon.

- 3.36 Mae swyddog Ewropeaidd yr ALLau wedi cynnig cymorth yn barhaus i'r arweinwyr prosiect. Daw hyn ar ffurf gwirio honiadau wrth gyflwyno'r dystiolaeth i'r tîm MELAP canolog a WEFO, er mwyn dangos eu bod yn darparu'r gweithgareddau y maent yn cael cyllid ar eu cyfer. Eto, gan fod mwyafrif yr arweinwyr prosiect yn amhrofiadol o ran gwneud cynigion am gyllid, mae'r help hwn wedi bod yn werthfawr iawn.

Recriwtio staff ychwanegol

- 3.37 Gwnaed y gwaith o recriwtio staff newydd i weithio fel cynorthwyyr addysgu dwyieithog ac athrawon SIY gan bob un o dimau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. Dim ond mewn un ardal yr adroddodd yr arweinydd prosiect bod pennaeth ysgol wedi dod yn gysylltiedig â'r broses recriwtio (am fod yr aelod o staff yn mynd i gael ei osod yn yr ysgol yn benodol, ac roedd y pennaeth wedi magu mwy a mwy o ddiddordeb yng ngwaith y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a oedd yn cael ei ddarparu). Ar gyfer y cynorthwyyr addysgu dwyieithog, roedd yr arweinwyr prosiect yn chwilio am ymgeiswyr gyda chymhwysedd iaith mewn iaith yn cael ei siarad gan ddisgyblion SIY yn yr ardal a phrofiad o weithio mewn sefydliad addysgol. Ar gyfer yr athrawon SIY, roedd yr arweinwyr prosiect yn chwilio am ymgeiswyr a oedd yn athrawon profiadol, a oedd wedi gwneud gwaith addysgu SIY mewn lleoliad ysgol uwchradd yn flaenorol. Dechreuodd y broses recriwtio ym mis Medi 2010, yn syth ar ôl cymeradwyo cyllid. Llwyddodd un ALI i secondio rhai cynorthwyyr addysgu a oedd eisoes mewn swydd mewn ysgolion uwchradd yn yr ardal i swyddi newydd, ond roedd rhaid llenwi pob un o'r rolau eraill trwy broses recriwtio fewnol ac allanol.
- 3.38 Adroddodd pob un o reolwyr prosiect yr ALLau eu bod wedi'i chael yn anodd llenwi swyddi yn gyflym. Dyma'r rhesymau a roddwyd ganddynt:

- **Oedi ar ddechrau'r prosiect** – Datblygwyd y cynllun busnes ar gyfer MELAP dros gyfnod amser hir, gan ddechrau yn 2007 gyda chyllid yn cael ei ddyfarnu yn Awst 2010. Gan na ddechreuwyd ar gynlluniau a pharatoadau ar gyfer recriwtio cyn i gyllid gael ei ddyfarnu, ychydig a allai benodi staff newydd tan ddechrau 2011. Mae'n rhaid i bob staff addysgu roi rhybudd o un tymor os ydynt yn bwriadu gadael eu swydd.
- **Anallu i recriwtio staff cymwys** – Cafodd y rhan fwyaf o ALLau anhawster yn recriwtio staff gyda'r cymwysterau a'r profiad yr oeddent yn chwilio amdanynt. Priodolwyd hyn i:
 - *Y gofynion hanfodol ar gyfer athrawon SIY a chynorthwyr addysgu dwyieithog.* Roedd y rheolwyr prosiect eisiau recriwtio athrawon a chynorthwyr addysgu a oedd yn brofiadol mewn addysg ac addysgu, yn ogystal â darpariaeth SIY. Hefyd, roedd angen i gynorthwyr addysgu fod yn ddwyieithog. O ganlyniad, ni wnaeth rhai ALLau llenwi swyddi ar sail gofynion cychwynnol, a bu'n rhaid iddynt newydd y rhain wedyn. Fe wnaethant ail-ganolbwyntio sgiliau hanfodol i recriwtio ymgeiswyr â chefnidiroedd ethnig a sgiliau iaith perthnasol, a darparu hyfforddiant i'w galluogi i weithio mewn ystafell ddosbarth i gynorthwyo disgyblion MELAP;
 - *Cronfa fach gyfredol o arbenigedd.* Dynododd y rheolwyr prosiect nad oedd cronfa o athrawon di-waith gyda phrofiad SIY i recriwtio i swyddi newid ohoni. Fe wnaeth hyn waethgu'r problemau recriwtio gan i rai recriwtiaid ddod o ALLau eraill a chyfrannu at gael swyddi heb eu llenwi.
 - *Gweithdrefnau'r ALI yn ei gwneud hi'n anodd recriwtio'n gyflym.* Roedd rhai o'r ALLau yn wynebu gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd trwy ddiswyddo athrawon a gweithwyr eraill yn y sector addysg. Golygai hyn bod rhaid ystyried ymgeiswyr mewnol yn gyntaf i'w hadleoli, a chyfrannodd hyn at oedi wedyn os nad oedd modd gwneud penodiadau o blith y staff presennol a oedd yn wynebu colli eu swyddi.
 - *Cyllid y prosiect.* Dim ond contract cyfnod penodol y gellir ei gynnig i staff ychwanegol, ac roedd hwn yn lleihau wrth i'r prosiect fynd yn

ei flaen. Gallai contractau tymor byr fod wedi rhwystro rhai ymgeiswyr.

- **Lefelau uchel o ran trosiant staff** – Er na theimlir bod cynorthwyyr addysgu dwyieithog mor brin ag athrawon SIY, roedd rhai yn brofiadol neu'n athrawon cymwys ac wedi symud i swyddi eraill gan adael swyddi gweigion tymor byr i'w llenwi⁶⁴. Adroddodd Sir Benfro, er enghraifft, eu bod wedi colli nifer o gynorthwyyr addysgu dwyieithog pan ddaeth swyddi addysgu gyda chyflog uwch ar gael.

3.39 Canfu nifer o arweinwyr y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig fod cael timau mwy o staff a recriwtio i gyflawni yn ychwanegu gryn dipyn at eu llwyth gwaith yn ystod y prosiect, er y cydnabuwyd fod cyllid MELAP yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt addasu eu timau a dirprwyo gwaith i staff newydd.

Asesu anghenion disgyblion

- 3.40 Roedd yr arweinydd prosiect ym mhob ardal yn gyfrifol am gynllunio ymhle y dylai'r cynorthwyyr addysgu dwyieithog a'r athrawon SIY gael eu lleoli. Mae hon yn broses ddynamig, ac mae dyrannu staff i ddisgyblion ac ysgolion yn newid trwy gydol y flwyddyn ysgol wrth i ddisgyblion symud neu wrth i'w hanghenion gael eu hail-asesu.
- 3.41 Ar ddechrau bob blwyddyn, bydd yr arweinwyr prosiect yn archwilio'r data ar gyfer yr holl ddysgwyr SIY presennol yn yr ardal. Gwneir hyn gyda mewnbwn gan yr athrawon SIY a'r cynorthwyyr addysgu dwyieithog, ac mewn rhai achosion gan staff addysgu a rheolwyr ysgolion. Mae hyn yn dibynnu ar ba mor weithredol y mae pob ysgol yn ymgysylltu â thîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n amrywio rhwng ysgolion o fewn yr un ardal. Yr arweinwyr prosiect sy'n penderfynu pa ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt ym mha wersi, a gallant ddefnyddio'r staff i ddarparu cymorth yn y rhain.

⁶⁴ Er enghraifft, roedd rhai cynorthwyyr addysgu yn athrawon cymwys mewn gwledydd eraill, ond nid oedd eu cymhwyster yn cael ei gydnabod yn y DU, felly daethant yn gynorthwyyr addysgu nes iddynt allu cymhwyso fel athro.

- 3.42 Ym mhob un o'r ALLau, cyfrifoldeb yr ysgol yw nodi newydd ddyfodiaid sydd ag anghenion SIY penodol pan fyddant yn cofrestru gyda'r ysgol. Ar yr adeg hon, bydd yr ysgol yn cysylltu â Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr ALI i'w gwneud yn ymwybodol bod disgybl ag angen posibl wedi ymuno â'r ysgol, a bydd hefyd yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth am unrhyw gymorth iaith ychwanegol angenrheidiol ar gyfer y broses gofrestru. Bydd athro SIY, rheolwr prosiect yr ALI neu gynorthwyydd addysgu dwyieithog yn cynnal asesiad cychwynnol o angen SIY y disgybl, a'i lythrennedd yn ei iaith gartref, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu celu gan ei anghenion iaith. Mae hyn yn cynnwys asesu gallu'r plentyn i ddarllen a siarad yn Saesneg a'i iaith gartref, ac fe'i cynhelir mewn lleoliad anffurfiol, er mwyn ceisio sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n gysurus. Ar ôl yr asesiad hwn, bydd y rheolwr prosiect yn penderfynu ar lefel y cymorth sydd ei angen gan y disgyblion, ac yn penderfynu a allant ddarparu'r cymorth hwn gyda'u hadnoddau staff. Os oes angen cymorth ar y disgybl, bydd yn trafod gyda'r disgybl, yr ysgol, a'r rhieni os oes angen, ynglŷn â'r lle gorau i ddarparu'r cymorth, a sut. Bydd y rheolwr prosiect neu'r athro SIY yn amserlennu cymorth i'w neilltuo i'r disgybl wedyn.
- 3.43 Roedd pob un o arweinwyr prosiect yr ALLau yn hyderus ynglŷn â'u gallu i ymateb i anghenion y disgyblion. Er na fyddent yn gallu darparu aelod o staff â'r un iaith gartref â phob disgybl neu ddisgybl newydd, mae'r staff sydd ganddynt yn meddu ar y sgiliau i ddarparu cymorth i bob disgybl. Caiff anghenion pob un o'r disgyblion SIY eu hadolygu'n rheolaidd gan yr athrawon SIY a'r arweinydd prosiect, a all newid y cymorth y bydd disgyblion yn ei gael gan ddibynnu ar angen. Bydd athrawon pwnc a staff cyflwyno yn rhoi adborth fel bod modd adolygu'r amserlen cymorth.
- 3.44 Fe wnaeth staff SIY mewn ysgolion adrodd hefyd eu bod, yn ystod wythnosau cychwynnol o gynorthwyo newydd ddyfodiaid, wedi helpu asesu gallu disgyblion SIY mewn pynciau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gosod yn y setiau priodol o ran eu gallu. Adroddodd nifer o staff ac athrawon SIY a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos fod y staff SIY yn ymwneud mwy â phenderfyniadau ynghylch gosod mewn setiau

ac nad oedd disgyblion SIY yn cael eu dyrannu i setiau gwaelod yn awtomatig.

Casglu data

3.45 Roedd staff y prosiect ym mhob ardal ALI yn gyfrifol am gwblhau tair ffynhonnell ddata wahanol ar gyfer y prosiect. Sef:

- Y Cofnod Cyflawniad Disgyblion (PAR);
- Yr offeryn deilliannau meddal Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS); a
- Thaflenni gweithgareddau a oedd yn cofnodi'r amser yr oedd staff SIY yn ei dreulio ar weithgareddau gwahanol.

3.46 Er y codwyd pryderon gan arweinwyr y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a staff y prosiect ynglŷn â faint o amser yr oedd ei angen i gwblhau'r ffynonellau data ychwanegol hyn, mae pob ALI wedi cydymffurfio â gofynion y prosiect ac wedi'u cwblhau. Roedd pryder arbennig ynglŷn â'r amser a gymerwyd i gwblhau'r ffurflen Cofnod Cyflawniad Disgyblion, gan ei bod yn ddogfen hir, yn enwedig ar ddechrau'r prosiect. Fodd bynnag, ar ôl i'r ddogfen gael ei "sefydlu" (cwblhau'r holl wybodaeth bersonol ar gyfer y disgybl), roedd staff yn gweld buddion y ddogfen, ac yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd ALI roedd y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd arweinwyr y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn ystyried bod arolwg PASS yn ddefnyddiol hefyd. Yn rhai o'r ardaloedd â niferoedd is o ddisgyblion yn cael cymorth, defnyddiwyd y canlyniadau gan arweinydd y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i gadarnhau'r hyn yr oedd eisoes yn ei wybod am y disgyblion gan ei fod yn adnabod y rhan fwyaf o'r disgyblion (er ei fod weithiau yn rhoi gwybodaeth nad oeddent yn ymwybodol ohono). Yn yr ardaloedd ALI â niferoedd mwy o ddisgyblion SIY, defnyddiwyd canlyniadau PASS gan arweinwyr y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i nodi disgyblion yr oedd angen rhywfaint o gymorth arnynt. Yn y ddau achos, lle nodwyd canlyniadau a oedd yn peri pryder drwy PASS ar gyfer disgybl, byddai aelod o staff yn ymchwilio i'r rhesymau (un enghraifft a roddwyd oedd bod diffyg hunan-

barch wedi'i achosi gan ddisgybl yn cweryla gyda'i ffrindiau), ac yn helpu'r disgybl i fynd i'r afael â'r mater.

- 3.47 Cwblhawyd y taflenni gweithgareddau gan staff ym mhob ardal ALI. Fodd bynnag, roedd staff ac arweinwyr prosiect yn gweld bod y taflenni gweithgareddau yn cymryd llawer o amser a'u bod yn amherthnasol, a dim ond fel amod cael cyllid yr oeddent yn eu llenwi. Nid oedd modd defnyddio'r data o'r taflenni gweithgareddau i nodi faint o gymorth a oedd wedi'i neilltuo i ddisgybl penodol, gan na allai gweithgareddau a gofnodwyd ar y daflen nodi'r gwahaniaeth rhwng faint o ddisgyblion a oedd wedi cael cymorth yn ystod gweithgaredd unigol (er enghraifft, gallai aelod o staff ddarparu cymorth mewn un wers ar gyfer nifer o ddisgyblion, ond dim ond unwaith ar y daflen gweithgareddau y gellid cofnodi hyn).
- 3.48 Canfu pob un o arweinwyr y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig fod y cymorth gweinyddol yr oeddent yn gallu ei ariannu wedi helpu i weithredu'r newidiadau hyn ac adrodd i Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Trefniadau cydweithio

- 3.49 Mewn dwy ardal ALI, mae darpariaeth yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth gydag ALI arall neu gan ALI arall. Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, darperir gwasanaethau SIY fel un gwasanaeth yn cael ei reoli gan Sir Ddinbych. Ym Mlaenau Gwent, gwasanaeth SIY Casnewydd sy'n rheoli ac yn cyflwyno gwasanaethau SIY, a MELAP. Roedd y trefniadau hyn ar waith cyn MELAP ar gyfer y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. At ei gilydd, mae'r trefniadau hyn wedi gweithio'n dda yn yr ardaloedd hyn, er bod rhywfaint o broblemau cychwynnol. Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, arweiniodd materion yn ymwneud â mynediad at ddata at rai problemau ar ddechrau'r prosiect, gyda staff Sir Ddinbych yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ddata o gronfeydd data ALI Conwy (gan nad oeddent yn gyflogeion ALI Conwy yn swyddogol). Datrysodd arweinydd Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr ALI y broblem hon drwy gyfarfodydd â staff ALI Conwy. Ym Mlaenau

Gwent, roedd oedi ar ddechrau'r prosiect oherwydd problemau o ran llunio a chytuno contract ar gyfer darparu'r gwasanaeth rhwng yr ALLau. Roedd problemau hefyd yn ymwneud â gweinyddu'r prosiect ym Mlaenau Gwent, a arweiniodd at oedi o ran talu tîm Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Casnewydd am gyflwyno gweithgareddau MELAP. Helpodd tîm canolog MELAP i ddatrys y broblem gychwynnol ym Mlaenau Gwent.

Pwyntiau cryno allweddol

- 3.50 Mae gweithgareddau a ariennir drwy MELAP yn cael eu cyflwyno mewn 74 o ysgolion, ac maent wedi cynorthwyo 1,943 o ddisgyblion. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion a gynorthwywyd o Abertawe (57 y cant). Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion rhwng 11 ac 13 oed pan ddechreuont gael cymorth (54 y cant), ac roedd bron pob un ohonynt rhwng 11 ac 16 oed (93 y cant). Mae hyn yn unol â'r disgwyl gan fod y prosiect yn anelu i gynorthwyo disgyblion ysgolion uwchradd.
- 3.51 Mae'r gwariant cyfartalog fesul disgybl yn amrywio o £1,326 i £4,468 fesul disgybl. Mae gan ddwy o'r tair ardal â'r gwariant isaf fesul disgybl (Abertawe a Chonwy a Sir Ddinbych) fwy o athrawon SIY na chynorthwywyr addysgu. Gallai hyn adlewyrchu'r cymorth ehangach a ddarperir gan athrawon SIY na chynorthwywyr addysgu dwyieithog, a bod yr athrawon SIY wedi darparu hyfforddiant nad yw wedi mynnu defnyddio adnoddau allanol. Fe wnaeth pob un o'r ardaloedd ALI eraill gyflogi naill ai nifer gyfartal o athrawon SIY a chynorthwywyr addysgu neu fwy o gynorthwywyr addysgu.
- 3.52 Penderfynodd y rhan fwyaf o arweinwyr Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau i barhau â'r un gweithgareddau craidd ag yr oeddent yn eu darparu o dan y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, ond gan gynnig cymorth ehangach (mwy o staff, mwy o ieithoedd, a chynnig ehangach o weithgareddau mewn ysgolion). Dim ond Abertawe benderfynodd ddefnyddio cyllid MELAP i newid eu dull o roi cymorth, gan gyflwyno meithrin capasiti ar gyfer staff addysgu ysgolion uwchradd. Roedd y graddau yr oedd yr ALLau yn cefnogi hyfforddiant eu timau

Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a staff yr ysgol, fel athrawon dosbarth, yn amrywio gryn dipyn. Cyflawnwyd hyn yn ehangach o lawer yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

- 3.53 Ar y cychwyn, cafodd ALLau rai anawsterau yn amcangyfrif ac yn gosod targedau. Roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â deilliannau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ddiffiniwyd, ac anawsterau o ran pennu rhagolygon. Yn rhannol, deilliodd hyn o ddiffyg profiad gyda rhaglenni grant a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn benodol, ac mewn llawer o achosion, diffyg systemau canolog ar waith i fonitro disgyblion SIY. Trwy'r rhaglen, mae pob un o'r ALLau wedi mabwysiadu a/neu addasu'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion yr oedd Abertawe eisoes yn ei ddefnyddio i gofnodi a monitro gallu ieithyddol disgyblion SIY a'r cymorth a roddwyd. Hefyd, fe wnaeth yr ALLau cyfrannog gynnwys ysgolion wrth drefnu i'r rhan fwyaf o ddisgyblion SIY gwblhau arolygon PASS ar gyfnodau rheolaidd, a defnyddio'r canlyniadau. Er i staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig weld y gofynion gweinyddol ychwanegol yn anodd ar y cychwyn, roeddent yn gweld mantais data'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion a data PASS ar gyfer monitro disgyblion. Yn anffodus, ni wnaeth yr ALLau cyfrannog gasglu data'n systematig i fonitro cyflawniad deilliannau eraill (dilyniant, meithrin capasiti).
- 3.54 Roedd ehangu gweithgareddau yn dibynnu hefyd ar adleoli a recriwtio staff ychwanegol ym mhob un o'r ALLau. Cafodd y rhan fwyaf ohonynt anawsterau yn gwneud hyn oherwydd amseru cychwyn y rhaglen ychydig cyn dechrau'r flwyddyn ysgol a'r angen i recriwtio staff newydd nad oedd modd eu recriwtio o gronfeydd staff a oedd yn wynebu colli swydd. Canfu'r rheiny a oedd yn recriwtio cynorthwywyr addysgu dwyieithog fod rhaid iddynt newid eu gofynion hanfodol a chynnig hyfforddiant cymorth addysgu.

4 Allbynnau a deilliannau

- 4.1 Yn y bennod hon, adolygwn yn systematig dystiolaeth o'r allbynnau a'r deilliannau a gyflawnwyd gan y prosiect, gan ddefnyddio adborth gan y dysgwyr a'r staff (o ymatebion i arolygon, cyfweiliadau a grwpiau ffocws), yr astudiaethau achos a oedd yn cynnwys staff cyflwyno yn ogystal â staff eraill mewn ysgolion, y cyfweiliadau â rheolwyr prosiect, y data a gasglwyd gan yr ALLau ac ysgolion, a chanlyniadau arolwg PASS.

Disgyblion

- 4.2 Roedd disgwyl i ddisgyblion y darparwyd cymorth iddynt wella eu sgiliau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg ac i'w galluogi i gyfranogi'n llawn ym mhob gwers pwnc a'r ystod ehangach o weithgareddau ysgol. Roedd disgwyl i rai disgyblion astudio'u hiaith gartref er mwyn iddynt allu ennill cymhwyster i gydnabod eu cymwyseddau (TGAU neu Safon Uwch).

Mesurau o gynnydd

- 4.3 Cafodd yr allbynnau a'r deilliannau canlynol eu mesur ar gyfer adroddiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop:
- Nifer y cyfranogwyr y mae MELAP wedi'u cynorthwyo;
 - Nifer y cymwysterau iaith gartref a gyflawnwyd; a
 - Nifer y deilliannau cadarnhaol a gyflawnwyd (mesurwyd fel gwelliant o un lefel o leiaf yng nghramau cyrhaeddiad iaith Saesneg Llywodraeth Cymru).
- 4.4 Mae Tablau 4.1 i Dabl 4.3⁶⁵ yn dangos beth a gyflawnwyd ym mhob ardal ALL o ran y mesurau hyn yn erbyn y targedau a osodwyd. Cafodd y

⁶⁵ Nodir bod nifer y disgyblion sy'n cael cymorth yn y tablau hyn yn wahanol i'r nifer yn Nhabl 3.2. Mae hyn oherwydd bod y ddau rif yn dod o ffynonellau gwahanol – cymerwyd y niferoedd yn Nhabl 4.1 o gronfa ddata disgyblion timau canolog MELAP (Hydref 2013), a chymerwyd y ffigurau yma o honiad terfynol arweinwyr EMAS ALLau i WEFO o ddeilliannau a gyflawnwyd. Ceir gwahaniaethau am nad yw enwau disgyblion yn cyd-daro yn y ddwy ffynhonnell ddata bob tro. Roedd y data hwn yn cael ei graffu a'i gysoni pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.

targedau eu hailbroffilio ddwy waith o'r targedau gwreiddiol, un waith yn yr Hydref 2011, ac yn derfynol yn yr Hydref 2012. Y rhesymau y tu ôl i'r ymarferiadau ailbroffilio oedd y cytunwyd bod y targedau gwreiddiol (a'r targedau a osodwyd ar ôl yr ymarferiad ailbroffilio cyntaf) yn anghywir ac nad oedd modd eu cyflawni (gweler adran 3.5).

- 4.5 Cyflawnodd pob un o'r ALLau o leiaf 90 y cant o'u targed cyfranogi diwygiedig, ac yn gyffredinol bodlonodd y prosiect ei darged diwygiedig yn llawn. Fe wnaeth rhai ALLau berfformio'n well na'u targed diwygiedig, yn enwedig Merthyr Tudful, lle'r oedd nifer y cyfranogwyr a gynorthwywyd trwy MELAP bron ddwywaith y targed (178 y cant). Methwyd y targed o ychydig gan nifer, yn enwedig Abertawe (94 y cant) a Sir Gaerfyrddin (91 y cant).
- 4.6 At ei gilydd, llwyddodd 487 o ddisgyblion (93 y cant o'r targed) i gyflawni cymhwyster yn yr iaith gartref. Cyflawnwyd y rhain ym mhob un o'r ALLau, er mai yn Abertawe a Chonwy/Sir Ddinbych y cyflawnwyd y mwyaf. Tra bod Merthyr Tudful wedi cyflawni 60 y cant o'i nifer dargedig o gymwysterau yn yr iaith gartref, a bod Abertawe wedi cyflawni 85 y cant o'r targed hwn, mewn ardaloedd eraill cyflawnwyd mwy o gymwysterau yn yr iaith gartref na'r targed (fe wnaeth Castell-nedd Port Talbot, Conwy a Dinbych, a Blaenau Gwent ragori'n sylweddol ar eu targedau).
- 4.7 Ni chyflawnodd y prosiect y targed i 1,128 o ddisgyblion gyflawni gwelliant o un lefel o leiaf mewn gallu yn yr iaith Saesneg, gyda 928 o ddisgyblion yn unig yn cyflawni hyn (82 y cant o'r targed). Eto, roedd rhai gwahaniaethau rhwng ALLau. Yn Abertawe a Merthyr Tudful, cyflawnodd mwy o ddisgyblion ddeiliant cadarnhaol na'r targed iddynt ei gyflawni (119 y cant a 128 y cant yn y drefn honno). Mewn mannau eraill, ni chyflawnwyd y targedau. Cyflawnodd Sir Gaerfyrddin, a Chonwy/Sir Ddinbych lai na hanner eu nifer dargedig o ddeilliannau cadarnhaol (44 y cant a 41 y cant yn y drefn honno.). Nid ddisgwyliwyd y graddau hyn. Pan gafodd arweinwyr prosiect yr ALLau eu cyfweld ynglŷn â'r lefel ddisgwyliedig o ran cyflawni deilliannau cadarnhaol, roedd pob un ohonynt ac eithrio Castell-nedd Port Talbot yn hyderus y byddent yn

cyflawni'r targed hwn. Teimlai'r arweinydd prosiect yng Nghastell-nedd Port Talbot eu bod wedi bod yn rhy uchelgeisiol.

- 4.8 Fe wnaeth pob un o'r awdurdodau ac eithrio Abertawe osod targedau deilliannau cadarnhaol⁶⁶, a oedd ychydig yn is na'u nifer darged o gyfranogwyr ar y rhagdybiaeth y byddai disgwyl i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, dros y cyfnod cyfan neu ran ohono, wella lefel eu Saesneg un lefel o leiaf o gamau cyflawniad SIY Llywodraeth Cymru. O ran deilliannau fesul 100 o gyfranogwyr, mae hyn yn amrywio o 36 yn Abertawe a 41 yn Sir Gaerfyrddin i 72 ym Merthyr Tudful a Cheredigion a 77 ym Mlaenau Gwent; yn gyffredinol, 45 fesul 100 o gyfranogwyr.

⁶⁶ Roedd pob un o'r deilliannau cadarnhaol a gyflawnwyd ar gyfer MELAP yn welliannau o ran cyflawniad SIY.

Tabl 4.1 Nifer y disgyblion a gynorthwywyd drwy MELAP o gymharu â'r targed⁶⁷

	Cyflawnwyd	Targed gwreiddiol	Targed 1af wedi'i ail-broffilio	Targed terfynol wedi'i ail-broffilio	Canran y targed gwreiddiol a gyflawnwyd	Canran y targed 1af wedi'i ail-broffilio a gyflawnwyd	Canran y targed terfynol a gyflawnwyd
Blaenau Gwent	45	230	309	45	20%	15%	100%
Sir Gaerfyrddin	119	0	156	131	-	76%	91%
Ceredigion	138	145	879	143	95%	16%	97%
Conwy	158	108	129	148	146%	122%	107%
Sir Ddinbych							
Merthyr Tudful	142	80	142	80	178%	100%	178%
Castell-nedd Port Talbot	70	200	188	60	35%	15%	117%
Sir Benfro	217	305	221	205	71%	98%	106%
Abertawe	1,174	1,250	1,250	1,250	94%	94%	94%
Cyfanswm	2,063	2,318	3,274	2,062	89%	63%	100%

Ffynhonnell: Gwybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr prosiect ALLau i dîm Canolog MELAP, Hydref 2013

⁶⁷ Nodir bod nifer y disgyblion sy'n cael cymorth yn y tablau hyn yn wahanol i'r nifer yn Nhabl 3.2. Mae hyn oherwydd bod y ddau rif yn dod o ffynonellau gwahanol – cymerwyd y niferoedd yn Nhabl 3.2 o gronfa ddata disgyblion timau canolog MELAP (Hydref 2013), a chymerwyd y ffigurau yma o honiad terfynol arweinwyr EMAS ALLau i WEFO o ddeilliannau a gyflawnwyd. Ceir gwahaniaethau am nad yw enwau disgyblion yn cyd-daro yn y ddwy ffynhonnell ddata bob tro. Roedd y data hwn yn cael ei graffu a'i gysoni pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.

Tabl 4.2 Nifer y disgyblion yn cyflawni cymhwyster iaith gartref drwy MELAP o gymharu â'r targedau

	Cyflawnwyd	Targed gwreiddiol	Targed 1af wedi'i ail-broffilio	Targed terfynol wedi'i ail-broffilio	Canran y targed gwreiddiol a gyflawnwyd	Canran y targed 1af wedi'i ail-broffilio a gyflawnwyd	Canran y targed terfynol a gyflawnwyd
Blaenau Gwent	18	24	78	14	75%	23%	129%
Sir Gaerfyrddin	37	20	49	40	185%	76%	93%
Ceredigion	27	5	48	27	540%	56%	100%
Conwy	88	84	67	68	105%	131%	129%
Sir Ddinbych							
Merthyr Tudful	30	50	30	50	60%	100%	60%
Castell-nedd Port Talbot	20	5	13	13	400%	154%	154%
Sir Benfro	20	30	20	20	67%	100%	100%
Abertawe	247	150	270	290	165%	91%	85%
Cyfanswm	487	368	575	522	132%	85%	93%

Ffynhonnell: Gwybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr prosiect ALLau i dîm Canolog MELAP, Hydref 2013

Tabl 4.3 Nifer y disgyblion yn cyflawni deilliant cadarnhaol drwy MELAP o gymharu â'r targed

	Cyflawnwyd	Targed gwreiddiol	Targed 1af wedi'i ail-broffilio	Targed terfynol wedi'i ail-broffilio	Canran y targed gwreiddiol a gyflawnwyd	Canran y targed 1af wedi'i ail-broffilio a gyflawnwyd	Canran y targed terfynol a gyflawnwyd
Blaenau Gwent	35	207	278	45	75%	23%	78%
Sir Gaerfyrddin	49	0	140	111	185%	76%	44%
Ceredigion	100	131	791	129	540%	56%	78%
Conwy	60	97	116	148	105%	131%	41%
Sir Ddinbych							
Merthyr Tudful	102	72	72	80	60%	100%	128%
Castell-nedd Port Talbot	45	180	169	60	400%	154%	75%
Sir Benfro	110	275	275	195	67%	100%	56%
Abertawe	427	1125	1125	360	165%	91%	119%
Cyfanswm	928	2,086	2,947	1,037	132%	85%	82%

Ffynhonnell: Gwybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr prosiect ALLau i dîm Canolog MELAP, Hydref 2013

- 4.9 Cafodd data'r Cofnod Cyflawniad Disgyblion o saith ALI ei ddefnyddio i asesu'r gwelliant yn yr iaith Saesneg a gyflawnwyd gan ddisgyblion. Dadansoddwyd cofnodion ar gyfer 1,734 o ddisgyblion (89 y cant o gyfanswm nifer y cyfranogwyr) am fod rhai cofnodion lle mai dim ond un lefel SIY a gynhwyswyd, felly nid oedd modd cyfrifo unrhyw newid. Mae'r cam SIY terfynol a gofnodwyd wedi'i gymharu â'r cam SIY cyntaf a gofnodwyd. Mae Tabl 4.4 isod yn dangos y newidiadau yn y cam dysgu SIY ar gyfer disgyblion rhwng dechrau a diwedd MELAP. Mae hyn yn dangos na wnaeth ychydig dros hanner y disgyblion (54 y cant, 940 o ddisgyblion) a oedd yn cael cymorth symud ymlaen gam llawn. O'r disgyblion a symudodd ymlaen o leiaf un cam, fe wnaeth y mwyafrif symud ymlaen un cam (41 y cant o'r holl ddisgyblion, 705 o ddisgyblion), ac fe wnaeth 74 o ddisgyblion symud ymlaen fwy nag un cam (4 y cant). Cofnodwyd bod gan nifer fach o ddisgyblion gam SIY ar ddiwedd MELAP a oedd yn is nag ar y cychwyn (1 y cant, 13 o ddisgyblion).
- 4.10 Wrth gymharu rhwng ardaloedd ALI (gweler Tabl 4.4), gan Flaenau Gwent y mae'r gyfran uchaf o ddysgwyr SIY sy'n gwella un cam o leiaf yn Saesneg (97 y cant), a Chastell-nedd Port Talbot sydd â'r ganran uchaf nesaf o ddysgwyr SIY sy'n gwella'u Saesneg o leiaf un cam (75 y cant). Mae gan y rhan fwyaf o'r ALLau eraill ganran weddol debyg o ddysgwyr SIY sy'n gwella un cam o leiaf yn Saesneg (rhwng 56 y cant a 66 y cant). Gan Abertawe oedd y nifer isaf, gyda 36 y cant o ddysgwyr SIY yn gwella o leiaf un cam. Gallai hyn adlewyrchu ffocws gymharol llai ar gynyddu cymorth unigol a mwy o ffocws ar gynyddu gallu athrawon pwnc yn yr ystafell ddosbarth.
- 4.11 Archwiliwyd nodweddion y disgyblion, i weld a oedd unrhyw batrymau o ran gwelliant yn y Saesneg. Y nodweddion hyn yw rhyw, eu cam cychwynnol o ran gallu SIY, a nifer y blynyddoedd y maent wedi bod yn derbyn cymorth. Mae Tabl 4.5 a Tabl 4.7 yn dangos canlyniadau'r dadansoddiad hwn. Maent yn dangos y canlynol:
- Mae cyfran y benywod sy'n gwella un cam o leiaf o ran gallu SIY ychydig yn uwch nag ar gyfer gwrywod (45 y cant ar gyfer benywod a 42 y cant ar gyfer gwrywod);

- Ymddengys bod cysylltiad rhwng cam cychwynnol iaith SIY a pha un a yw disgybl yn gwella cam o ran gallu SIY. Roedd disgyblion a gafodd eu hasesu ar y cychwyn â gallu SIY ar gam A neu B yn fwy tebygol o wella cam gallu iaith SIY na'r rheiny â lefel gallu cychwynnol uwch ar gam C neu D (fe wnaeth 73 y cant a 74 y cant wella un lefel o leiaf o gam cychwynnol A neu B, o gymharu â 52 y cant a 22 y cant ar gamau C a D yn y drefn honno). Mae hyn yn awgrymu bod ffocws ar roi mwy o gymorth i ddisgyblion â gallu iaith SIY is, er mwyn helpu'r disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm;
- Mae nifer y blynyddoedd y mae disgybl wedi bod yn cael cymorth wedi dylanwadu ar ba un a yw wedi gwella cam o ran gallu SIY. Ar gyfer disgyblion sydd wedi cael blwyddyn o gymorth, roedd 28 y cant wedi gwella eu cam iaith SIY (124 o ddisgyblion), ac nid oedd unrhyw ddisgybl wedi gwella mwy nag un cam. Ar gyfer disgyblion a oedd wedi cael cymorth am ddwy flynedd, fe wnaeth canran y disgyblion yn gwella'u cam iaith SIY gynyddu i 44 y cant (157 o ddisgyblion), gyda phedwar y cant o ddisgyblion yn gwella mwy nag un cam (16 o ddisgyblion). Roedd canran y disgyblion yn gwella eu cam iaith SIY a oedd wedi cael cymorth am dair blynedd yn uwch fyth, gyda 53 y cant o ddisgyblion yn gwella eu cam SIY (466 o ddisgyblion), gyda 6 y cant (54 o ddisgyblion) wedi gwella fwy nag un cam. Byddai'n rhesymol disgwyl po fwyaf y bydd rhywun yn derbyn cymorth, gorau oll fydd ei Saesneg yn gwella.

Tabl 4.4 Dadansoddiad o Newid mewn cam iaith SIY yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol		Newid mewn cam SIY							Cyfanswm
		-3	-2	-1	0	+1	+2	+3	
Blaenau Gwent	Nifer y disgyblion	0	0	0	1	33	1	0	35
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	3%	94%	3%	0%	100%
Conwy	Nifer y disgyblion	0	0	0	31	36	8	0	75
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	41%	48%	11%	0%	100%
Sir Ddinbych	Nifer y disgyblion	0	0	0	34	36	7	1	78
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	44%	46%	9%	1%	100%
Merthyr Tudful	Nifer y disgyblion	0	0	0	78	83	16	2	179
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	44%	46%	9%	1%	100%
Castell-nedd Port Talbot	Nifer y disgyblion	0	0	1	16	37	12	2	68
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	1%	24%	54%	18%	3%	100%
Sir Benfro	Nifer y disgyblion	0	0	0	66	92	5	2	165
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	40%	56%	3%	1%	100%
Abertawe	Nifer y disgyblion	2	0	10	714	388	20	0	1,134
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	1%	63%	34%	2%	0%	100%
Cyfanswm	Nifer y disgyblion	2	0	11	940	705	69	7	1,734
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	1%	54%	41%	4%	0%	100%

Ffynhonnell: Data Cofnod Cyflawniad Disgyblion gan reolwyr prosiect ALLau

Tabl 4.5 Dadansoddiad o newidiadau mewn cam iaith SIY yn ôl rhyw

Rhyw		Newid mewn cam SIY							Cyfanswm
		-3	-2	-1	0	+1	+2	+3	
Gwryw	Nifer y disgyblion	1	0	4	538	351	33	4	931
	<i>Canran y disgyblion</i>	<i>0%</i>	<i>0%</i>	<i>0%</i>	<i>58%</i>	<i>38%</i>	<i>4%</i>	<i>0%</i>	<i>100%</i>
Benyw	Nifer y disgyblion	1	0	7	400	350	36	3	797
	<i>Canran y disgyblion</i>	<i>0%</i>	<i>0%</i>	<i>1%</i>	<i>50%</i>	<i>44%</i>	<i>5%</i>	<i>0%</i>	<i>100%</i>
Cyfanswm	Nifer y disgyblion	2	0	11	938	701	69	7	1,728
	<i>Canran y disgyblion</i>	<i>0%</i>	<i>0%</i>	<i>1%</i>	<i>54%</i>	<i>41%</i>	<i>4%</i>	<i>0%</i>	<i>100%</i>

Ffynhonnell: Data Cofnod Cyflawniad Disgyblion gan reolwyr prosiect ALLau. Mae'r cyfansymiau yn wahanol i Dabl 4.4 gan fod gwybodaeth am ryw yn eisiau ar gyfer rhai disgyblion

Tabl 4.6 Dadansoddiad o newidiadau mewn cam iaith SIY yn ôl cam SIY pan ddechreuodd cymorth MELAP

Cam SIY cychwynnol		Newid mewn cam SIY							Cyfanswm
		-3	-2	-1	0	+1	+2	+3	
Cam A SIY	Nifer y disgyblion	0	0	0	48	88	38	5	179
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	27%	49%	21%	3%	100%
Cam B SIY	Nifer y disgyblion	0	0	1	69	173	22	2	267
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	26%	65%	8%	1%	100%
Cam C SIY	Nifer y disgyblion	0	0	2	308	324	9	0	643
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	0%	48%	50%	1%	0%	100%
Cam D SIY	Nifer y disgyblion	1	0	7	415	120	0	0	543
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	1%	76%	22%	0%	0%	100%
Cam E SIY	Nifer y disgyblion	1	0	1	100	0	0	0	102
	<i>Canran y disgyblion</i>	1%	0%	1%	98%	0%	0%	0%	100%
Cyfanswm	Nifer y disgyblion	2	0	11	940	705	69	7	1,734
	<i>Canran y disgyblion</i>	0%	0%	1%	54%	41%	4%	0%	100%

Ffynhonnell: Data Cofnod Cyflawniad Disgyblion gan reolwyr prosiect ALLau.

Tabl 4.7 Dadansoddiad o newidiadau mewn cam iaith SIY yn ôl nifer y blynyddoedd o gymorth


Blynyddoedd o gymorth a gafwyd		Newid mewn cam SIY							Cyfanswm
		-3	-2	-1	0	+1	+2	+3	
Un flwyddyn	Nifer y disgyblion	0	0	5	321	119	5	0	450
	Canran y disgyblion	0%	0%	1%	71%	26%	1%	0%	100%
Dwy flynedd	Nifer y disgyblion	1	0	1	202	141	14	2	361
	Canran y disgyblion	0%	0%	0%	56%	39%	4%	1%	100%
Tair blynedd	Nifer y disgyblion	1	0	5	416	412	49	5	888
	Canran y disgyblion	0%	0%	1%	47%	46%	6%	1%	100%
Cyfanswm	Nifer y disgyblion	2	0	11	939	672	68	7	1,699
	Canran y disgyblion	0%	0%	1%	55%	40%	4%	0%	100%

Ffynhonnell: Data Cofnod Cyflawniad Disgyblion gan reolwyr prosiect ALLau. Mae'r cyfansymiau yn wahanol i Dabl 4.4 gan fod gwybodaeth am nifer y blynyddoedd o gymorth ar goll ar gyfer rhai disgyblion

Adborth disgyblion

- 4.12 Mae'r canlyniadau o'r arolwg dysgwyr yn awgrymu bod disgyblion eu hunain o'r farn yn gyffredinol fod y cymorth y maent wedi'i gael wedi cael effaith. Credai'r rhan fwyaf ohonynt fod y cymorth wedi'u helpu i wella eu gallu yn y Saesneg (82 y cant), a'i fod wedi'u helpu i ddeall eu hathrawon (74 y cant) a chyflawni canlyniadau gwell yn y dosbarth (76 y cant).
- 4.13 Mae Ffigur 4.1 hefyd yn dangos effeithiau eraill y cymorth a gafwyd yn yr ysgol, ym marn y disgyblion. Heblaw am wella eu dealltwriaeth yn yr ystafell ddosbarth, dywedodd bron i ddwy ran o dair o ymatebwyr eu bod o'r farn fod y cymorth a gânt wedi'u helpu i feithrin eu hyder i siarad â phobl y tu allan i'r ysgol (63 y cant) a chwblhau eu gwaith cartref (62 y cant). Mae cyfrannau mwy yn adrodd hefyd ei fod wedi helpu eu rhieni, eu gallu i gyfranogi mewn gweithgareddau eraill a'u presenoldeb.

Ffigur 4.1 Barnau disgyblion am effaith y cymorth



Ffynhonnell: Arolwg disgyblion MELAP; Sylfaen 466 Haf 2013. Dywedwch a ydych yn cytuno â'r datganiadau isod: (Dewiswch un ateb ym mhob rhes). Cwestiwn ymateb lluosog yw hwn.

4.14 Mae gwahaniaeth mawr rhwng yr ymatebion ynglŷn ag effaith y cymorth gan ddibynnu ar a adroddodd disgybl fod ei allu yn y Saesneg wedi gwella. Roedd disgyblion yn fwy tebygol o lawer o gytuno â'r effeithiau sy'n weddill os wnaethant adrodd am welliant o ran gallu yn y Saesneg. Y gwahaniaeth mwyaf nodedig oedd ar gyfer cyflawni canlyniadau gwell mewn gwersi, lle dywedodd 86 y cant o'r rheiny a oedd wedi gwella eu Saesneg fod y cymorth wedi'u helpu cyflawni canlyniadau gwell yn y dosbarth, er dim ond 33 y cant o'r rheiny nad adroddodd am welliant yn y Saesneg oedd o'r farn fod y cymorth wedi'u helpu cyflawni canlyniadau gwell yn y dosbarth.

4.15 Atgyfnerthir y canfyddiadau hyn gan gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Dywedodd rhan fwyaf y disgyblion fod y cymorth a gawsant wedi'u helpu i wella'u gallu yn yr iaith Saesneg a'u cyflawniad yn y dosbarth.

“(Pan) ddes i i Gymru gyntaf ac i'r ysgol hon, treuliais dri diwrnod mewn dosbarthiadau arferol. Nid oeddwn i'n deall dim a dweud y gwir. Roeddwn i wedi drysu. Yna, fe ddes i yma ar ôl tridiau a chael gwersi yma'n unig. Roedd yn dda, dysgais Saesneg. Mae'n iawn nawr pan fyddai'n mynd i ddosbarthiadau. Rwy'n deall.”

“Bydd y gweithiwr cymorth SIY yn dod i mewn i'r dosbarth gyda mi weithiau. Rwy'n (ei) hoffi. Mae'n egluro beth yw'r wers i mi, ac efallai os nad wyf yn deall rhywbeth gallaf ofyn (iddo/iddi), a bydd yn fy helpu gyda'm gwaith cartref.”

“Roeddwn yn arfer bod ar waelod y dosbarth ond bellach rwyf uwchlaw'r cyfartaledd.”


4.16 Cafodd dau riant eu cyfweld fel rhan o'r gwaith maes. Fe wnaethant gadarnhau bod yr ysgol wedi'u helpu, a'u bod wedi cael llythyrau o'r ysgol wedi'u cyfieithu i'w hiaith gartref a bod gwasanaeth cyfieithu wedi'i ddarparu yn y noson rieni. Roedd y rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth, nid yn unig am y cymorth iaith, ond hefyd am fod y system addysg yn wahanol i'r system yr oeddent yn arfer â hi yn eu mamwlad.

“Mae'r system addysg yn wahanol yma – os oes gennyf ddealltwriaeth o hynny yna gallaf roi mwy o gymorth (i'm plentyn) gartref.”

4.17 Mae Ffigur 4.2 yn dangos bod 83 y cant wedi adrodd eu bod yn gallu deall eu hathrawon dosbarth a bod 84 y cant yn teimlo bod y cymorth yr oeddent wedi'i gael yn y dosbarth ar lefel iawn. Yr ymateb mwyaf cyffredin gan ddisgyblion a deimlai bod angen mwy o help arnynt oedd y byddent yn hoffi cael cymorth yn y

dosbarth. Teimlai llai bod angen mwy o help arnynt i gwblhau eu gwaith cartref neu ymuno â gweithgareddau ar ôl ysgol.

Ffigur 4.2 Barnau disgyblion am lefel y cymorth a gânt



Ffynhonnell: Arolwg disgyblion MELAP, sylfaen 466, Haf 2013. Cwestiwn: A wnewch chi ddewis un ateb ym mhob rhes? a. A ydych chi'n cael y lefel iawn o help i ddeall eich gwersi? b. A oes angen mwy o help arnoch yn yr ysgol i'ch helpu i wneud eich gwaith cartref? c. A oes angen mwy o help arnoch yn yr ysgol i ymuno â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol? ch. A ydych chi'n falch eich bod yn gallu sefyll arholiad yn eich iaith gartref yn yr ysgol? d. A allwch chi ddeall eich athrawon dosbarth? dd. A oes angen mwy o help arnoch i ddeall eich gwersi? Cwestiwn ymateb lluosog yw hwn.

4.18 Caiff y canfyddiadau hyn eu hatgyfnerthu gan y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Roedd mwyafrif disgyblion yn gwerthfawrogi'r help a gawsant, ac o'r farn fod y lefel cymorth a gawsant yn iawn.

Ydyn, (mae'r staff cymorth SIY) o gymorth mawr. Weithiau byddant yn dod i'm dosbarth ac yn fy helpu i. Nid wyf eisiau iddynt newid unrhyw beth."
"Roedd yn braf cael help."

4.19 Fodd bynnag, nid oedd nifer fach iawn o'r disgyblion yn hoffi'r cymorth a gawsant, a themlent nad oeddent eisiau cymorth. Ond lleiafrif oedd y disgyblion hyn, a'r rhan o'r rheswm nad oeddent yn hoffi'r cymorth oedd ei fod yn tynnu sylw oddi wrth ddisgyblion eraill:

"Nid wyf yn hoffi eu cael yno o hyd. Nid wyf yn meddwl bod eu hangen nhw arna' i. Nid babi ydw i. A hefyd, os oes gen i broblem, gallaf ofyn i'm ffrindiau."

"Cefais syndod mawr un diwrnod pan es i i'r dosbarth ac roedd (y Cynorthwyydd Addysgu) yno, gan nad ydw i'n meddwl bod angen ei help arna' i. Rwy'n credu y bydd plant eraill yn holi pam ydw i'n cael cymorth, ac nid y nhw. Dwi ddim yn hoffi hynny. Gallen nhw fod yn genfigennus. Mae'n well gen i siarad gyda fy ffrindiau yn y dosbarth a gofyn iddyn nhw, ac yna gallaf ddysgu Saesneg a fy ngwers hefyd."

4.20 Credai'r athrawon ysgol y siaradwyd â nhw yn yr astudiaethau achos fod y gefnogaeth a'r cymorth yn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth a ddarparwyd i ddysgwyr SIY, a'r adnoddau addysgu a ddarparwyd ganddynt, yn gymorth mawr.

"Mae cymorth SIY yn bendant o gymorth i'r rheiny y mae ei angen arnynt. Weithiau gall eu helpu i ddilyn gwrs - i wneud yn siŵr eu bod yn deall."

"... Rhyddhad llwyr, mae'n hanfodol, ac ni allaf ddiystyru pa mor dda ydyw i gael help i'r disgyblion SIY yn y dosbarth." "Rwy'n credu bod y tîm SIY a'r gwasanaeth a gynigiant yn rhyfeddol."

4.21 Roedd athrawon pwnc mewn tair o'r ardaloedd yn ymwybodol bod staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig wedi sicrhau bod dysgwyr SIY yn y set gywir ar gyfer eu gallu. Nid oedd yr athrawon a gyfwelwyd yn ymwybodol yn gyffredinol o'r gefnogaeth a'r cymorth arall a ddarparwyd y tu allan i wasanaethau ychwanegol yn y dosbarth yr oedd tîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn eu darparu, fel cymwysterau iaith gartref,

grwpiau astudio ar ôl ysgol, cyngor ar yrfaeodd neu helpu gyda chysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol.

Agweddau disgyblion

- 4.22 Mae canlyniadau'r arolygon PASS a gwblhawyd gan rhwng 1,135 a 1,276⁶⁸ o'r disgyblion MELAP yn cael eu cyflwyno yn Nhabl 4.8 a Thabl 4.9. Mae Tabl 4.8 yn dangos sgôr gyfartalog pob un o'r cyfranogwyr a gymerodd rhan ym mhob cam, tra bod Tabl 4.9 yn dangos nifer y fflagiau a roddwyd i'r holl gyfranogwyr. Mae Tabl 4.10 a Thabl 4.11 yn dangos yr un wybodaeth â Thabl 4.8 a Thabl 4.9 yn y drefn honno, ac eithrio eu bod yn dangos y canlyniadau ar gyfer y 390 o gyfranogwyr (20 y cant o gyfanswm y disgyblion a gafodd gymorth drwy MELAP) a gymerodd ran ym mhob un o'r pedwar cam.
- 4.23 Mae Tabl 4.8 yn dangos, ers Hydref 2011, y bu gwelliant mewn chwech o'r nawr maes pwnc sy'n cael eu cipio gan PASS ar gyfer pob disgybl, yn enwedig teimladau ynglŷn â'r ysgol, hunan-barch, bod yn barod i ddysgu a moeseg waith gyffredinol, ond heb unrhyw newid i agweddau at athrawon a phresenoldeb. Digwyddodd y gwelliant yn bennaf rhwng Hydref 2011 a Haf 2012, ac mae wedi'i gynnal dros y ddau dymor canlynol, er i sgorau cyfartalog ostwng ychydig yn Haf 2013⁶⁹. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y sgôr gyfartalog ar gyfer hyder dysgwyr, eto gyda'r newid mwyaf yn digwydd rhwng Hydref 2011 a Haf 2012. Roedd hwn yn ostyngiad a berodd syndod braidd, gan yr oedd y dystiolaeth o'r arolygon disgyblion a staff a chyfweliadau gyda disgyblion a staff yn dynodi y bu gwelliant yn hyder y disgyblion.
- 4.24 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu i raddau helaeth yn nata'r disgyblion hynny sydd wedi cymryd rhan ym mhob un o'r pedwar cam (Tabl 4.10 a Thabl 4.11).

⁶⁸ Mae hyn yn cynrychioli 58 y cant i 66 y cant o gyfanswm nifer y disgyblion a gynorthwywyd gan MELAP. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r disgyblion wedi bod yn yr ysgol ac yn cael cymorth ym mhob un o'r blynyddoedd. Er enghraifft, bydd rhai disgyblion a gynorthwywyd ar ddechrau'r prosiect wedi gadael yr ysgol cyn diwedd y prosiect, ac ni fydd disgyblion eraill a gynorthwywyd ar ddiwedd y prosiect wedi derbyn cymorth yn yr hydref 2011, gan na fyddent yn yr ysgol uwchradd eto.

⁶⁹ Nid oedd data PASS yn rhoi lefel ddigon manwl i archwilio unrhyw batrwm yn y gostyngiad mewn sgorau yn y tymor olaf.

- 4.25 Drwy arsylwi nifer y disgyblion â fflagiau coch neu ambr⁷⁰ ym mhob categori, gellir nodi'r plant y mae eu hymatebion yn peri pryder. Mae'r tueddiadau yn nifer y fflagiau a roddwyd ychydig yn wahanol i dueddiadau'r sgôr gyfartalog. Er bod rhai o'r newidiadau yn nifer y fflagiau yn fach, ac y gellid eu hesbonio gan newidiadau mewn maint samplau, mae nifer y fflagiau coch ac ambr wedi gostwng yn nodedig. Y maes pwnc â'r gostyngiad uchaf yw 'ymatebion i'r cwricwlwm' gyda gostyngiad o 185 o fflagiau coch a 223 o fflagiau ambr rhwng hydref 2011 a gwanwyn 2013. Meysydd eraill â gostyngiadau uchel yn nifer y fflagiau coch ac ambr oedd 'hunan-barch' a 'moeseg waith gyffredinol'. Mae'r canfyddiadau ar gyfer gwelliannau mewn 'ymatebion i'r cwricwlwm' yn cael eu hatgyfnerthu gan ganfyddiadau o gyfweiliadau gyda disgyblion, staff a'r arolwg disgyblion. Soniodd athrawon pwnc a staff cymorth am y modd yr oedd cyflawniad disgyblion gwahanol yn y dosbarth wedi gwella, ac mae canfyddiadau o'r arolwg disgyblion yn dangos bod disgyblion yn gallu deall eu hathrawon yn well ac yn cyflawni canlyniadau gwell yn y dosbarth (gweler Ffigur 4.1)
- 4.26 Wrth archwilio canlyniadau disgyblion a gymerodd ran ym mhob cam (390 o ddisgyblion), mae llawer llai o amrywio yn y canlyniadau. Er bod nifer y fflagiau coch wedi cynyddu mewn pum categori, mewn tri chategori cynnydd o ddau ddisgybl neu lai yw hyn. Hefyd, bu gostyngiad yn nifer y fflagiau ambr mewn saith o'r naw categori. Bu gostyngiadau sylweddol yn nifer y fflagiau yn y categorïau hunanbarch, moeseg waith gyffredinol ac ymatebion i'r cwricwlwm.
- 4.27 At ei gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod y cymorth y mae disgyblion wedi'i gael drwy MELAP wedi cyfrannu at eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y dosbarth ac i gyfranogi mewn dysgu.

⁷⁰ Caiff fflag goch ei rhoi pan fydd dysgwr yn cael sgôr islaw pump y cant ar gyfer categori, a chaiff fflag ambr ei rhoi pan fydd dysgwr yn cael sgôr o rhwng pump a 10 y cant. Mae'r ddwy fflag yn ddangosyddion o ddisgybl sy'n cael anhawster mewn categori penodol.

Tabl 4.8 Cyfanswm canlyniadau arolwg PASS, sgorau cyfartalog⁷¹

	Hydref 2011	Haf 2012		Gwanwyn 2013		Haf 2013	
	Sgôr gyfartalog	Sgôr gyfartalog	Newid canran	Sgôr gyfartalog	Newid canran	Sgôr gyfartalog	Newid canran
Teimladau ynglŷn â'r ysgol	55.4	64.9	17%	66.5	2%	62.8	-6%
Galluoedd Dysgu Canfyddedig	57.1	61.6	8%	62.8	2%	60.1	-4%
Hunanbarch	40.0	62.1	55%	63.8	3%	61.1	-4%
Parodrwydd i Ddysgu	58.1	67.1	15%	68.4	2%	66.1	-3%
Agweddau at athrawon	70.6	67.9	-4%	69.9	3%	66.4	-5%
Moeseg Waith Gyffredinol	52.9	62.8	19%	63.2	1%	63.0	0%
Hyder Dysgwyr	75.3	65.5	-13%	66.6	2%	63.5	-5%
Agweddau at bresenoldeb	65.7	67.4	3%	69.1	3%	64.9	-6%
Ymatebion i'r cwricwlwm	33.2	61.0	84%	63.8	5%	60.7	-5%

Ffynhonnell: Data PASS, sylfaen 1,135 Hydref 2011; 1,219 Haf 2012; 1,182 Gwanwyn 2013, 1,276 Haf 2013

⁷¹ Mae'r sgôr ar gyfer pob categori yn rif rhwng 0 a 100, a 100 yw'r sgôr uchaf. Y sgôr gyfartalog yw sgôr gymedrig yr holl ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr arolwg yn ystod y cam.

Tabl 4.9 Cyfanswm canlyniadau PASS, nifer y fflagiau a gyhoeddwyd

	Hydref 2011		Haf 2012				Gwanwyn 2013				Haf 2013			
	Fflagiau coch	Fflagiau ambr	Fflagiau coch	Newid	Fflagiau ambr	Newid	Fflagiau coch	Newid	Fflagiau ambr	Newid	Fflagiau coch	Newid	Fflagiau ambr	Newid
Teimladau ynglŷn â'r ysgol	13	122	24	85%	103	-16%	23	-4%	108	5%	35	52%	132	22%
Galluoedd Dysgu Canfyddedig	10	113	29	190%	101	-11%	23	-21%	106	5%	25	9%	130	23%
Hunanbarch	94	292	28	-70%	95	-67%	35	25%	77	-19%	48	37%	96	25%
Parodrwydd i Ddysgu	11	89	25	127%	70	-21%	15	-40%	79	13%	19	27%	103	30%
Agweddau at athrawon	14	49	18	29%	71	45%	15	-17%	62	-13%	23	53%	84	35%
Moeseg Waith Gyffredinol	54	154	16	-70%	98	-36%	15	-6%	107	9%	22	47%	108	1%
Hyder Dysgwyr	9	28	17	89%	79	182%	16	-6%	73	-8%	20	25%	105	44%
Agweddau at bresenoldeb	12	80	17	42%	81	1%	21	24%	80	-1%	24	14%	121	51%
Ymatebion i'r cwricwlwm	228	378	32	-86%	139	-63%	33	3%	112	-19%	43	30%	155	38%

Ffynhonnell: Data PASS, sylfaen 1,135 Hydref 2011; 1,219 Haf 2012; 1,182 Gwanwyn 2013, 1,276 Haf 2013

Tabl 4.10 Disgyblion yn cymryd rhan ym mhob cam o arolwg PASS, sgorau cyfartalog

	Hydref 2011	Haf 2012		Gwanwyn 2013		Haf 2013	
	Sgôr gyfartalog	Sgôr gyfartalog	Newid canran	Sgôr gyfartalog	Newid canran	Sgôr gyfartalog	Newid canran
Teimladau ynglŷn â'r ysgol	54.3	67.0	23%	66.9	0%	63.3	-5%
Galluoedd Dysgu Canfyddedig	56.2	64.2	14%	65.0	1%	62.1	-4%
Hunanbarch	39.6	65.0	64%	66.4	2%	65.3	-2%
Parodrwydd i Ddysgu	57.0	69.0	21%	70.9	3%	67.5	-5%
Agweddau at athrawon	69.0	66.1	-4%	69.5	5%	66.0	-5%
Moeseg Waith Gyffredinol	52.6	66.6	27%	65.0	-2%	65.7	1%
Hyder Dysgwyr	76.1	65.8	-14%	67.2	2%	64.4	-4%
Agweddau at bresenoldeb	66.2	69.8	5%	70.7	1%	66.9	-5%
Ymatebion i'r cwricwlwm	33.3	63.3	90%	67.3	6%	65.8	-2%

Ffynhonnell: Data PASS, sylfaen 390, Hydref 2011 - Haf 2013

Tabl 4.11 Disgyblion yn cymryd rhan ym mhob cam o arolwg PASS, nifer y fflagiau a gyhoeddwyd

	Hydref 2011		Haf 2012				Gwanwyn 2013				Haf 2013			
	Fflagiau coch	Fflagiau ambr	Fflagiau coch	Newid	Fflagiau ambr	Newid	Fflagiau coch	Newid	Fflagiau ambr	Newid	Fflagiau coch	Newid	Fflagiau ambr	Newid
Teimladau ynglŷn â'r ysgol	3	44	7	133%	29	-34%	6	-14%	34	17%	8	33%	39	15%
Galluoedd Dysgu Canfyddedig	2	40	5	150%	24	-40%	8	60%	24	0%	7	-13%	27	13%
Hunanbarch	23	102	7	-70%	23	-77%	10	43%	19	-17%	10	0%	22	16%
Parodrwydd i Ddysgu	2	28	6	200%	12	-57%	4	-33%	28	133%	3	-25%	23	-18%
Agweddau at athrawon	5	18	8	60%	26	44%	5	-38%	18	-31%	7	40%	26	44%
Moeseg Waith Gyffredinol	20	56	3	-85%	23	-59%	6	100%	33	43%	5	-17%	31	-6%
Hyder Dysgwyr	4	6	7	75%	28	367%	6	-14%	18	-36%	4	-33%	32	78%
Agweddau at bresenoldeb	4	29	6	50%	21	-28%	7	17%	20	-5%	6	-14%	26	30%
Ymatebion i'r cwricwlwm	61	145	8	-87%	45	-69%	10	25%	28	-38%	6	-40%	36	29%

Ffynhonnell: Data PASS, sylfaen 390, Hydref 2011 - Haf 2013

Ysgolion a'u staff

4.28 Roedd disgwyl i staff addysgu mewn ysgolion allu gwella eu gallu i addysgu disgyblion ag anghenion SIY a galluogi'r cyfryw ddisgyblion i gyfranogi mewn dysgu ffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol. Roedd disgwyl i ysgolion yn gyffredinol allu elwa o gymorth dwysach i ddisgyblion ag anghenion SIY i sicrhau eu bod yn gallu datblygu eu gallu, a meddu ar weithlu â mwy o allu i integreiddio'r cyfryw ddisgyblion a byrhau/lleihau'r cymorth sydd ei angen.

Staff addysgu mewn ysgolion

4.29 Roedd y rhan fwyaf o athrawon a gafodd hyfforddiant wedi'i gael fel rhan o ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd. Darparwyd hyn naill ai gan arweinydd Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr ALI, athrawon SIY, neu gyfuniad o'r ddau. Mewn un o'r sesiynau hyfforddi hyn, cyflwynodd cynorthwyydd addysgu dwyieithog wers mewn Tagalog⁷², i ddangos i'r athrawon sut deimlad yw hi i beidio â deall yr hyn a ddywedir wrthynt. Dywedodd yr athrawon yn y sesiynau hyfforddi hyn fod hyn wedi gwneud iddynt feddwl am sefyllfa dysgwyr SIY yn eu dosbarth. Yn gyffredinol, roedd athrawon o'r farn fod yr hyfforddiant yn ddiddorol a defnyddiol, yn enwedig rhywfaint o'r wybodaeth a sut i addysgu dysgwyr SIY. Fodd bynnag, teimla'r rhan fwyaf ohonynt nad oedd yn ddigonol i gael llawer o effaith ar eu hymarfer. Dywedont mai'r rheswm am hyn yw na fyddai gan bob athro ddysgwyr SIY yn eu dosbarthiadau i roi unrhyw beth ar waith yn syth ar ôl yr hyfforddiant, nid oedd unrhyw weithgarwch dilynol na datblygiad i'r ymarfer, roedd un sesiwn hyfforddi fel rhan o ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd yn annigonol i allu rhoi sylw ddigon manwl i'r holl strategaethau addysgu y gellid eu defnyddio i addysgu dysgwyr SIY.

“Rhoddodd (yr athro SIY) gyflwyniad diwrnod hyfforddiant mewn swydd i ni ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd wedi llunio pecyn “beth allem ni wneud” pe bai gennym ddisgyblion SIY. Wyddoch chi, stwff a oedd yn ymarferol ac yn hawdd i'w ymgorffori yn yr addysgu, fel: defnyddio lluniau pan fyddwch chi'n addysgu, ei esbonio ar y bwrdd du, wynebu'r dosbarth pan fyddwch

⁷² Iaith frodorol Ynysoedd Philippines yw Tagalog

chi'n siarad. Mae hyn i gyd yn ddefnyddiol ac rwyf wedi newid fy nosbarth addysgu. A dweud y gwir, rwy'n credu ei fod yn fuddiol i bob myfyriwr."

"Roedd yn dda ond ni roddwyd enghreifftiau/offer ymarferol. Mae angen offer ymarferol (arnom) y gallwn eu defnyddio ar unwaith."

"Nid oes angen i ni wybod y gwaith theori; mae angen strategaethau arnom y gallwn eu defnyddio ar unwaith".

"Mae athrawon yn cael llawer o hyfforddiant ynglŷn â llawer o bethau. Nid oes amser gennym i'w ystyried bob amser. Rydych chi'n rhoi sylw i'r hyn sy'n ddefnyddiol i chi ar y pryd, ond ydych chi?"

- 4.30 O ran yr athrawon a oedd wedi cymryd rhan yn rhaglen hyfforddiant ac anogaeth Abertawe, adroddodd pob un ohonynt fod hyn wedi cael effeithiau cadarnhaol ar eu hymarfer addysgu: sut maent yn esbonio, y geiriau maent yn eu defnyddio, a chaniatáu i ddisgyblion siarad yn eu hiaith eu hunain, er enghraifft. Adrodda athrawon eu bod *'yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â dysgwyr SIY yn y dosbarth yn well erbyn hyn,'* ac erbyn hyn *'nid ydynt yn meddwl y bydd cael dysgwyr SIY yn y dosbarth yn arwain at lwyth o waith ychwanegol'.* Gwnaed adroddiad am yr holiaduron a lenwyd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant i ddangos bod mwy o hyder gan yr athrawon yn eu gallu i addysgu dysgwyr SIY a bod ganddynt berthynas well gyda staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig.

"O'r blaen, roedd yn ymddangos yn faich [cael disgyblion SIY yn y dosbarth] ond nid yw'n codi ofn arnai mwyach; rydych chi'n teimlo'n fwy hyderus yn eich gallu addysgu."

"Roeddwn i'n arfer meddwl na ddylai [disgyblion SIY] siarad eu hiaith gartref. Mae fy agwedd wedi newid ac erbyn hyn credaf ei bod yn bwysig cael yr iaith gartref ochr yn ochr â'r Saesneg. Mae angen i athrawon symud i ffwrdd o'r meddylfryd mai dosbarthiadau tawel yw'r unig rai effeithiol gan nad yw hynny'n galluogi disgyblion SIY i gyfathrebu, ac mae hynny'n allweddol ar gyfer magu hyder"

Ysgolion â chefnogaeth a chymorth y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig

- 4.31 Credai'r staff addysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion fod yr hyfforddiant, ochr yn ochr â'r cynnydd yn nifer y staff cymorth SIY a gyflwynwyd yn yr ysgol, wedi helpu codi proffil gwasanaethau SIY ac anghenion disgyblion SIY ymhlith staff.

Roeddent yn fwy tebygol erbyn hyn o ofyn am help pan roedd ganddynt broblem â dysgwyr SIY, ac roeddent yn gwybod â phwy yr oedd yn rhaid iddynt siarad ynglŷn ag anghenion SIY.

‘Mae gennyf ddealltwriaeth well o beth mae tîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn ei wneud a’r gwerth ychwanegol y maent yn ei ddarparu’.

- 4.32 Roedd barnau’r rheolwyr ysgol ynglŷn â’r ddarpariaeth ychwanegol gan gyllid MELAP yn gadarnhaol. Roedd eu ffocws pennaf ar gyflawniad disgyblion ac integreiddio disgyblion yn eu hysgol, a theimlent fod hyn wedi gwella er 2010.

“Rydym yn bendant yn gwerthfawrogi’r cymorth a roddodd y tîm SIY i ni. Mae gennym 20 i 25 o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn bendant – ac ni fyddai’r staff eraill yn gallu ymdopi nac addysgu’n effeithiol heb y capasiti ychwanegol.”

“Dros y blynyddoedd, rwyf wir yn meddwl fod y disgyblion o Wlad Pwyl a’r disgyblion o Gymru wedi mynd yn llai clicaid dros y flwyddyn. Mae’r disgyblion o Wlad Pwyl yn teimlo’n hapusach, yn hapus i wthio eu hunain y tu allan i’w man diogel”

- 4.33 Fel rhan o unrhyw arolygiad gan Estyn, mae ysgolion yn cael eu hasesu o ran eu gallu i ddarparu ar gyfer anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu SIY. Fodd bynnag, ni sonnir am hyn bob tro yn adroddiadau Estyn.

- 4.34 Ni wnaeth adroddiadau diweddar gan Estyn o ysgolion lle caiff gweithgareddau eu darparu drwy MELAP ganfod unrhyw sylwadau negyddol ynglŷn â’r modd y darperir ar gyfer disgyblion SIY yn unrhyw un o’r ysgolion, na sut y methodd ysgolion â darparu ar gyfer anghenion pob disgybl. Dangosir rhai o’r dyfyniadau o adroddiadau Estyn isod:

- 4.35 Ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot:

‘Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag amrywiaeth fawr o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion unigol disgyblion. Mae cysylltiadau agos â’r gwasanaeth cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig yn sicrhau nodi disgyblion yn gynnar, trosglwyddo gwybodaeth yn briodol a darpariaeth wedi’i thargedu’n dda ar gyfer disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol’.

4.36 Ysgol ym Merthyr Tudful:

‘Mae cynnydd disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn cael ei fonitro’n ofalus’.

4.37 Ysgol yn Sir Ddinbych:

‘Mae cyfran uchel o ddisgyblion (12 y cant) yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae 15 o ddisgyblion yn yr ysgol o wledydd gwahanol heblaw am Brydain’ ac ‘Mae disgyblion sy’n newydd i’r ysgol, gan gynnwys y rhai sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn ymgartrefu’n dda.’

4.38 Ysgol yn Sir Gaerfyrddin:

‘Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol iawn i gefnogi disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol’ ac ‘Mae’r trefniadau i gefnogi disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn arloesol, ac maent wedi dylanwadu ar arfer mewn ysgolion lleol eraill. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni canlyniadau eithriadol.’

4.39 Ysgol yng Ngheredigion:

‘Mae disgyblion y mae angen cymorth arnynt gyda Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael cymorth arbenigol o ansawdd da.’

4.40 Ysgol yn Abertawe:

‘Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig y rhai sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae’r gweithdrefnau ar gyfer nodi anghenion disgyblion, eu cefnogi’n dda trwy ddarpariaeth brif ffrwd gynhwysol, a monitro eu cynnydd, yn cyfrannu’n sylweddol at y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion hyn,’ ac ‘Mae cynorthwyyr addysgu yn darparu cymorth da, yn enwedig i’r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.’


Staff cyflwyno a thimau ALLau

4.41 Roedd disgwyl i staff yn nhimau’r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig fod wedi ehangu a datblygu eu gwasanaethau, a datblygu eu gallu i ddiwallu anghenion disgyblion SIY.

Staff cyflwyno

4.42 Roedd y staff cyflwyno yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag effeithiau'r cymorth yr oeddent yn ei ddarparu, yn yr arolwg ac mewn cyfweiliadau (gweler Ffigur 4.3). Roedd bron pob un o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno bod y cymorth a ddarparwyd ganddynt wedi helpu disgyblion i gyflawni'u potensial yn eu dosbarthiadau, wedi helpu disgyblion i gyflymu o ran dysgu Saesneg, ac wedi cynyddu cyfleoedd disgyblion i fynd i mewn i gyflogaeth yn y dyfodol. Teimlai llawer o'r staff cyflwyno hefyd fod y gweithgareddau y maent yn eu cyflwyno wedi helpu gwella gwybodaeth athrawon ysgolion uwchradd am SIY.

Ffigur 4.3 Effaith gweithgareddau ar ddisgyblion yr adroddwyd amdanynt gan staff cyflwyno



Ffynhonnell: Arolwg o staff cyflwyno MELAP; Sylfaen=51, Haf 2013. Ar gyfer pob un o'r datganiadau canlynol, nodwch i ba raddau y gwelwch effaith eich gwaith gyda disgyblion SIY. (Dewiswch un ymateb ym mhob rhes)

4.43 Mae'r canlyniadau o'r arolwg yn cael eu cadarnhau gan yr ymatebion a roddwyd gan staff cyflwyno yn yr astudiaethau achos, yn enwedig o ran dysgu Saesneg a chyflawniad yn y dosbarth.

“At ei gilydd, credaf ein bod yn galluogi (disgyblion) i integreiddio a chyflawni pethau yn yr ysgol. Heb ein cymorth y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ni fydd y newydd-ddyfodiaid yn gallu ymdopi.”

“Ar y cychwyn roeddem yn cael ein gweld fel pobl a oedd yn cynorthwyo'r disgyblion, ond rydym yn cael ein gweld mwy a mwy fel cymorth i athrawon, yn gallu awgrymu a darparu mewnbwn ar gyfer gwersi.”

“Rwyf wir yn gallu gweld ei fod yn dod yn ei flaen. Mae'n llawer mwy hyderus gyda'i siarad o gymharu ag fel ydoedd ym mis Medi.”

“Mae un (disgybl) wedi dod yn ei flaen gymaint. Cynnydd fesul dipyn ydyw. Rwy'n cofio safon eu gwaith cyn y cymorth (cael eu cymryd allan o'r dosbarth ar gyfer cymorth Saesneg) ac erbyn hyn mae eu gwaith mewn dosbarthiadau eraill wedi gwella'n sylweddol.”

4.44 Credai cynorthwywyr addysgu dwyieithog fod cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol yn gwella o ganlyniad i gyfieithu llythyrau a dehongli i rieni, a chael staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig mewn nosweithiau rhieni. Mae'r ymateb i'r arolwg ar gysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni yn is na'r rhan fwyaf o effeithiau eraill, serch hynny.

4.45 Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r staff ym mhob ardal ddisgrifio perthynas well gyda staff addysgu ysgolion uwchradd ers i MELAP gychwyn. Roeddent yn priodoli hyn i bresenoldeb mwy o staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn yr ysgol (law yn llaw â hyfforddiant), gan arwain at ymwybyddiaeth well o'r hyn y gallai staff SIY helpu staff addysgu i'w wneud. Mewn rhai ysgolion, mae tîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig wedi gallu cael gafael ar ystafell neu swyddfa, lle gallant storio'u holl adnoddau a chael canolfan i weithio ohoni.

‘Mae hyn yn golygu y gallwn helpu disgyblion a staff yn breifat, a gellir cael dod o hyd iddynt yn hawdd pan fydd angen help arnynt’.

“Ar y cychwyn, roeddem yn cael ein gweld fel pobl a oedd yn cynorthwyo'r disgyblion, ond rydym yn cael ein gweld mwy a mwy fel cymorth i athrawon, yn gallu awgrymu a darparu mewnbwn ar gyfer gwersi.”

4.46 Credai ymatebwyr i'r arolwg staff fod y gefnogaeth a'r cymorth a ddarperir naill ai ar y lefel iawn neu fod angen mwy o gymorth (Tabl 4.12). Dywedodd ychydig

o ymatebwyr fod gormod o amser yn cael ei dreulio ar bedwar gweithgaredd.
Cymwysterau yn yr iaith gartref oedd yr unig weithgaredd lle credai fwy o staff
fod angen mwy o gapasiti na'r lefel iawn o gymorth a oedd yn cael ei ddarparu.

Tabl 4.12 Barnau staff MELAP am y cymorth a ddarparwyd

Math o gymorth yn cael ei ddarparu gan staff MELAP	Nifer yr ymatebwyr yn darparu cymorth	Nifer y staff yn darparu cymorth yn cytuno / yn cytuno'n gryf					
		<i>Mae'r amser a dreuliwyd ar y gweithgaredd hwn ar y lefel iawn i ddiwallu anghenion y disgyblion / rhieni / athrawon</i>		<i>Ni roddir digon o bwys ar y gweithgaredd ac mae angen mwy o gapasiti</i>		<i>Mae gormod o amser yn cael ei dreulio ar y gweithgaredd hwn, a byddai'n well cyfeirio adnoddau i rywle arall</i>	
		Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cymorth yn y dosbarth i ddisgyblion	47	26	55%	24	51%	3	6%
Mynd â disgyblion allan o'r dosbarth ar gyfer gwersi Saesneg	22	12	55%	10	45%	1	5%
Cymorth astudio ar ôl ysgol	19	8	42%	7	37%	0	0%
Cyfieithu i rieni	4	0	0%	1	25%	0	0%
Cyfieithu testun ar gyfer cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref	9	5	56%	4	44%	1	11%
Mentora a chefnogi disgyblion	30	15	50%	13	43%	1	3%
Cefnogi disgyblion i gymryd cymhwyster yn eu hiaith gartref	17	10	59%	12	71%	0	0%
Cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau ôl-16	4	2	50%	1	25%	0	0%
Cymorth eirioli	18	12	67%	3	17%	0	0%
Darparu hyfforddiant i staff ysgolion uwchradd	11	6	55%	6	55%	0	0%
Gweithio gyda rhieni i wella cymorth addysgol yn y cartref	2	0	0%	1	50%	0	0%
Cryfhau cysylltiadau gyda gwasanaethau cymorth ieuenctid	5	0	0%	2	40%	0	0%

Ffynhonnell: Arolwg o staff MELAP

4.47 Yn gyffredinol, roedd y staff a gyfwelwyd o'r farn fod lefel y cymorth yr oeddent yn ei ddarparu yn ddigonol, ond y byddent yn hoffi darparu mwy o gymorth i lawer o ddisgyblion. Roeddent yn deall y materion yn ymwneud ag adnoddau a wynebair gwasanaethau (dim ond nifer benodol o staff sydd yna i ddarparu cymorth), a bod rhaid i gymorth gael ei dargedu at y rheiny yr oedd ei angen arnynt. Teimlent hefyd mai'r gweithgareddau a oedd yn cael eu darparu oedd y blaenoriaethau ar gyfer eu hysgol neu ardal.

4.48 Roedd barnau cymysg ynglŷn â'r dulliau sy'n gweithio wrth ddarparu cymorth SIY, a pha un a yw'r dulliau yn adlewyrchu arfer da. Mewn rhai ardaloedd, mae ffocws cadarnach ar gadw disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd tra'u bod yn cael cymorth, gan ei fod yn helpu'r dysgwyr SIY i integreiddio â'u cyfoedion. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, roedd cred fod angen tynnu disgyblion allan o'r dosbarth i gael cymorth Saesneg, i feithrin eu gallu yn y Saesneg fel eu bod yn gallu deall y dosbarthiadau yr oeddent ynddynt. Mewn un ysgol, lle'r oedd disgyblion yn cael eu tynnu allan i ddarparu cymorth Saesneg dwys iddynt, fe wnaeth cyflawniad dysgwyr SIY ar lefel TGAU wella'n sylweddol, a chredai'r staff mai darparu cymorth y tu allan i'r dosbarth oedd i gyfrif am hyn.

“...Felly fe wnaeth disgyblion SIY y llynedd berfformio'n well na disgyblion heb fod yn SIY. Credwn fod y model cymorth y tu allan i'r dosbarth yn gweithio.”

4.49 Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, credai'r staff y dylai disgyblion fod yn y dosbarth gyda'u cyfoedion a chael cymorth yn y dosbarth, ond bod cymorth wedi'i dargedu y tu allan i'r dosbarth ar gyfer disgyblion â lefelau Saesneg isel yn fuddiol.

Arweinwyr prosiectau awdurdodau lleol

4.50 Roedd yr arweinwyr ALI yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol ynglŷn ag effaith MELAP. Roeddent yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn â'r staff newydd yr oeddent wedi llwyddo i'w recriwtio i'r gwasanaeth a'u datblygu, ac effaith y cymorth ychwanegol yr oeddent yn gallu ei ddarparu i'r disgyblion a'u teuluoedd.

4.51 Y llwyddiannau penodol y teimla arweinwyr ALI eu bod wedi dod yn sgil y prosiect yw:

- Cynyddu nifer y disgyblion yr oeddent yn gallu darparu cymorth iddynt, oherwydd y cyllid ychwanegol yr oeddent wedi'i gael a'r staff ychwanegol yr oeddent yn eu cyflogi;
- Cynyddu nifer y disgyblion a oedd yn gallu gweithio tuag at TGAU neu Safon Uwch yn eu hiaith gartref, oherwydd y cymorth y gall staff ychwanegol ei ddarparu ar gyfer hyn;
- Cynyddu cymorth i ddisgyblion unigol yn y tymor byr i alluogi gwella eu cymwyseddau yn y Saesneg i lefel iddynt allu ymdopi;
- Gwella'r adnoddau addysgu (er enghraifft, geiriaduron dwyieithog, gemau, a rhestrï geirfa) sydd ar gael i ddisgyblion ac athrawon, sy'n cynorthwyo'r addysgu a'r dysgu;
- Sefydlu ystafell neu ardal SIY ar gyfer disgyblion ac athrawon. Roedd hyn ar gael eisoes mewn nifer fach o ysgolion, ond mae'r cynnydd mewn cyllid a staff wedi arwain at fwy o ysgolion yn neilltuo ardal SIY bwrpasol;
- Gwella ansawdd yr addysgu i ddisgyblion SIY mewn ysgolion. Cyflawnwyd hyn drwy gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith athrawon eraill ynglŷn ag anghenion disgyblion SIY ond mewn rhai achosion, yn enwedig yn Abertawe, trwy ddarparu hyfforddiant i athrawon i'w helpu i deilwra eu haddysgu i helpu dysgwyr SIY fanteisio ar y cwricwlwm; a
- Gwella cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol. Cyflawnwyd hyn drwy recriwtio staff â'r un iaith gartref â disgyblion, a defnyddio'r staff i gyfathrebu â rhieni trwy lythyrau neu gyfieithu, a darparu cymorth mewn nosweithiau rhieni.

Themâu trawsbynciol

- 4.52 Mae cynllun busnes MELAP yn amlinellu dwy thema drawsbynciol y byddai'r prosiect yn cael effaith arnynt. Cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol oedd y rhain.
- 4.53 Nod y prosiect oedd cyfrannu at gyfle cyfartal trwy ddarparu cymorth i ddisgyblion ag anghenion SIY, gweithio gyda rhieni i wella cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol a chysylltiadau â'r gymuned, cynlluniau mentora'n ymwneud â phontio, cefnogi pobl ifanc cyn ac yn ystod lleoliadau gwaith, helpu dysgwyr SIY ifanc i oresgyn rhwystrau rhag cael mynediad i'r system addysg, rhannu arfer da darpariaeth SIY rhwng gweithwyr proffesiynol, a chyrhaeddiad gwell gan ddysgwyr SIY.

- 4.54 Mae tystiolaeth bendant fod MELAP wedi cyfrannu at gyfle cyfartal trwy alluogi disgyblion a gafodd gymorth yn yr ysgol i wella eu gallu yn y Saesneg, ac mae hyn yn eu helpu i fanteisio ar y cwricwlwm. Mae disgyblion wedi dweud bod cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol yn gadarn oherwydd cynorthwyyr addysgu dwyieithog, sy'n gallu cyfieithu dogfennau ysgol a chyfathrebu â rhieni nad ydynt yn medru'r Saesneg. Mae ychwanegu cynorthwyyr addysgu dwyieithog mewn nosweithiau rhieni wedi helpu gwella presenoldeb rhieni dysgwyr SIY.
- 4.55 Prin yw'r dystiolaeth y bu cefnogaeth cyn ac yn ystod lleoliadau gwaith. Er bod staff sy'n darparu cymorth drwy MELAP yn cynnig cyngor ac arweiniad i ddisgyblion am yrfaedd a chynlluniau yn y dyfodol, nid ydynt wedi ymwneud â threfnu lleoliadau gwaith. Fodd bynnag, mae'r staff a gyflogwyd drwy MELAP yn cynnig cymorth i ddisgyblion mewn perthynas â phontio, yn enwedig o ran dewisiadau pynciau a beth mae disgybl yn cynllunio i'w wneud ar ôl iddo/iddi gwblhau addysg orfodol.
- 4.56 Nod y prosiect oedd cyfrannu at y thema cynaliadwyedd amgylcheddol trwy wella mynediad dysgwyr SIY at addysg amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol wrth gyflwyno gymaint â phosibl (er enghraifft, cynyddu'r defnydd o TGCh ar gyfer cyfathrebu er mwyn lleihau teithio, defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, ymgorffori rheolaeth amgylcheddol i weithdrefnau sefydlu a hyfforddi).
- 4.57 Mae'n anodd asesu pa un o'r nodau hyn a gyflawnwyd oherwydd y diffyg data sydd ar gael ar yr agweddau hyn. Dylai gwella gallu dysgwyr SIY yn y Saesneg fod wedi'u helpu i fanteisio ar y cwricwlwm. Yng Ngheredigion, treialwyd TGCh i ddarparu cymorth o bell i un disgybl, ac fe wnaeth hynny leihau teithio ar gyfer cynorthwyydd addysgu.

Pwyntiau cryno allweddol

- 4.58 Yn yr achos busnes gwreiddiol, gosodwyd targedau ar gyfer MELAP o ran nifer y disgyblion i'w cynorthwyo, nifer y cymwysterau i'w cyflawni yn yr iaith gartref a nifer y deilliannau cadarnhaol i'w cyflawni (wedi'u mesur fel disgyblion sy'n gwella eu gallu yn y Saesneg un cam o leiaf). Diwygiwyd y targedau hyn mewn dau ymarferiad ailbroffilio. Llwyddodd y prosiect yn gyffredinol i gyflawni 100 y cant o'r targed terfynol ar gyfer cynorthwyo disgyblion, a chyflawnodd pob un o'r

ALLau o leiaf 90 y cant o'u targed. Llwyddodd y prosiect i gyflawni 93 y cant o'r targed terfynol ar gyfer cyflawni cymwysterau yn yr iaith gartref, a chyflawnodd pedwar ALI 100 y cant neu fwy o'u targed; a chyflawnwyd 82 y cant o'r targed terfynol ar gyfer deilliannau cadarnhaol, gyda dau ALI yn cyflawni'n uwch na'u targed, a dau ALI yn cyflawni oddeutu hanner eu targed.

- 4.59 Roedd canran y disgyblion a gynorthwywyd, y gwnaeth eu gallu yn y Saesneg wella un cam o leiaf ar raddfa Llywodraeth Cymru, oddeutu 55 i 65 y cant yn y rhan fwyaf o ALLau. Yr eithriadau i hyn oedd Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot (gyda chyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion yn cyflawni gwelliant yn Saesneg), ac Abertawe, gyda chyfran is na'r cyfartaledd o ddisgyblion yn cyflawni gwelliant cam llawn yn Saesneg yn ystod y rhaglen. Mae esboniadau posibl ar gyfer hyn yn cynnwys y nifer fawr o ddisgyblion SIY yn Abertawe (gan olygu eu bod yn cael llai o oriau o gymorth uniongyrchol ar gyfartaledd), neu'r dull gwahanol a ddefnyddiwyd yn Abertawe o gymharu ag ALLau eraill. Ymddengys bod cysylltiad rhwng nifer y blynyddoedd y mae disgybl wedi bod yn cael cymorth, a lefel gallu yn y Saesneg pan ddechreuodd disgybl gael cymorth, â'r gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni gwelliant un cam o leiaf yn Saesneg. Po isaf y lefel gychwynnol o ran gallu yn y Saesneg, yr uchaf y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni gwelliant un cam o leiaf o ran gallu yn y Saesneg. Yn yr un modd, po fwyaf y cyfnod yr oedd disgybl wedi derbyn cymorth, yr uchaf y gyfran o ddisgyblion a oedd wedi cyflawni gwelliant un cam o leiaf o ran eu gallu yn y Saesneg.
- 4.60 Dangosodd yr arolwg o ddisgyblion a'r arolwg o'r staff cyflwyno, a'r ymchwil ansoddol, fod disgyblion a staff yn gadarnhaol ynglŷn ag effeithiau'r gweithgareddau a ddarparwyd drwy MELAP. Teimlai 82 y cant o ddisgyblion fod y cymorth y maent yn ei gael wedi'u helpu i wella'u Saesneg; teimlai 76 y cant ei fod wedi'i helpu cyflawni canlyniadau gwell yn y dosbarth ac mewn profion; a theimlai 74 y cant ei fod wedi'u helpu i ddeall eu hathrawon. Atgyfnerthwyd hyn gan ganlyniadau'r arolwg o'r staff cyflwyno, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn teimlo bod y gweithgareddau y maent yn eu cyflwyno wedi gwella lefelau Saesneg y disgyblion, eu cyflawniad yn y dosbarth, a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Dyma oedd barn staff addysgu ysgolion uwchradd hefyd, gyda llawer ohonynt yn sylwi ar y gwahaniaeth yn ansawdd gwaith ac agwedd disgyblion SIY a oedd yn cael cymorth. Teimlai'r staff hefyd fod y gweithgareddau yr oeddent yn eu cyflwyno yn gwella gwybodaeth a sgiliau staff addysgu ysgolion uwchradd.

- 4.61 Fodd bynnag, nid oedd athrawon ysgolion uwchradd yn rhannu'r farn hon yn gyffredinol. Ym mhob ardal, teimlai athrawon SIY, cynorthwywyr addysgu dwyieithog a staff addysgu fod proffil gwasanaethau SIY wedi gwella, a bod mwy o adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion uwchradd i gynorthwyo disgyblion ag anghenion SIY. Teimlai rhai, er iddynt gael hyfforddiant, nad oedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn gan nad oedd yn darparu digon o enghreifftiau ymarferol, neu fod yr hyfforddiant wedi'i gynnal ar ddiwrnod prysur hyfforddiant mewn swydd. Os nad oedd gan yr athro ddosbarthiadau gydag unrhyw ddysgwyr SIY ar unwaith, byddai'n anghofio'r hyfforddiant yr oedd wedi'i gael, ac ni fyddai ei arferion yn newid. Roedd athrawon yn Abertawe yn fwy cadarnhaol o lawer ynglŷn â'r rhaglenni hyfforddiant meithrin gallu a'r cymorth yr oeddent wedi'u cael, a'r effaith a gafodd y rhain ar eu harferion addysgu, ac roedd hyn yn cadarnhau bod gwybodaeth a sgiliau SIY staff addysgu ysgolion uwchradd wedi gwella yn Abertawe.
- 4.62 Mae tystiolaeth gref fod MELAP wedi mynd i'r afael â chyfle cyfartal. Mae wedi galluogi disgyblion i wella eu gallu yn y Saesneg er mwyn gallu manteisio ar y cwricwlwm a chyfranogi'n llawnach mewn gweithgareddau ysgol eraill, ac i rieni gyfranogi yn addysg eu plant. Nid yw wedi cynorthwyo disgyblion gyda lleoliadau gwaith, sef un o'i uchelgeisiau, ac nid oes tystiolaeth ychwaith ei fod wedi cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol.

5 Gwerth ychwanegol y prosiect

- 5.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r gwahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud o ran ei adnoddau ychwanegol i naw ALL, a'i waddol. Mae hyn yn defnyddio data am y gwasanaeth cyn MELAP, data cymharol ar gyfer ALLau yng Nghymru yn cyfranogi a heb fod yn cyfranogi, a'r cyfweiliadau astudiaethau achos.

Ychwanegedd

Gweithgareddau ychwanegol

- 5.2 Mae Tabl 5.1 yn dangos y cynnydd mewn adnoddau trwy gyllid MELAP yn seiliedig ar adnoddau a ddarparwyd yn flaenorol drwy'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn unig ym mhob un o'r ALLau cyfrannog. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddeilliannau, gwnaed hyn drwy gymharu'r sefyllfa ym mis Gorffennaf 2010 â mis Gorffennaf 2013, ac yn achos cyrsiau hyfforddi, cymhariaeth â'r sefyllfa cyn MELAP (heb ystyried pa un a gafodd ei gyflwyno drwy'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig). Mae Tabl 5.1 yn dangos:
- Mae nifer y staff sy'n darparu gweithgareddau cymorth SIY wedi cynyddu ym mhob un o'r ALLau. Gellir gweld y newid hwn ar gyfer y ddau fath o staff (cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog ac athrawon SIY) ac eithrio yn Sir Benfro, a fuddsoddodd i gynyddu cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog yn unig;
 - Ym mhob achos, mae'r staff ychwanegol wedi galluogi mwy o ddisgyblion i gael cymorth ym mhob ardal ALL, gyda chyfanswm o 386 o ddisgyblion ychwanegol yn cael cymorth ym mis Gorffennaf 2013 o gymharu â mis Gorffennaf 2010. Fel cyfran o'r rheiny a gynorthwywyd yn 2010, mae hwn yn gynydd arbennig o fawr yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Benfro (cynydd o 220 y cant a 172 y cant yn y drefn honno). Y rheswm pennaf am y cynnydd yn nifer y disgyblion yn cael cymorth ym mhob ardal yw cynorthwyo disgyblion a oedd eisoes yn yr ysgol (neu mewn ysgol gynradd fwydo) ac nad oeddent yn cael cymorth, gyda chyfran fach o'r cynnydd yn digwydd yn sgil disgyblion newydd yn cyrraedd o'u gwlad gartref (gan achosi cynnydd yn y boblogaeth SIY).

- Mae'r nifer gyfartalog o oriau o gymorth a ddarparwyd i bob disgybl SIY fesul wythnos wedi cynyddu ym mhob ardal ac eithrio dwy. Ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful mae'r cynnydd yn eithaf sylweddol. Lle na fu unrhyw gynnydd yn yr oriau o gymorth bob wythnos: yng Nghastell Nedd Port Talbot, mae'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn gymharol newydd felly mae'r amser staff ychwanegol wedi'i rannu rhwng darparu cymorth i fwy o ddisgyblion a sefydlu'r gwasanaeth mewn ysgolion yn yr ardal. Yn Sir Benfro, roedd lefel y cymorth i bob disgybl yr wythnos eisoes yn gymharol uchel (dros deirawr yr wythnos), felly mae'r staff ychwanegol wedi galluogi i fwy o ddisgyblion gael lefel gymorth uchel fel y dangosir isod;
- Mae pob ardal ac eithrio dwy wedi darparu mwy o hyfforddiant i staff addysgu nag yr oeddent yn flaenorol. Mae amcangyfrif o 538 o staff ysgol uwchradd ychwanegol wedi cael hyfforddiant, er bod hyd yr hyfforddiant wedi amrywio.

Tabl 5.1 Ychwanegedd MELAP

Awdurdod Lleol	Newid yn nifer y Cynorthwyyr Addysgu Dwyieithog cyfwerth ag amser llawn		Newid yn niferoedd yr athrawon SIY		Newid yn nifer y disgyblion a gynorthwywyd ⁷³		Newid yng nghyfartaledd yr oriau o gymorth fesul disgybl		Newid yn nifer y staff yn cael hyfforddiant	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Blaenau Gwent ⁷⁴	0.5	-	1.1	-	31	-	1.2	-	0	-
Sir Gaerfyrddin	1.1	67%	2.1	420%	15	20%	0.2	26%	167	418%
Ceredigion	3.3	367%	1.0	150%	50	125%	0.7	54%	2	0%
Conwy	1.0	-	1.6	48%	28	49%	0.2	20%	50	125%
Sir Ddinbych										
Merthyr Tudful	1.8	55%	1.5	1500%	52	153%	1.5	238%	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	1.6	-	0.4	33%	33	220%	0	0%	53	241%
Sir Benfro	8.1	270%	0	0%	62	172%	0	0%	84	8400%
Abertawe	5.1	111%	5.2	60%	115	14%	0.2	33%	182	264%
Cyfanswm	22.4		12.9		386				538	

Ffynhonnell: Rheolwyr prosiectau ALLau

⁷³ Mae'r newidiadau a adroddir yma yn defnyddio gwerth sylfaenol nifer y disgyblion ysgol uwchradd yn cael cymorth ym mis Gorffennaf 2010 drwy gyllid y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig.

⁷⁴ Dywedodd y rheolwr prosiect ym Mlaenau Gwent na ddarparwyd unrhyw gymorth yno ym mis Gorffennaf 2013, felly ni ellir cyfrif unrhyw newid canran.

- 5.3 Heblaw am hyfforddiant sydd wedi'i ddwysau yn Abertawe a'i gyflwyno mewn ALLau eraill, adroddodd rheolwyr prosiectau ALLau fod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddarparwyd drwy MELAP yn weithgareddau a oedd eisoes yn cael eu darparu trwy gyllid y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig cyn mis Medi 2010.
- 5.4 Yr hyn y mae wedi'i alluogi yw ehangu, yn enwedig ehangu cymorth yn y dosbarth ac allan o'r dosbarth. Mae mwy o ddisgyblion yn cael eu cynorthwyo, ac mae staff ag amrywiaeth ehangach o ieithoedd, sy'n golygu y gall mwy o ddisgyblion gael cymorth yn eu hiaith gartref. Mae'r amrywiaeth eang o ieithoedd yn golygu y gall mwy o ddisgyblion gael cymorth gan staff i astudio tuag at gymhwyster yn eu hiaith gartref. Mae'r cynnydd yn nifer y staff hefyd wedi galluogi staff SIY i gynnig mwy o ofal bugeiliol i ddisgyblion SIY, ac erbyn hyn mae ardal SIY bwrpasol gan fwy o ysgolion, sy'n galluogi disgyblion i "alw heibio" i gael cymorth bugeiliol.
- 5.5 Fodd bynnag, mae hefyd wedi galluogi'r rhan fwyaf o wasanaethau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i gyflwyno un gweithgaredd newydd o leiaf. Mae'r gweithgareddau canlynol yn weithgareddau newydd sy'n cael eu darparu am y tro cyntaf mewn un ardal o leiaf yn sgil cyllid MELAP:
- Darparu grwpiau astudio ar ôl ysgol;
 - Darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon ysgol uwchradd;
 - Hyfforddiant adeiladu gallu yn Abertawe;
 - Cymorth o bell;
 - Darparu cymorth SIY yn ystod nosweithiau rhieni;
 - Darparu cymorth ar gyfer cymwysterau iaith gartref; a
 - Darparu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) i rieni.
- 5.6 Dywedodd y rhan fwyaf o reolwyr prosiect ALLau yn eu cyfweiliadau eu bod wedi defnyddio profiad ALLau eraill, fel Abertawe, sydd â mwy o brofiad o integreiddio disgyblion SIY yn eu hysgolion.


Cyflawniad

- 5.7 Er mwyn archwilio effaith MELAP, gellir cymharu cyflawniad disgyblion SIY dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf â chyflawniad disgyblion nad ydynt yn ddisgyblion SIY. Niferoedd cymharol fach o ddisgyblion SIY sy'n sefyll

arholiadau TGAU ym mhob blwyddyn, ond os yw'r prosiect yn effeithiol, dylai fod yn creu rhywfaint o fuddion o ran eu cyflawniad TGAU, yn enwedig wrth leihau'r bwlch gyda disgyblion nad ydynt yn ddisgyblion SIY na fyddant wedi derbyn cymorth.

- 5.8 Mae Ffigur 5.1 yn dangos canran yr holl ddisgyblion SIY yn yr ALLau MELAP sy'n cyflawni lefel 1 yng Nghyfnod Allweddol 4 (o leiaf pump TGAU neu gymwysterau cyfwerth â gradd A*-G); canran yr holl ddisgyblion SIY sy'n cyflawni lefel 2 (o leiaf pump TGAU neu gymhwyster cyfwerth â gradd A*-C); a chanran yr holl ddisgyblion SIY sy'n cyflawni lefel 2 mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg (SC&M) (o leiaf pump TGAU neu gymhwyster cyfwerth â gradd A*-C, yn cynnwys SC&M). Mae canran y disgyblion SIY sy'n cyflawni lefel 1 wedi aros yn weddol gyson dros y tair blynedd ar oddeutu 92 y cant, ond mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 a lefel 2 SC&M wedi cynyddu rhwng 2010 a 2012 yn yr ardaloedd MELAP, gan 20 ac 11 o bwyntiau canran yn y drefn honno.

Ffigur 5.1 Cyflawniad yr holl ddisgyblion SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP, 2010-2012




Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Syllfaen = 2010: 302; 2011: 342; 2012: 357.

- 5.9 Er bod cyflawniad dysgwyr SIY wedi gwella rhwng 2010 a 2012, fe wnaeth y canlyniadau ar gyfer dysgwyr nad oeddent yn ddysgwyr SIY wella ar yr un pryd hefyd (gweler Atodiad 4). Ar gyfer cyflawniad ar lefel 1, mae'r cynnydd ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn fwy nag ar gyfer dysgwyr SIY (sydd wedi parhau'n gyson).
- 5.10 Fodd bynnag, ar gyfer cyflawniad ar lefel 2 a lefel 2 SC&M, mae'r cynnydd mewn cyflawniad ymhlith dysgwyr SIY wedi bod yn uwch na'r cynnydd ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY (gwelliant o 20 pwynt canran ar gyfer dysgwyr SIY, o gymharu â chynnydd o 12 pwynt canran ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2; a gwelliant o 11 pwynt canran ar gyfer dysgwyr SIY o gymharu â chynnydd o dri phwynt canran ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 SC&M).
- 5.11 Mae hyn yn golygu bod y bwlch rhwng disgyblion SIY a disgyblion nad ydynt yn ddisgyblion SIY yn yr ardaloedd sy'n darparu MELAP wedi newid yn nodedig ar lefel 2 a lefel 2 SC&M (gweler Ffigur 5.2), gyda dysgwyr SIY bellach yn perfformio'n well na dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY. Mae'r gwahaniaeth yn y ganran o ddysgwyr SIY sy'n cyflawni lefel 2 o gymharu â dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY wedi newid o -3.9 pwynt canran i +6.0 pwynt canran, gyda'r gwahaniaeth ar lefel 2 SC&M yn newid o -3.6 pwynt canran i +4.3 pwynt canran.

Ffigur 5.2 Gwahaniaeth rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP, 2010-2012




Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Sylfaen: Dysgwyr SIY = 2010: 302; 2011: 342; 2012: 357.

Dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY = 2010: 12,366; 2011:11,829; 2012: 11,740.

5.12 Mae'n bosibl fod maint y cynnydd yn adlewyrchu newidiadau yn nodweddion disgyblion SIY sy'n sefyll yr arholiadau. Mae nodweddion y gwyddys eu bod yn effeithio ar gyflawniad ac y mae CYBLD yn eu hystyried yn cynnwys Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd). Mae Ffigur 5.3 yn dangos cyflawniad disgyblion SIY yn yr ardaloedd MELAP pan fo disgyblion ag AAA a hawl i PYDd wedi'u hepgor o'r dadansoddiad. Mae hyn yn dangos yr un patrwm a thuedd, gyda chyflawniad ar lefel 1 yn parhau'n gyson, a chyflawniad lefel 2 a lefel 2 SC&M yn dangos cynnydd nodedig (cynnydd o 15.8 o bwyntiau canran ar lefel 2 a 13.4 o bwyntiau canran ar lefel 2 SC&M). Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynnydd mewn perfformiad dysgwyr SIY yn deillio o wahaniaeth naill ai mewn hawl i PYDd neu AAA rhwng y blynyddoedd.

Ffigur 5.3 Cyflawniad disgyblion SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP (heb gynnwys disgyblion ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012




Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Sylfaen = 2010: 204; 2011: 228; 2012: 246.

- 5.13 Mae cymhariaeth o ddysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY, heb gynnwys disgyblion ag AAA a hawl i gael PYDd, yn dangos eto bod y gwelliant mewn cyflawniad ar gyfer dysgwyr SIY wedi bod yn fwy nag ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 a lefel 2 SC&M (gweler Atodiad 4). Y cynnydd cymaradwy yw 15.8 o bwyntiau canran ar gyfer dysgwyr SIY o gymharu â 10 o bwyntiau canran ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2; ac 13.4 o bwyntiau canran ar gyfer dysgwyr SIY o gymharu â 4.4 o bwyntiau canran ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 SC&M.
- 5.14 Er bod Ffigur 5.3 yn dangos bod cyflawniad disgyblion SIY wedi cynyddu, nod MELAP oedd helpu lleihau'r bwlch mewn cyflawniad rhwng dysgwyr SIY a'u cyfoedion. Mae Ffigur 5.4 yn dangos y gwahaniaeth pwyntiau canran rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY (heb gynnwys disgyblion ag AAA a hawl i gael PYDd). Mae hyn yn dangos:
- Er bod canran y dysgwyr SIY sy'n cyflawni cymhwyster lefel 1 wedi aros yn gyson ar gyfer dysgwyr SIY, maent ar ei hôl hi o gymharu â'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY am fod mwy ohonynt yn cyflawni cymhwyster lefel 1;
 - Ar lefel 2 a lefel 2 SC&M, mae cyflawniad disgyblion SIY yn gwella'n gyflymach na'u cyfoedion nad ydynt yn ddysgwyr SIY, felly mae'r bwlch wedi lleihau (ar lefel 2 mae wedi disgyn o 8 pwynt canran i 2.2 pwynt canran) ac mae fwy neu lai wedi diflannu ar gyfer lefel 2 SC&M (gyda newid o 9 pwynt canran).

Ffigur 5.4 Gwahaniaeth rhwng cyflawniadau dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY sy'n sefyll arholiadau TGAU yn ardaloedd MELAP, 2010-2012 (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a hawl i gael PYDd)



Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Sylfaen: Dysgwyr SIY = 2010: 204; 2011: 228; 2012: 246.


Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY = 2010: 8,595; 2011: 7,878; 2012: 7,724.

- 5.15 Er bod y dystiolaeth uchod yn dangos bod cyflawniad ar gyfer dysgwyr SIY yn yr ardaloedd MELAP wedi gwella a bod y bwlch yn lleihau, gallai'r newid fod yn sgil polisi ledled Cymru sy'n arwain at welliannau i bob disgybl SIY. Felly, mae'n bwysig cymharu'r newid mewn perfformiad yn yr ardaloedd MELAP â gweddill Cymru. Defnyddiwyd dau grŵp cymaryddion, sef: gweddill ardal gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop a benderfynodd beidio â manteisio ar gyllid MELAP; a'r ardal Gystadleurwydd, lle na allai ALLau wneud cais am gyllid MELAP.⁷⁵
- 5.16 Mae Ffigur 5.5 i Ffigur 5.7 yn dangos y gwahaniaeth pwyntiau canran mewn cyflawniad rhwng dysgwyr SIY a'u cyfoedion nad ydynt yn ddysgwyr SIY (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a dysgwyr â hawl i gael PYDd) yn y tair ardal gymharol. Nid yw ardal Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop nad yw'n rhan o MELAP yn dangos patrwm cyson, a'r rheswm tebygol am hynny yw'r nifer gymharol fach o ddysgwyr SIY bob blwyddyn yn y grŵp hwn. Felly, mae'n debyg ei bod yn fwy priodol cymharu canlyniadau ardal MELAP â'r ardal Gystadleurwydd.
- 5.17 Mae Ffigur 5.5 yn dangos, yn yr ardaloedd MELAP a'r ardaloedd Cystadleurwydd, bod canran y dysgwyr SIY sy'n cyflawni cymhwyster lefel 1 yn is na'u cyfoedion nad ydynt yn ddysgwyr SIY, a bod y bwlch wedi ehangu er 2010 (er bod y bwlch wedi lleihau ychydig yn yr ardal heb fod yn un gydgyfeirio rhwng 2011 a 2012). Byddai hyn yn awgrymu nad yw gweithgareddau a ariannwyd gan MELAP wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau'r bwlch rhwng dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY o ran cyflawniad lefel 1.
- 5.18 Fodd bynnag, mae Ffigur 5.6 a Ffigur 5.7 yn cyflwyno darlun gwahanol. Mae'r rhain yn dangos, ar lefel 2, bod y bwlch rhwng dysgwyr SIY a'u cyfoedion nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn lleihau'n sylweddol yn ardaloedd MELAP, ond yn yr ardal Gystadleurwydd, ni fu gostyngiad mawr yn y bwlch rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY. Ar lefel 2 SC&M, mae'r bwlch rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY wedi lleihau'n nodedig yn ardaloedd MELAP, ond yn yr ardal Gystadleurwydd ymddengys bod y bwlch wedi cynyddu.

⁷⁵ Yr Awdurdodau Lleol yn yr Ardal Gydgyfeirio nad ydynt wedi cymryd rhan yn MELAP yw: Rhondda Cynon Taf; Caerffili, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Gwynedd ac Ynys Môn; yr Awdurdodau Lleol yn yr ardal Gystadleurwydd yw: Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd, Bro Morgannwg, Powys, Wrecsam a Sir y Fflint.

5.19 Mae'n bosibl bod mentrau eraill sy'n gymwys yn yr ardal Gydgyfeirio yn unig wedi effeithio ar y canlyniadau, ond mae'n awgrymu perthynas â MELAP sydd wedi cynorthwyo rhan fwyaf y disgyblion SIY.

Ffigur 5.5 Gwahaniaeth pwynt canran rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 1 (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012



Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Sylfaen: Dysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP = 2010: 204; 2011: 228; 2012: 246.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP = 2010: 8,595; 2011: 7,878; 2012: 7,724.


Dysgwyr SIY yn yr ardaloedd cydgyfeirio nad ydynt yn rhan o MELAP = 2010: 89; 2011: 94; 2012: 120.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd cydgyfeirio nad ydynt yn rhan o MELAP = 2010: 7,415; 2011: 7,037; 2012: 6,696.

Dysgwyr SIY yn yr ardal Gystadleurwydd = 2010: 607; 2011: 669; 2012: 789.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardal Gystadleurwydd = 2010: 8,341; 2011: 8,045; 2012: 7,787.

Ffigur 5.6 Gwahaniaeth rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012



Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Sylfaen: Dysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP = 2010: 204; 2011: 228; 2012: 246.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP = 2010: 8,595; 2011: 7,878; 2012: 7,724.


Dysgwyr SIY yn yr ardaloedd cydgyfeirio nad ydynt yn rhan o MELAP = 2010: 89; 2011: 94; 2012: 120.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd cydgyfeirio nad ydynt yn rhan o MELAP = 2010: 7,415; 2011: 7,037; 2012: 6,696.

Dysgwyr SIY yn yr ardal Gystadleurwydd = 2010: 607; 2011: 669; 2012: 789.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardal Gystadleurwydd = 2010: 8,341; 2011: 8,045; 2012: 7,787.

Ffigur 5.7 Gwahaniaeth rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY ar lefel 2 SC&M (heb gynnwys dysgwyr ag AAA a hawl i gael PYDd), 2010-2012



Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

Sylfaen: Dysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP = 2010: 204; 2011: 228; 2012: 246.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn ardaloedd MELAP = 2010: 8,595; 2011: 7,878; 2012: 7,724.

Dysgwyr SIY yn yr ardaloedd cydyfeirio nad ydynt yn rhan o MELAP = 2010: 89; 2011: 94; 2012: 120.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd cydyfeirio nad ydynt yn rhan o MELAP = 2010: 7,415; 2011: 7,037; 2012: 6,696.

Dysgwyr SIY yn yr ardal Gystadleurwydd = 2010: 607; 2011: 669; 2012: 789.

Y rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardal Gystadleurwydd = 2010: 8,341; 2011: 8,045; 2012: 7,787.

Gwaddol

Disgyblion

5.20 Dylai'r ffaith fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni cymwysterau TGAU, er enghraifft, yn enwedig mewn Saesneg a Mathemateg, a'r rhai sy'n cyflawni cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn eu hiaith gartref, olygu y bydd mwy yn gallu symud ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch gyda buddion o ran cyflogaeth yn y dyfodol. Mae staff cyflwyno a staff addysgu a gyfwelwyd wedi adrodd am ddilyniant gwell am fod disgyblion yn cyflawni graddau uwch, yn enwedig mewn Saesneg.

Staff

5.21 O ran yr ysgolion a'r athrawon a fu'n gysylltiedig â'r prosiect, mae llawer wedi sôn am fuddion tymor hwy yr hyfforddiant a chael Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ag adnoddau gwell. Yn Abertawe yn arbennig, drwy'r hyfforddiant meithrin gallu gydag athrawon pwnc ysgolion uwchradd, dylai fod effaith dymor hir, gan y bydd disgyblion SIY a addysgir gan yr athrawon hyn yn gallu deall y gwersi gyda llai o help ychwanegol neu fawr ddim. Gan fod yr athrawon eisoes wedi integreiddio'r strategaethau newydd hyn i'w harferion addysgu, dylent barhau i addysgu yn y modd hwn. Efallai na fydd modd cynnig hyfforddiant pellach i athrawon pwnc yn sgil tynnu'r cyllid ychwanegol yn ôl.

5.22 Ym mhob un o'r ALLau, adroddodd staff cyflwyno ac athrawon pwnc am fwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau SIY ymhlith staff addysgu. Mae hyn yn annhebygol o ddiflannu pan gaiff cyllid MELAP ei ddileu a gall maint y cymorth ostwng. Mae'r staff addysgu yn gwybod yn well â phwy i gysylltu ynglŷn â disgyblion â materion SIY, a dylent barhau i wneud hynny ar ôl diwedd y prosiect. Dylai'r berthynas well rhwng gwasanaethau SIY ac athrawon pwnc barhau er mwyn bod o fudd i ddysgwyr SIY.

5.23 Ym mhob un o'r ALLau, mae rhai o'r staff cymorth SIY wedi defnyddio'u hamser i ddatblygu deunyddiau addysgu, ac wedi prynu deunyddiau a all barhau i gael eu defnyddio mewn gwersi yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys rhestrï geirfa penodol i bwnc, geiriaduron dwyieithog a gemau. Gellir parhau i ddefnyddio pob

un o'r adnoddau hyn yn yr ysgolion, a gellir storio'r rhan fwyaf ohonynt mewn ystafell SIY, fel bod staff yn gwybod ble i fynd i ddod o hyd iddynt. Dylid hefyd gynnal arferion newydd i wella cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref, fel y cyfieithiadau o lythyrau a staff cymorth SIY yn mynychu nosweithiau rhieni.

- 5.24 Ar gyfer timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, mae'r prosiect wedi darparu gweithlu â chymwysterau gwell, ac o bosibl cronfa fwy o athrawon SIY a chynorthwyrwyr addysgu i'w defnyddio.

Cynaliadwyedd

- 5.25 Mae o leiaf tri ALI wedi gallu defnyddio tystiolaeth o effaith eu gweithgareddau a gynhaliwyd drwy MELAP i sicrhau cyllid ychwanegol i barhau â chyfran o'r gweithgareddau am flwyddyn arall. Mae hwn wedi dod o ffynonellau gwahanol (naill ai gan yr ALLau eu hunain neu gan ysgolion unigol). Mae hyn yn dangos bod rhanddeiliaid heblaw am y rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno MELAP, wedi gweld y buddion a ddaw yn ei sgil, ac maent wedi bod yn barod i fuddsoddi yn y gweithgareddau. Yn Abertawe, mae'r hyfforddiant meithrin gallu yn parhau mewn un ysgol uwchradd o leiaf, sy'n ariannu'r hyfforddiant o'i chyllid ei hun. Mae'n gwneud hyn am ei bod wedi gweld mantais yr hyfforddiant, ac yn teimlo ei bod yn werth buddsoddi'n ychwanegol yn yr hyfforddiant er mwyn codi perfformiad disgyblion.

Pwyntiau cryno allweddol

- 5.26 Mae'r adnodd ychwanegol y mae cyllid MELAP wedi'i ddarparu wedi galluogi pob ardal ALI i gynyddu nifer y staff sy'n darparu cymorth mewn ysgolion uwchradd o gymharu â'r sefyllfa cyn MELAP. Mae hyn yn ei dro wedi galluogi mwy o ddisgyblion SIY i gael cymorth ym mhob ardal, gyda 386 yn fwy o ddisgyblion yn cael cymorth ar draws pob ALI. Roedd pob un o'r ALI ac eithrio tri wedi cynyddu'r oriau cyfartalog o gymorth uniongyrchol i ddisgyblion yr wythnos. Mae hyn yn dynodi bod cyllid MELAP wedi'i ddefnyddio i ddarparu mwy o gymorth i fwy o ddisgyblion SIY.
- 5.27 Mewn chwech ALI, mae nifer y staff ysgolion uwchradd sy'n cael hyfforddiant ar gyfer SIY wedi cynyddu. Nod hyn yw gwella sgiliau a gwybodaeth staff ysgolion uwchradd. Fel yr amlygwyd yn adran 4, cymysg fu canlyniadau'r hyfforddiant

ychwanegol hwn, ond mae'r cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n cael hyfforddiant yn dangos, fan lleiaf, fod timau Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau wedi darparu'r cyfle i staff ysgolion uwchradd i wella'u gwybodaeth a'u sgiliau SIY.

- 5.28 Er nad yw nifer y dysgwyr SIY sy'n cyflawni lefel 1 yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi newid yn yr ALLau MELAP dros gyfnod y prosiect, fe wnaeth eu cyrhaeddiad ar lefel 2 wella 15.8 o bwyntiau canran ac ar lefel 2 Saesneg, Cymraeg a mathemateg (SC&M) o 13.4 o bwyntiau canran. Un o nodau'r prosiect oedd lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion SIY a disgyblion eraill. Mae data CYBLD yn awgrymu bod hyn wedi digwydd, gyda'r gwahaniaeth rhwng cyflawniad dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn lleihau 5.8 o bwyntiau canran ar lefel 2, a naw o bwyntiau canran ar lefel 2 SC&M.
- 5.29 Fe wnaeth data CYBLD alluogi cymhariaeth rhwng yr ardaloedd sy'n derbyn cyllid MELAP a'r ardaloedd na chafodd y cyllid. Mae hyn yn dangos nad yw'r lleihad yn y bwlch rhwng dysgwyr SIY a'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd MELAP wedi'i weld gan leihad tebyg yn y bwlch yn yr ardal Gystadleurwydd. Er ei fod ar lefel 2 wedi gwella 9 pwynt canran yn yr ardaloedd MELAP, cododd 4 pwynt canran yn yr ardal Gystadleurwydd. Mae hyn yn awgrymu bod MELAP wedi cyfrannu, ynghyd â chyllid arall i wella cyflawniad yn yr ardal Gydgyfeirio, at wella cyflawniad dysgwyr SIY a lleihau'r bwlch mewn cyflawniad.

6 Casgliadau ac argymhellion

- 6.1 Yn y bennod hon, rhoddir trosolwg o'r hyn y mae MELAP wedi'i gyflawni ac yna ceir asesiad systematig o'r prosiect yn erbyn ei nodau, ei amcanion a'i dargedau. Mae hyn yn defnyddio'r holl dystiolaeth ym mhenodau 2, 3, 4, a 5. Wedyn eir ati i ystyried ym mha fodd y gallai'r prosiect fod wedi bod yn fwy effeithlon ac effeithiol, a pha wersi y gellir eu dysgu o'r dystiolaeth a'r profiad i lywio polisiau a chyllid Llywodraeth Cymru ac arfer mewn ALLau ac ysgolion. Gwneir nifer o argymhellion.

Beth mae MELAP wedi'i gyflawni

- 6.2 Mae MELAP wedi darparu adnoddau ychwanegol i ALLau er mwyn cynorthwyo ysgolion a'u disgyblion gydag anghenion SIY. Mae'n amlwg bod yr adnoddau wedi galluogi cynorthwyo mwy o ddisgyblion, ac wedi galluogi i fwy o gymorth gael ei roi ynghyd â dulliau ychwanegol o gymorth. Mae graddau pob un o'r rhain wedi amrywio rhwng ALLau yn yr ardal Gydgyfeirio a oedd yn cyfranogi yn MELAP.
- 6.3 Er bod y prosiect wedi methu ei dargedau gwreiddiol, mae wedi dod yn agos at gyflawni ei dargedau diwygiedig (gyda gostyngiad cyfatebol yn y gwariant disgwylidiedig) ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion SIY, cyflawni gwelliannau mewn cymwyseddau yn yr iaith Saesneg a sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer cymwyseddau yn yr iaith gartref. O ganlyniad, mae'r rhaglen wedi cyflawni ei hamcan cyntaf i oresgyn rhwystrau rhag dysgu i ddisgyblion ag anghenion SIY mewn addysg uwchradd. Heb y cyllid, gellir dadlau na fyddai rhai disgyblion ag anghenion SIY wedi cael cymorth neu byddent wedi cael llai o gymorth.
- 6.4 Mae'n amlwg bod MELAP wedi cyfrannu at gyrhaeddiad addysgol disgyblion ag anghenion SIY. Er ei fod wedi helpu cynyddu cymwyseddau mewn Saesneg i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac wedi darparu cymorth i ennill cymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn ieithoedd tramor, mae hefyd wedi helpu codi cyflawniad disgyblion SIY o ran TGAU, gan gynnwys cyflawni Gradd C ac uwch mewn Saesneg a mathemateg a lleihau'r bwlch gyda disgyblion nad ydynt yn ddisgyblion SIY. Mae hyn i'w weld yn amlwg o gymariaethau â disgyblion SIY

yn yr ardal Gystadleurwydd rhwng 2010 a 2012 lle na chafodd y bwlch ei leihau. Dylai hyn wella rhagolygon y dysgwyr hyn ar gyfer symud i addysg bellach ac addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant, er nad oes unrhyw ddata i gefnogi hyn am na chafodd ei gynnwys yn y Cofnod Cyflawniad Disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhaglen wedi cyflawni ei hail amcan i wella lefelau cyrhaeddiad.

- 6.5 O fewn y rhaglen yn gyffredinol, cafwyd gweithgareddau i adeiladu capasiti'r gweithlu arbenigol mewn timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a chapasiti athrawon pwnc yn yr ystafell ddosbarth i addysgu disgyblion ag anghenion SIY yn effeithiol. Mae'r athrawon sydd wedi cael hyfforddiant manwl a chymorth o'r farn yn gyffredinol fod hyn wedi eu helpu i ymgysylltu â disgyblion a'u gallu i ddysgu. Nid yw hyn wedi digwydd ym mhob un o'r ALLau. Aeth llawer o awdurdodau ati hefyd i ymestyn gweithgareddau o fewn y rhaglen i ymgysylltu â rhieni disgyblion SIY, a defnyddio cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog a oedd yn darparu cymorth i ddysgwyr i gynyddu eu cymorth ehangach i athrawon, disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae'r rhaglen wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cyflawni ei thrydydd amcan i wella lefelau ymgysylltu.

Pa mor dda y mae MELAP wedi gweithio

- 6.6 Mae Tabl 6.1 i Dabl 6.3 isod yn dod â'r canfyddiadau allweddol at ei gilydd i fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad a amlinellir yn adran 1.3.

Tabl 6.1 Ystyried materion dylunio a datblygu

Disgwyliad	Wedi gweithio'n dda	Heriau
Parhau'n berthnasol o ran bodloni anghenion disgyblion SIY	Wedi bodloni anghenion y galw cynyddol am SIY gan ddisgyblion ag ystod eang o ieithoedd cartref	
Gweithgareddau a dulliau addas i'r diben yn cael eu dewis	Wedi dilyn arweiniad ar ddulliau cadarn ac arfer da gan mwyaf Wedi canolbwyntio gweithgarwch ar gynyddu cymorth un i un (cynorthwyrwyr	Ac eithrio yn Abertawe, datblygu hyfforddiant manwl ar gyfer athrawon dosbarth a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i arfer Dylunio a chyflwyno

Disgwyliad	Wedi gweithio'n dda	Heriau
	addysgu dwyieithog) ac ar gyfer grwpiau (athrawon dosbarth) sy'n ddulliau sefydledig dysgu integredig ar gyfer disgyblion SIY Fe wnaeth rhai ALLau, ond yn enwedig Abertawe, ganolbwyntio ar adeiladu capasiti i gynorthwyo athrawon dosbarth pwnc arbenigol i addysgu disgyblion SIY gyda chynorthwyr addysgu dwyieithog a hebddynt Hyblygrwydd i dimau Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau gydweddu anghenion a diwygio trefniadau i adlewyrchu eu hasesiad o anghenion	gweithgareddau addas heblaw am gymorth uniongyrchol yn y dosbarth a hyfforddiant i gefnogi integreiddio disgyblion SIY a'u cymhwysedd yn y Saesneg
Targedau priodol y gellir eu cyflawni, a defnydd priodol o adnoddau	Dyrannu'r gyllideb a thargedau i ALLau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n lleol ynglŷn â gwariant yn unol â gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Gosod targedau realistig (gwreiddiol a diwygiedig) Cronfa Gymdeithasol Ewrop i adlewyrchu anghenion, rhagolygon ac adnoddau a ddyrannwyd Gosod targedau ar gyfer deilliannau eraill i adlewyrchu amcanion y rhaglen (adeiladu capasiti, dilyniant, integreiddio)
Prosesau effeithiol i sefydlu cyflwyno gweithgareddau	Darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau tîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a recriwtiaid er mwyn datblygu'u sgiliau Addasu gofynion profiad er mwyn hwyluso recriwtio cynorthwyr addysgu dwyieithog â sgiliau priodol yn yr iaith gartref	Recriwtio cynorthwyr addysgu dwyieithog ac athrawon SIY pan oedd cronfa gyfyngedig o ymgeiswyr â'r holl sgiliau perthnasol Goresgyn prosesau recriwtio anhyblyg ALLau Darparu adnoddau ar gyfer rheoli a chyflwyno gweithgareddau newydd fel hyfforddiant a chymorth heb fod yn y dosbarth Sefydlu systemau cyffredin i gasglu'r wybodaeth reoli angenrheidiol

6.7 Mae hyn yn dangos bod y rhaglen wedi parhau i fodloni anghenion disgyblion, a'i bod yn gyffredinol wedi rhoi'r hyblygrwydd i ALLau i lywio'u hymateb a'u gweithredoedd. Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o'r ALLau (os nad bob un ohonynt) wynebu anawsterau o ran ehangu neu addasu eu gweithgareddau gyda'r cyllid ychwanegol. Gellir yn wir fod wedi rhagweld materion yn ymwneud â recriwtio staff ychwanegol â'r sgiliau priodol, er bod yr hyblygrwydd yn y rhaglen wedi galluogi rhai i ymateb yn gadarnhaol. Mae materion yn ymwneud â gosod targedau'n awgrymu bod systemau gwybodaeth reoli annigonol a chynlluniau wedi'u costio'n wael.

Tabl 6.2 Ystyried materion cyflwyno a pherfformiad

Disgwyliad	Wedi gweithio'n dda	Heriau
Prosesau a strwythurau effeithiol ar gyfer rheoli a monitro'r cyflwyno	Wedi sefydlu Cofnodion Cyflawniad Disgyblion ar gyfer disgyblion SIY ym mhob un o'r ALLau a (erbyn cyfnod mwy diweddar y rhaglen) systemau i fonitro ac adrodd ar dargedau deilliannau Cronfa Gymdeithasol Ewrop Darparu trosolwg o berfformiad ALLau a diwygio targedau a chyllidebau yr oedd modd eu cyflawni yn gyffredinol	Sefydlu cofnodion electronig ar gyfer monitro gan arweinwyr tîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a staff mewn ysgolion Amrywioldeb ym mherfformiad ALLau i gyflawni targedau gyda'r adnoddau a ddyrannwyd Anhawster yn cyfrif am wahaniaethau mewn dyraniadau, costau ac allbynnau a gyflawnwyd
Cyflwyno gweithgareddau ac allbynnau disgwylidiedig	Darparu gweithgareddau newydd a/neu weithgareddau wedi'u hehangu i gynorthwyo dysgwyr SIY gan bob un o'r ALLau, fel bod y gwasanaeth yn fwy cyflawn a holistaidd Bron â chyflawni targedau cyffredinol diwygiedig ar gyfer y niferoedd a gynorthwywyd, gwelliant o un lefel mewn Saesneg a chymwysterau yn yr iaith gartref	Cyflwyno hyfforddiant i athrawon dosbarth a staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig mewn rhai ALLau Cyflawni targedau diwygiedig mewn rhai ALLau (perfformiad amrywiol)
Cyflawni deilliannau disgwylidiedig	Cyflawniad uwch ar lefel TGAU ar gyfer disgyblion SIY yn yr ardaloedd MELAP, wedi lleihau'r bwlch mewn cyflawniad â'r rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY	Dangos tystiolaeth o'r effaith ar ddilyniant ac integreiddio Dangos effaith hyfforddiant; arwyddion bod ymyriadau hyfforddiant byr wedi cael llai o effaith

Disgwyliad	Wedi gweithio'n dda	Heriau
	Capasiti gwell gyda'r gallu i gynorthwyo disgyblion ag anghenion SIY, yn enwedig ar gyfer athrawon dosbarth yn Abertawe Canfyddiadau disgyblion ac ymarferwyr o gymorth yn gadarnhaol gan mwyaf o ran hyrwyddo gallu disgyblion i integreiddio a dysgu Tystiolaeth PASS o sgorau gwell yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda mwy o gynnydd ymhlith y rheiny a gynorthwywyd trwy gydol cyfnod y rhaglen	
Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflawni allbynnau a deilliannau	Ehangu gweithgareddau yr oedd yn hysbys eu bod yn gweithio'n dda	Canfod pa effaith gafodd elfennau o'r rhaglen, a ph'un a wnaeth gweithgareddau newydd (heblaw am hyfforddiant athrawon dosbarth) wahanuaeth
Cyflawni themâu trawsbynciol	Dylai ffocws ar gymhwysedd mewn Saesneg a chymwyseddau uwch a gyflawnwyd alluogi dysgwyr SIY i fanteisio'n well ar y cwricwlwm (gan gynnwys addysg amgylcheddol)	Nodi unrhyw effeithiau mesuradwy ar gynaliadwyedd amgylcheddol Darparu cymorth ar gyfer lleoliadau gwaith

6.8 Mae hyn yn dangos bod y rhaglen wedi cyflawni ei hallbynnau diwygiedig ar y cyfan, a'i bod wedi cyfrannu, yn ôl y disgwyl, at wella cyflawniad dysgwyr SIY ar lefel TGAU, ac yn bwysig, lleihau'r bwlch, a'u galluogi i wneud cynnydd mae'n debyg. Mae hyn yn ategu gwerth y cymorth a roddwyd tuag at roi'r cyfle i bob dysgwr gydweddu eu cyflawniadau â'u galluoedd trwy gaffael cymhwysedd mewn Saesneg a chymorth i ddysgu pynciau eraill. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i ALLau ac ysgolion, ac yn ffocws ar gyfer cyllid amddifadedd disgyblion. Fodd bynnag, mae'n anodd o hyd canfod pa agweddau ar gymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd wedi gwneud y gwahaniaeth hwn.

Tabl 6.3 Ystyried materion gwerth ychwanegol

Disgwyliad	Wedi gweithio'n dda	Heriau
Mae'r rhaglen hon yn darparu ychwanegedd	Fe wnaeth cyllid gynyddu nifer y dysgwyr SIY a gynorthwywyd ym mhob ALI Fe wnaeth cyllid gynyddu gweithgareddau (dyfnder a hyd y cymorth, staff a oedd ar gael yn nhimau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, rhaglenni hyfforddi ar gyfer athrawon dosbarth) i raddau amrywiol ym mhob ALI Fe wnaeth cyllid alluogi cyflawni cymwysterau mewn ieithoedd cartref	
Mae'r rhaglen yn darparu gwaddol	Mae systemau ar gyfer monitro disgyblion SIY wedi'u hymgorffori ym mhob ALI Mae hyfforddiant wedi cynyddu capasiti athrawon dosbarth mewn rhai ALLau (yn enwedig yn Abertawe) Mae'r gweithlu arbenigol medrus a oedd ar gael ar gyfer timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ac ysgolion wedi'i gynyddu, ac mae'n debyg ei fod yn cwmpasu ystod ehangach o ieithoedd cartref Mae gan staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ganolfan mewn mwy o ysgolion a phroffil uwch	Nid ymddengys bod rhannu arfer a dysgu wedi bod yn weithgaredd o bwys; dysgu o brofiad Abertawe o hyfforddi athrawon dosbarth Defnyddio gwybodaeth fonitro ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ganolog ac asesu gwerth cymorth gan arweinwyr tîm y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ym mhob ALI
Mae'r rhaglen yn gynaliadwy	Mae un ysgol yn parhau i ariannu cymorth ychwanegol gan y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, a dau ALI hefyd	Parhau i fodloni'r lefel galw bresennol gyda llai o adnoddau ar gyfer cynorthwywyr addysgu dwyieithog heb gynyddu gallu athrawon dosbarth i reoli Cynnal hyfforddiant a gweithgareddau eraill

6.9 Mae hyn yn awgrymu bod y rhaglen wedi darparu ychwanegedd. Er ei bod hefyd wedi darparu rhywfaint o sylfaen ar gyfer perfformiad gwell yn sgil adeiladu gallu a systemau i reoli cymorth i ddysgwyr SIY yn fwy effeithiol, mae'n destun pryder y bydd adnoddau'r rhaglen ar gyfer timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn lleihau wrth i'r rhaglen ddod i ben. Dylid fod wedi gwneud mwy o'r cyfle i wella gallu athrawon pwnc arbenigol yn yr ystafell ddosbarth i integreiddio dysgwyr SIY â'r dysgu drwy'r ffordd y maent yn addysgu a'r ffordd y maent yn gweithio gydag arbenigwyr sy'n darparu cymorth. Mae profiad Abertawe yn awgrymu bod hyn yn arfer da.

Sut gallai MELAP fod wedi bod yn fwy effeithlon ac effeithiol

6.10 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu mai'r materion allweddol mewn perthynas â rheoli oedd:

- Proffilio dysgwyr SIY presennol a thueddiadau mewn niferoedd er mwyn gosod targedau realistig ar gyfer deilliannau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a oedd hefyd yn adlewyrchu cyllid. Pe bai hyn wedi bod yn fwy cywir, byddai llawer llai o amser wedi cael ei dreulio yn diwygio'r rhain. Er mai ychydig o'r rheolwyr prosiect oedd â phrofiad o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a gofynion cyllid grant eraill, mae'r anghywirdebau a'r anawsterau yn awgrymu bod systemau gwael yn eu lle i fonitro niferoedd, anghenion a thueddiadau, ac i ragweld/dyrannu costau ar gyfer gweithgareddau bwriadedig gyda'r cyllid uwch. Gallai gwneud Cofnodion Cyflawniad Disgyblion ar gael yn ehangach, a'r profiad a gafwyd o recriwtio staff ychwanegol (cyn gallu cynyddu gweithgareddau) a hyfforddiant liniaru hyn yn y dyfodol;
- Recriwtio staff priodol i ehangu'r gwasanaeth a bodloni anghenion dysgwyr SIY. Gellir deall bod hyn wedi oedi llawer o ALLau a dylid fod wedi adlewyrchu hynny mewn deilliannau rhagamcanol. Gallai arfer hyblygrwydd mewn gofynion hanfodol (neu wneud hynny'n gynharach yn y broses) a phrosesau recriwtio fod wedi bod o gymorth. Gallai cael cronfa fwy o staff posibl a dysgu o'r profiadau hyn liniaru hyn yn y dyfodol;
- Casglu data electronig ar ddysgwyr SIY ar gael i staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion a gweddill y tîm a thystiolaeth o'r holl allbynnau a'r deilliannau a ddisgwyli'r o'r rhaglen.

Gwerthfawrogir bod anawsterau wrth sefydlu systemau yn ychwanegol at gofnodion disgyblion presennol, er mae'n amlwg yn bwysig monitro cynnydd disgyblion SIY er mwyn adolygu lefelau cymorth a'i effeithiolrwydd. Mae hyn yn cefnogi gwaith yr ysgol gyda dysgwyr ac yn helpu asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cymorth drud y mae'n rhaid ei ddogni'n ofalus. Mae'n anffodus mai ychydig o waith cofnodi a wnaed yn systematig er mwyn cipio allbynnau a deilliannau rhaglenni eraill a allai fod wedi gwella'r graddau y gellid fod wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil.

- 6.11 Ac mewn perthynas â gweithgareddau, y mater allweddol oedd dyrannu amser ac adnoddau i hyfforddi staff ysgolion i gynorthwyo a chefnogi dysgwyr SIY (a chael cydweithrediad ysgolion ar gyfer hyn). Mae'n anffodus na wnaeth pob ALI ddarparu hyfforddiant sylweddol yn ystod y rhaglen a allai fod wedi cael budd ehangach. Er bod sesiynau hyfforddi byr yn fwy cyffredin a'u bod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn y gall athrawon dosbarth ei wneud i gynorthwyo dysgwyr SIY, mae'n debygol y byddai hyfforddiant manwl a chymorth i newid arfer yn cael effaith fwy ac effaith barhaus a all hefyd wella effeithlonrwydd cymorth a roddir gan gynorthwywyr addysgu dwyieithog. I'r un graddau, er bod timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig wedi gallu sefydlu perthnasoedd gwell gydag athrawon dosbarth a chanolfan ar gyfer rhoi help a chynghor arbenigol mewn rhai ysgolion, efallai nad yw rheolwyr ysgolion mor ymwybodol ag y dylent fod o werth hyfforddiant ar gyfer athrawon arbenigol pwnc.

Beth ellir ei ddysgu o'r prosiect

- 6.12 Mae'r asesiad uchod yn arwain at rai gwersi ar gyfer polisi ac arfer yn ymwneud â SIY ar gyfer darparwyr gwasanaeth yr ALLau, WEFO a Llywodraeth Cymru.

Gwersi i ddarparwyr awdurdodau lleol

- 6.13 Gallai'r canlynol fod wedi gwneud gwahaniaeth:

- Cydnabod y byddai darpar staff yn brin ac addasu gofynion hanfodol yn unol â hynny fel y gwnaeth rhai yn ddiweddarach. I'r disgyblion hynny â Saesneg gwell, gallai cymorth dwyieithog fod yn llai angenrheidiol felly gallai

cynorthwydd addysgu medrus, nad yw'n meddu ar y sgiliau iawn yn yr iaith gartref o angenrheidrwydd, fod o fudd i'r disgybl;

- Ystyried staff posibl sydd wedi colli'u swyddi yn ymgeiswyr blaenoriaeth, ochr yn ochr ag ymgeiswyr eraill;
- Gallai addasu a mabwysiadu system Cofnod Cyflawniad Disgyblion Abertawe yn fwy cyflym ym mhob un o'r ALLau fod wedi cynorthwyo i fonitro'r rhaglen a rheoli gweithgareddau SIY yn y dyfodol. Byddai cael adnoddau gweinyddol ychwanegol yn nhimau'r prosiect wedi helpu;
- Defnyddio data gwaelodlin a model syml o effaith ddisgwyliedig y rhaglen i osod targedau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (y niferoedd a gynorthwyir ar hyn o bryd / nad ydynt yn cael eu cynorthwyo, tueddiadau, dyraniadau staff i weithgareddau a chostau). Gallai Llywodraeth Cymru fod wedi darparu'r model rhesymeg o'r achos busnes; a
- Defnyddio'r model rhesymeg i amlinellu disgwyliadau o'r ystod ehangach o gyflawniadau fel bod modd cytuno ar dargedau a deilliannau eraill ar gyfer pob ALL mewn perthynas â'u gweithgareddau cynlluniedig, a chytuno gofynion tystiolaeth ar gyfer monitro a gwerthuso ar y cychwyn.

Gwersi i Lywodraeth Cymru a WEFO

6.14 Byddai'r canlynol wedi gwneud gwahaniaeth:

- Sefydlu model rhesymeg ar gyfer y rhaglen fel rhan o'i hachos busnes i arwain monitro a gwerthuso;
- Cael dyddiad cychwyn ar ddechrau tymor yr haf ar gyfer rhaglen y mae angen staff ychwanegol yn eu lle arni erbyn dechrau blwyddyn ysgol;
- Sefydlu dull cyson i amcangyfrif targedau o ystyried y cyllid a gynigir; a
- Darparu arweiniad ar gynlluniau gwasanaethau, casglu data gwaelodlin a gwybodaeth reoli i ddangos tystiolaeth o gyflawniadau yn erbyn pob un o amcanion y rhaglen.

6.15 Mae dwy wers allweddol o ddeilliannau'r rhaglen y mae angen eu hystyried yn ehangach.

6.16 Yn gyntaf, mae'r rhaglen wedi cyfrannu at gynyddu cyrhaeddiad a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad. Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr â mentrau eraill mewn ysgolion yn yr ardal Gyddyfeirio, ond rhaid bod gwaith timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn ffactor arwyddocaol. Rhaid

cydnabod gwerth cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn cyngor i ysgolion ynglŷn â sut gallant leihau'r bylchau mewn cyflawniad y mae rhaglenni eraill yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd.

- 6.17 Yn ail, mae'r rhaglen wedi galluogi rhoi hyfforddiant manylach i athrawon dosbarth i addysgu dysgwyr SIY, i addasu eu harferion addysgu a dysgu sut y gallant weithio'n effeithiol gyda chynorthwyr addysgu dwyieithog ac athrawon arbenigol. Yn Abertawe, gwelwyd hyn yn fantais gadarnhaol. Mae hyn yn helpu cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn arweiniad wedi'i ddiweddarau i ysgolion a darpariaeth Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ALLau, a dylid ei fabwysiadu'n fwy cyffredinol.

Argymhellion

- 6.18 Dylai ALLau a Llywodraeth Cymru ystyried y gwersi uchod a chymryd camau priodol i'w rhoi ar waith, gan gynnwys eu lledaenu.

ATODIADAU

Atodiad 1 Astudiaethau achos

Ysgol yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful

Anghenion SIY yn yr ysgol

- A1.1 Yn 2005, roedd dau ddysgwr SIY yn Ysgol yr Esgob Hedley, ond erbyn hyn mae 116 yno (sef rhyw chwarter o boblogaeth yr ysgol). Mae mwyafrif y dysgwyr SIY o Wlad Pwyl neu o gefndiroedd eraill yn Nwyrain Ewrop. Cyn cael cyllid MELAP, un cynorthwyydd addysgu dwyieithog cyfwerth ag amser llawn oedd gan yr ysgol, ac roedd yn defnyddio gwirfoddolwyr i helpu cynorthwyo disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Ni welwyd bod y lefel cymorth y gallent ei darparu yn ddigonol. Erbyn hyn, mae pump o weithwyr cymorth SIY yn yr ysgol, cymysgedd o athrawon SIY a chynorthwywyr addysgu dwyieithog. Bellach, mae anghenion y disgyblion a'r amserlen cymorth yn cael eu hadolygu bob pythefnos.
- A1.2 Yn 2012, roedd y gwaith yr oedd y staff SIY yn ei wneud yn yr ysgol yn cael ei gydnabod gan yr ALL, a chafodd yr ysgol gyllid ychwanegol a ddefnyddiwyd i ariannu un swydd cynorthwyydd addysgu dwyieithog ychwanegol, byrddau gwyn rhyngweithiol, 25 o welyfrau, a chlustffonau.

Gweithgareddau a ddarparwyd yn yr ysgol

- A1.3 Dros gyfnod prosiect MELAP, mae cymorth y tu allan i'r dosbarth wedi'i gynnig yn yr ysgol, yn ychwanegol at fwy o gymorth yn y dosbarth. Sefydlwyd grŵp y tu allan i'r dosbarth i addysgu Saesneg i newydd ddyfodiaid. Gweithiodd yn dda, gan fod nifer fawr o newydd ddyfodiaid gydag anghenion ieithyddol uchel iawn. Aeth y dosbarth ati i ddefnyddio rhaglen Darllen / Ysgrifennu Rainbow, sy'n addas i ddisgyblion iau, ond gall ymddangos yn blentynnaidd i ddisgyblion hŷn. Mae'n helpu adeiladu eu cymhwysedd yn gyflym, a'u hyder gyda hynny, fel y gallant dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser os nad eu hamser i gyd yn eu dosbarthiadau prif ffrwd. Darparodd y staff cymorth SIY gymorth ychwanegol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 a 11 ar ôl ysgol hefyd, i'w helpu cyflawni graddau TGAU da.

Barnau staff cymorth SIY

A1.4 Adroddodd y gweithwyr cymorth SIY fod ystod a phroffil gwasanaethau SIY wedi gwella yn yr ysgol. Maent wedi canfod y canlynol:

- Bod y rhan fwyaf o'r athrawon pwnc yn gweithio'n flaenweithgar gyda'r tîm cymorth SIY. Er enghraifft, maent yn darparu taflenni gwaith i staff SIY wythnos cyn gwersi fel y gall y tîm SIY baratoi ar gyfer y dosbarth yn unol â hynny;
- Bod y ffocws ar wella sgiliau iaith newydd ddyfodiaid wedi dileu'r arfer mewn rhai achosion o ddyrannu disgyblion SIY i'r grwpiau gallu isaf oherwydd eu hanghenion iaith;
- Bod y cymorth yn y dosbarth ac ar ôl ysgol wedi helpu disgyblion SIY gyflawni graddau gwell yn eu pynciau. Er mai cynnydd fesul tipyn ydyw, credant ei fod yn gynnydd amlwg dros gyfnod;
- Maent wedi magu hyder disgyblion SIY i ymuno â'r Clwb Gwyddoniaeth, y Clwb Cymraeg a chlybiau chwaraeon;
- Mae cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol a sefydlwyd ganddynt wedi helpu rhieni i ddeall ynglŷn ag addysg eu plentyn ac i godi unrhyw rai o'r pryderon a oedd ganddynt. Erbyn hyn maent yn cael y cyfle i drafod materion, ac yn gallu trafod materion gyda staff SIY yn eu hiaith gartref.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.5 Teimlai staff yr ysgol eu bod yn gallu defnyddio technegau gweledol yn well wrth addysgu disgyblion SIY i esbonio cysyniadau, e.e. cartwnau. Teimlant fod hyn hefyd yn gwella deilliannau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn ddisgyblion SIY. Credent hefyd fod y dosbarthiadau tynnu allan ar gyfer newydd ddyfodiaid wedi rhoi hwb i hyder y disgyblion SIY fel nad oeddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi yn y misoedd cyntaf. Roedd y cynorthwyyr addysgu dwyieithog yn gymorth mawr, er enghraifft, o ran cynhyrchu geirfaoedd o derminoleg sylfaenol, y gellir eu defnyddio pan na fydd y cynorthwyydd addysgu

dwyeithog yn y dosbarth, a threfnu cyfeillion â Saesneg gwell i helpu gyda chyfieithu a gwella eu sgiliau cyfathrebu.

- A1.6 Mae effaith y staff cymorth SIY ychwanegol yn amlwg yng nghanlyniadau TGAU yr ysgol. Yn 2010/11, llwyddodd 30 y cant o ddisgyblion SIY yn eu harholiadau TGAU, o gymharu â 51 y cant ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY; Yn 2011/12, llwyddodd 76 y cant o ddisgyblion SIY yn eu harholiadau TGAU o gymharu â 70 y cant ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY.

Barnau disgyblion

- A1.7 Roedd nifer o'r disgyblion a gyfwelwyd yn cofio pan ddechreuont yn yr ysgol gyntaf eu bod yn teimlo eu bod wedi'u drysu gan y dosbarthiadau. Canfu disgyblion a oedd wedi mynychu dosbarthiadau tynnu allan am sawl diwrnod yr wythnos eu bod wedi dysgu Saesneg yn gyflym iawn, a'u bod yn gallu ymdopi'n well â dosbarthiadau arferol.
- A1.8 Roedd disgyblion yn croesawu'r newid polisi a oedd bellach yn caniatáu iddynt siarad eu hiaith gartref yn y dosbarth gan y gallent ddysgu oddi wrth gyfeillion yn ogystal â'r cynorthwyyr addysgu dwyeithog.

Ysgol yr Esgob Vaughan, Abertawe

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.9 Mae Ysgol yr Esgob Vaughan yn Ysgol Uwchradd Gatholig gerllaw ysbyty sydd wedi recriwtio llawer o staff tramor. Ar hyn o bryd, mae 230 o ddysgwyr SIY yn yr ysgol, gyda llawer ohonynt yn dod o Wlad Pwyl ac Ynysoedd y Philippinau. Cyn cael cyllid MELAP, roedd gan yr ysgol 1.25 o weithwyr cymorth SIY cyfwerth ag amser llawn, ac nid oedd yr ysgol yn gallu darparu cymorth i'r holl ddisgyblion SIY. Nid oedd swyddfa SIY y gallai disgyblion fynd iddi os oedd angen help arnynt. Gyda chyllid MELAP, mae gan yr ysgol 2.3 o staff cymorth SIY cyfwerth ag amser llawn, sy'n gallu ymdrin ag ystod ehangach o ieithoedd, ac mae eu swyddfa eu hunain gan y tîm i storio adnoddau a darparu cyfleuster galw heibio i'r holl ddisgyblion SIY. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn gallu cynorthwyo'r holl ddysgwyr SIY ym mlwyddyn saith.

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr ysgol

A1.10 Caiff yr holl gymorth bron ei ddarparu yn y dosbarth gydag un grŵp neu grwpiau mwy o ddisgyblion SIY. Mae'r tîm wedi mynd â rhai grwpiau bach allan o'r dosbarth i ganolbwyntio ar bynciau penodol. Er enghraifft, maent wedi gweithio gyda grŵp mathemateg i wella dealltwriaeth ac i ganfod gallu, fel bod modd eu cynorthwyo i ymgartrefu'n iawn.

A1.11 Mae hyfforddiant adeiladu gallu wedi'i ddarparu gan staff y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer athrawon pwnc mewn mathemateg, hanes a gwyddoniaeth. Mae hyn wedi galluogi'r athrawon hyn i deilwra eu gwersi a'u strategaethau addysgu fel bod dysgwyr SIY yn gallu deall heb for angen cymorth.

Barnau staff cymorth SIY

A1.12 Credai'r staff cymorth SIY yn gadarn nad â dysgu yn unig y mae a wnelo ysgol, a'u bod wedi galluogi disgyblion yn eu harddegau i deimlo'n esmwyth, yn hyderus ac yn hapus, a bod hynny wedi helpu eu presenoldeb a'u cyflawniad.

A1.13 Credant hefyd fod gan y tîm cymorth SIY broffil gwell yn yr ysgol erbyn hyn, a bod hynny wedi galluogi staff cymorth SIY i feithrin perthynas gryfach gyda disgyblion ac athrawon. Mae cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog yn gweithio'n agos ag athrawon pwnc i ddarparu adnoddau ar gyfer disgyblion SIY cyn gwersi cynlluniedig, fel enghreifftiau gweledol i helpu disgyblion ddeall cysyniadau. Rhoddant adborth i'r athro pwnc am y dysgwyr SIY i'w helpu i addasu eu haddysgu ar gyfer disgyblion SIY.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.14 Teimlai athrawon bod lefel y cymorth SIY sy'n cael ei ddarparu yn yr ysgol yn dda iawn erbyn hyn a bod cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog wedi helpu'r disgyblion SIY yn eu dosbarthiadau i fanteisio ar y cwricwlwm, yn ogystal â'u helpu i addysgu disgyblion SIY. Credent fod cadw disgyblion yn y dosbarth yn well na'u tynnu allan o'r dosbarth, gan fod eu habsenoldeb o'r dosbarth yn arwain at fylchau o ran gwybodaeth.

A1.15 Teimlai athrawon pwnc fod y tîm cymorth SIY wedi teilwra'r cymorth yr oeddent yn ei ddarparu yn ôl anghenion unigol y disgyblion. Mae'r staff cymorth SIY yn darparu adnoddau y gall yr athrawon eu defnyddio yn eu gwersi, fel rhestr geirfa penodol i bwnc, ac yn helpu'r athrawon gyda chynlluniau eistedd er mwyn sicrhau bod disgyblion SIY yn gallu helpu ei gilydd.

A1.16 Roedd y rheiny a oedd wedi cael hyfforddiant adeiladu gallu gan y tîm cymorth SIY yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag ef. Roedd wedi'u helpu i newid eu strategaethau addysgu a newid eu hagweddau at ddysgwyr SIY, yn ogystal â rhoi hwb i'w hyder yn eu gallu i addysgu dysgwyr SIY. Dywedont fod hyn wedi galluogi pob disgybl SIY i fod yn y set gywir ar gyfer eu gallu, fel y gallant gwblhau'r tasgau y mae eu gallu (yn hytrach na'u hiaith) yn eu caniatáu.

A1.17 Cafodd yr ysgol ei chanmol am ei darpariaeth cymorth SIY yn ei hadroddiad diweddaraf gan Estyn:

“Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer nodi anghenion disgyblion, eu cefnogi'n dda trwy ddarpariaeth brif ffrwd gynhwysol, a monitro eu cynnydd, yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau da y mae'r disgyblion hyn yn eu cyflawni.”

“Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn. Mae’r ffordd y mae’n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn dathlu cyflawniad yn nodweddiadol ragorol yn yr ysgol. Er enghraifft, mae bron i un o bob pum disgybl yn ymuno â’r ysgol o wledydd yn Affrica, dwyrain Ewrop neu’r Dwyrain Pell, ac mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyflym yn eu dysgu, wedi’u cefnogi’n dda gan y staff a’u cyfoedion”.

“Mae cynorthwyyr addysgu yn darparu cymorth da, yn enwedig i’r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.”

Barnau disgyblion

- A1.18 Mynegodd rhai o’r disgyblion SIY eu teimladau o bryder ac ofn pan ddechreuont yn ysgol yr Esgob Vaughan gyntaf, ond soniodd llawer hefyd am y modd yr oedd y staff cymorth SIY wedi’u helpu pan ddechreuont yn yr ysgol; er enghraifft, mynd â nhw o amgylch yr ysgol ac esbonio rheolau’r ysgol, a helpu disgybl i newid dosbarthiadau i fod gyda disgyblion eraill a oedd yn siarad yr un iaith gartref.
- A1.19 Dywedodd y disgyblion a gyfwelwyd eu bod wedi cael help yn y dosbarth gan y staff cymorth SIY, ond eu bod hefyd wedi defnyddio’r adnoddau y mae’r tîm cymorth SIY yn eu darparu, fel geiriaduron a geirfaoedd, yn ogystal â chael help gyda’u gwaith cartref a chymorth ychwanegol cyn arholiadau a phroffion.
- A1.20 Dywedodd yr holl ddisgyblion a gyfwelwyd fod staff cymorth SIY ar gael ac yn barod i’w helpu, a bod hynny’n arbennig o ddefnyddiol i ddisgyblion i gael help gyda’u gwaith cartref, neu pan nad oeddent yn deall gwers (fel y soniodd un disgybl pan oedd athro cyflenwi yn cyflwyno’r wers). Dywedodd rhai o’r disgyblion hefyd fod llythyrau a dogfennau’r ysgol wedi’u cyfieithu i’w hiaith gartref, bod galwadau ffôn gartref wedi’u gwneud yn iaith gartref eu rhieni, a bod staff cymorth SIY wedi mynychu nosweithiau rhieni er mwyn cynorthwyo eu rhieni; gwerthfawrogyd hynny gan eu rhieni.

Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones, Sir Ddinbych

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.21 Mae 70 o ddisgyblion SIY yn Ysgol Bendigaid Edward Jones, sef 14 y cant o'r holl ddisgyblion yn yr ysgol. Siaredir 20 o ieithoedd gwahanol yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion SIY yn cyrraedd yn uniongyrchol o'u gwlad gartref. Cyn cael cyllid MELAP, roedd y cynnig SIY yn yr ysgol yn gyfyngedig. Roedd un athro SIY a oedd yn gweithio ar draws pedair ysgol, a chymorth gan un cynorthwydd addysgu dwyieithog. Teimlai'r athrawon fod gwasanaethau SIY ar wahân i'r ysgol - roedd staff cymorth SIY yn dod i mewn i'r ysgol am ychydig oriau, ond nid oedd ganddynt lawer o amser na chyfle i ymgysylltu â'r athrawon. Golygai hyn fod y cyfathrebu rhwng staff SIY a'r ysgol yn wael. Ar ôl cyflwyno cyllid MELAP, mae gan yr ysgol athro SIY amser llawn erbyn hyn, yn ogystal â chymorth gan nifer o gynorthwywyr addysgu dwyieithog.

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr ysgol

A1.22 Y staff cymorth SIY sy'n darparu'r rhan fwyaf o gymorth yn y dosbarth i ddisgyblion penodol. Caiff rhywfaint o gymorth ei roi y tu allan i'r dosbarth (fel dosbarthiadau Saesneg ychwanegol), ond ysgogir hyn gan anghenion disgyblion am welliant sydyn yn eu Saesneg er mwyn cyfranogi yn y dosbarth gyda chymorth mwy cyfyngedig.

A1.23 Mae'r athro SIY yn yr ysgol wedi:

- Datblygu cyd-addysgu Saesneg TGAU gyda'r Pennaeth Saesneg drwy amserlennu pob un o'r disgyblion SIY yn yr un dosbarth (ynghyd â siaradwyr Saesneg brodorol), gweithio gyda'i gilydd i lunio cynlluniau gwersi ac addysgu'r cwricwlwm trwy gydol y flwyddyn. Aeth yr athro Saesneg ati i gynllunio'r gwersi o safbwynt cwricwlwm Saesneg, yna fe wnaeth yr athro SIY adeiladu ar y cynlluniau hyn i helpu dysgwyr SIY allu manteisio ar y gwersi;
- Darparu hyfforddiant SIY i'r holl staff addysgu yn yr ysgol. Am y teimlwyd nad oedd darparu hyfforddiant ar ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd yn gweithio, mae wedi darparu enghreifftiau ymarferol yn y swydd i athrawon

pwnc sydd â disgyblion SIY yn eu dosbarth, a strategaethau addysgu sy'n gweithio gyda disgyblion SIY (er enghraifft, sgaffaldio, addasu, dulliau gweledol), ac adnoddau.

Barnau staff cymorth SIY

- A1.24 Credir bod cyd-addysgu wedi bod yn fuddiol i ddisgyblion SIY yn ogystal â disgyblion eraill, a'r athro Saesneg. Mae dau athro yn y dosbarth gan y disgyblion, y ddau yn arbenigwyr iaith, yn lle un am y flwyddyn gyfan. Mae'r athro Saesneg wedi dysgu am addysgu disgybl SIY, ac mae gan yr athro SIY fwy o wybodaeth am beth i ganolbwyntio arno er mwyn helpu disgyblion gyflawni graddau gwell yn eu harholiad. Mae canlyniadau TGAU y disgyblion wedi dangos bod y bu'r cyd-addysgu yn llwyddiannus.
- A1.25 Cred y staff fod yr hyfforddiant a'r cymorth y maent wedi'u darparu i athrawon wedi helpu disgyblion, drwy fod rhai athrawon wedi newid eu strategaethau addysgu, er nad ydynt wedi monitro hyn yn systematig.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

- A1.26 Roedd athrawon yn falch â'r cymorth yr oedd y tîm cymorth SIY yn ei ddarparu.
- Adroddant eu bod wedi gallu mynd at y tîm cymorth SIY a chael cyngor neu help;
 - Roedd cymorth rheolaidd mewn dosbarthiadau TGAU yn sicrhau bod disgyblion SIY yn barod ar gyfer eu harholiadau, ac oherwydd hyn roedd graddau disgwyledig disgyblion SIY wedi gwella;
 - Canfu un athro fod hyfforddiant a llyfryn gwybodaeth ac arweiniad, yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o'r hyn y gallai staff addysgu wneud os oedd ganddynt ddisgyblion SIY yn eu dosbarth (er enghraifft, defnyddio lluniau wrth addysgu, esbonio testunau ar y bwrdd du, ac wynebu'r dosbarth wrth siarad) wedi helpu o ran newid arfer.

Barnau disgyblion

A1.27 Roedd un o'r disgyblion a gyfwelwyd yn cofio dechrau yn yr ysgol gyntaf.

Roedd wedi dod i'r ysgol yn uniongyrchol o'i wlad gartref, ac roedd yn poeni ynghylch arholiadau, yr amserlen a bwlio. Fe wnaeth yr athro SIY gyfarfod â'r disgybl ar y diwrnod cyntaf ac esbonio popeth ynglŷn â'r ysgol ac arholiadau. Teimlai'r disgybl fod hyn yn gysur mawr. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a gyfwelwyd yn mwynhau'r cymorth yr oeddent yn ei gael gan y staff cymorth SIY gan yr oeddent yn gallu esbonio'r hyn nad oeddent yn ei ddeall mewn gwersi, a helpu gyda gwaith cartref.

A1.28 Roedd un disgybl yn llai brwdfrydig ynghylch cymorth addysgu dwyieithog am nad oedd yn teimo bod angen y cymorth arno, ac y byddai'n well pe bai'n gofyn i'w ffrindiau a siarad Saesneg yn hytrach na'i iaith ei hun.

Ysgol Uwchradd Bro Pedr, Ceredigion

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.29 Mae rhyw 12 y cant o'r disgyblion yn yr ysgol yn ddysgwyr SIY, ac mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu. Pwyliaid yw'r grŵp mwyaf o ddysgwyr SIY. Cyn cael cyllid MELAP, dim ond un gweithiwr SIY rhan-amser oedd yn yr ysgol am ryw ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos. Ni chredwyd bod y lefel cymorth SIY yn yr ysgol yn ddigonol. Erbyn hyn mae pedwar aelod o staff yn darparu cymorth SIY yn yr ysgol, ac adroddodd y staff fod hyn yn bodloni'r anghenion.

Gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol

A1.30 Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn yr ysgol fel a ganlyn:

- Hyfforddiant ac arweiniad i athrawon i addasu eu dulliau addysgu (er enghraifft, siarad yn arafach ac yn fwy clir);
- Gofal bugeiliol i ddisgyblion mewn ystafell SIY ddynodedig yn ystod yr awr ginio;
- Cymorth yn y dosbarth;
- Cyfieithu llythyrau i ieithoedd cartref;
- Sesiynau y tu allan i'r dosbarth i hybu cymhwysedd yn y Saesneg; a
- Chymorth eirioli i ddisgyblion, yn enwedig sicrhau bod disgyblion SIY yn y grŵp gallu cywir.

Barnau staff cymorth SIY

A1.31 Adroddodd y staff cymorth SIY a gyfwelwyd am welliannau ar gyfer disgyblion SIY a'r ysgol o ganlyniad i'w gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Proffil gwell i wasanaethau SIY yn yr ysgol, gyda pherthnasoedd gwell gydag athrawon pwnc. Adroddodd staff cymorth SIY eu bod wedi cael eu cynnwys wrth gynllunio gwersi ac addasu cynnwys ar gyfer disgyblion SIY. Mae athrawon pwnc yn fwy ymwybodol o sgiliau staff cymorth SIY;

- Mae ffocws ar helpu newydd-ddyfodiaid i'r ysgol i integreiddio wedi helpu disgyblion i deimlo'n hapus ac yn gyffrorddus yn yr ysgol, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad; a
- Chyflwyno ystafell SIY bwrpasol, lle gall disgyblion SIY gael cymorth ar sail ad hoc. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus, gyda llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r cyfleuster i gwblhau gwaith cartref a chael cyngor ac arweiniad (er enghraifft, help gyda cheisiadau coleg a'r brifysgol).

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.32 Dywedodd staff yr ysgol a gyfwelwyd fod problem yn flaenorol o ran cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol, ac absenoliaeth ar gyfer rhai disgyblion SIY.

Aethpwyd i'r afael â'r broblem hon drwy'r staff SIY ychwanegol yn cyfieithu dogfennau ac yn cyfathrebu â theuluoedd.

A1.33 Adroddodd athrawon fod staff SIY yn rhoi cyngor iddynt ar y modd gorau i addysgu disgyblion SIY ochr yn ochr â'r cymorth yn y dosbarth y maent yn ei ddarparu i ddisgyblion (er enghraifft, technegau darlunio). Cred yr athrawon fod yr arweiniad hwn hefyd wedi helpu disgyblion nad oes ganddynt anghenion SIY.

A1.34 Caiff rhai disgyblion SIY eu tynnu allan o'r dosbarth ar gyfer gwersi Saesneg ychwanegol os ydynt yn ei chael hi'n anodd gyda'r iaith. Cred y staff addysgu fod hyn yn gweithio'n dda, gan y gall gadael y disgybl SIY yn yr un dosbarth â disgyblion eraill nad ydynt yn ddisgyblion SIY wneud iddynt deimlo'n nerfus a cholli hyder.

Barnau disgyblion

A1.35 Dywedodd rhai disgyblion SIY, pan gyrhaeddont yn yr ysgol gyntaf, eu bod wedi adnabod aelod o'r staff cymorth SIY, gan eu bod wedi darparu cymorth yn flaenorol yn eu hysgol gynradd. Fe wnaeth hyn eu helpu i deimlo'n gyffroddus â'r cymorth yr oeddent yn mynd i'w gael yn yr ysgol uwchradd.

A1.36 Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn hapus â'r cymorth y maent yn ei gael. Teimlent fod y cymorth a gânt yn eu helpu i ddeall eu gwaith pwnc. Adroddodd un disgybl fod y staff SIY yn ei helpu gyda'i gais i'r brifysgol.

A1.37 Dywedodd un disgybl nad oedd bob amser yn hoffi cael cymorth ychwanegol yn y dosbarth, gan yr oedd yn well ganddo ofyn i'w ffrindiau am help yn y dosbarth. Mae'r disgybl yn chwarae yn y tîm pêl-droed, a chredai fod hyn wedi'i helpu i ddysgu Saesneg.

Ysgol Cefn Saeson, Castell-nedd Port Talbot

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.38 Roedd 30 o ddisgyblion ag anghenion SIY yn mynychu'r ysgol yn 2012/13.

Mae nifer y disgyblion SIY wedi bod yn cynyddu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Daw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr SIY o Dde Asia (Bangladesh, Gwlad Thai, India ac Ynysoedd y Philippinau). Cyn cael cyllid MELAP, roedd tri aelod o staff cymorth SIY rhan-amser, ond roeddent yn gweithio yn yr ysgol gynradd ac yn dod i'r ysgol i gynorthwyo disgyblion penodol mewn rhai gwersi. Nid oedd ystafell SIY bwrpasol yn yr ysgol. Nid ystyriai'r ysgol bod y sefyllfa hon yn ddigonol. Erbyn hyn, mae dau aelod o staff yn darparu cymorth yn yr ysgol, y ddau ohonynt yn arbenigwyr ysgol uwchradd (roedd tri yn 2012). Mae lefel y cymorth y mae disgyblion yn ei gael wedi cynyddu ers dechrau cael cyllid MELAP.

Gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol

A1.39 Mae'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol gan staff cymorth SIY yn cynnwys:

- Cymorth yn y dosbarth;
- Cymorth SIY y tu allan i'r dosbarth;
- Gwasanaethau cyfieithu;
- Cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol, yn cynnwys gwasanaethau cyfieithu mewn digwyddiadau a nosweithiau rhieni;
- Cymorth pontio i ddisgyblion syn symud ymlaen i'r coleg; a
- Chymorth gyda chymwysterau yn yr iaith gartref.

A1.40 Teimla'r ysgol ei bod yn bwysig bod mor gynhwysol ag y bo modd, ac nid yw eisiau neilltuo dysgwyr SIY. Felly, ar ddechrau pob blwyddyn caiff llyfr ar eirfa a gramadeg ei ddosbarthu i bob disgybl, nid i ddisgyblion SIY yn unig.

Barnau staff cymorth SIY

A1.41 Credai'r staff cymorth SIY a gyfwelwyd fod y cymorth y maent yn ei ddarparu wedi cael effaith ar y disgyblion, yn enwedig o ran disgyblion yn cyflawni gwell canlyniadau yn y dosbarth, ac integreiddio a chymysgu'n llwyddiannus gyda disgyblion eraill yn yr ysgol. Mae'r agweddau penodol ar y cymorth a ddarparant, yr ystyriant eu bod wedi llwyddo, yn cynnwys:

- Y cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol, sydd wedi bod o fudd i deuluoedd dysgwyr SIY. Credant ei bod yn anodd i rieni gyfathrebu â'r ysgol mewn iaith anghyfarwydd, ynglŷn ag ysgol nad oeddent yn ei llawn ddeall (gan ei bod yn wahanol i'r system yn eu gwlad gartref). Mae'r cymorth a ddarparwyd wedi helpu cael gwared ar y rhwystrau hyn o ran cyfathrebu a deall;
- Y cymorth y tu allan i'r dosbarth a gyflwynwyd ganddynt, am ei fod wedi cynyddu hyder y disgyblion wrth siarad Saesneg, sy'n eu helpu i integreiddio yng nghymuned yr ysgol a gwneud ffrindiau;
- Proffil gwell gwasanaethau staff SIY a dysgwyr SIY yn yr ysgol. Yn flaenorol, roedd disgyblion SIY yn aml yn cael eu gosod mewn grwpiau gallu is, er bod y gallu potensial ganddynt i ddysgu. Nawr, mae staff SIY yn yr ysgol yn trafod setiau gyda'r athrawon pwnc; a
- Dull personol o roi cymorth, yn enwedig i'r disgyblion hynny sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o'u gwlad gartref yng Nghyfnod Allweddol 4.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.42 Mae'r athrawon pwnc wedi cael rhywfaint o hyfforddiant ynglŷn â strategaethau addysgu SIY ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd, ond ni fu unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn yr ysgol. Mae athrawon yn cael gwybodaeth ac arweiniad sy'n amlinellu strategaethau ar gyfer delio â disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd gyda'r Saesneg. Dywedodd un athro eu bod wedi dechrau defnyddio lluniau a ffotograffau er mwyn esbonio eu gwersi i ddisgyblion ag anghenion SIY.

A1.43 Teimlai'r staff fod y staff cymorth SIY, er yr amser cyfyngedig y maent yn ei dreulio yn yr ysgol, wedi llwyddo i:

- Wella sgiliau iaith dysgwyr SIY, sydd yn ei dro wedi galluogi disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm a gwella eu cyrhaeddiad mewn ystod ehangach o bynciau;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o ddisgyblion SIY yn yr ysgol, a'u diwylliannau a'u hieithoedd;
- Galluogi disgyblion i gael cymorth wrth drosglwyddo o Flwyddyn 11 i addysg ôl-16;
- Galluogi disgyblion i gyflawni cymwysterau yn yr iaith gartref; a
- Gwella'r cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol.

Barnau disgyblion

A1.44 Adroddodd disgyblion eu bod wedi cael cymorth yn y dosbarth yn y pynciau craidd Saesneg a Mathemateg, a dargedwyd fel angen penodol a oedd ganddynt (fel strwythuro traethodau, neu ffocws ar sillafu a gramadeg). Dywedodd un disgybl ei bod yn well ganddo gael ei dynnu allan o wersi, yn hytrach na chael cymorth yn y dosbarth, am nad oedd yn hoffi cael rhywun yn eistedd wrth ei ymyl.

A1.45 Cafodd tri o gyn-ddisgyblion o'r ysgol eu cyfweld, sydd yn mynychu coleg lleol ar hyn o bryd. Cawsant gymorth gyda dysgu Saesneg a chymorth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol. Hefyd, fe wnaeth y staff cymorth SIY helpu'r disgyblion gyda'u cais i fynd i'r coleg, eu cynorthwyo i ddod o hyd i gyrsiau addas, cynorthwyo gyda chysylltu â'r coleg a mynychu'r diwrnod cofrestru gyda'r disgybl. Teimlant y byddai wedi bod yn anoddach o lawer llwyddo yn eu harholiadau TGAU a mynd i'r coleg heb gymorth y staff cymorth SIY.

A1.46 Adroddodd un o'r rhieni a gyfwelwyd fod y cysylltiad rhwng y cartref a'r ysgol yn arbennig o bwysig iddynt am nad ydynt yn deall y system addysg yng Nghymru, felly mae arnynt angen i'r staff cymorth SIY esbonio rhai pethau iddynt, ac maent yn gwneud hynny.

Ysgol Coedcae, Sir Gaerfyrddin

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.47 Roedd 53 o ddisgyblion ag anghenion SIY yn mynychu'r ysgol yn 2012/13.

Mae nifer y disgyblion SIY wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf, a hynny yn sgil cynnydd yn nifer y disgyblion yn dod i'r ysgol o Ddwyrain Ewrop, a Gwlad Pwyl yn arbennig. Cyn cael cyllid MELAP, dim ond un athro SIY oedd yn gweithio yn yr ysgol. Nid ystyriwyd bod y lefel cymorth hon yn ddigonol, ac nid oedd y cymorth y gellid ei ddarparu yn gyson (nid yn yr un gwersi), ac roedd yn canolbwyntio ar ddatblygu iaith Saesneg bob dydd. Arweiniodd hyn at sefyllfaoedd lle byddai disgyblion ag anghenion SIY yn cael eu symud i grwpiau gallu is gan nad oedd y sgiliau iaith ganddynt i fanteisio ar y cwricwlwm. Erbyn hyn mae tri aelod o staff cymorth SIY yn gweithio yn yr ysgol.

Gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol

A1.48 Cymorth yn y dosbarth yw'r rhan fwyaf o'r cymorth a ddarperir yn yr ysgol.

Cafodd bron yr holl weithgareddau a ddarparwyd gan staff cymorth SIY yn yr ysgol eu darparu cyn cael cyllid MELAP, ond gall mwy o ddisgyblion gael eu cynorthwyo nawr, ac mae ffocws y cymorth wedi newid ychydig. Yn sgil mwy o staff cymorth SIY yn gweithio yn yr ysgol, mae disgyblion â lefel uwch o ran gallu yn y Saesneg yn cael cymorth erbyn hyn, nid disgyblion â lefelau isel o ran gallu yn y Saesneg yn unig, ac mae'r cymorth wedi'i dargedu mewn pynciau penodol erbyn hyn (fel Saesneg a hanes) yn hytrach nag iaith yn unig.

A1.49 Mae ychydig o weithgareddau newydd wedi'u darparu ers cyflwyno cyllid MELAP, gan gynnwys darparu cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol, clwb ar ôl ysgol ar gyfer dysgwyr SIY, a darparu hyfforddiant i athrawon pwnc mewn perthynas â strategaethau addysgu i ddisgyblion ag anghenion SIY, a sut i'w helpu i fanteisio ar y cwricwlwm.

Barnau staff cymorth SIY

A1.50 Credai'r staff SIY yn gryf fod y cymorth y maent wedi'i ddarparu wedi helpu disgyblion SIY i deimlo'n esmwyth ac yn hyderus yn yr ysgol, a bod hynny wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu presenoldeb a'u cyflawniad. Darperir y mwyafrif o'r cymorth yn y dosbarth, fel nad yw disgyblion yn cael eu tynnu allan yn gyson o'u dosbarthiadau. Fodd bynnag, adroddodd y staff SIY fod tynnu rhai grwpiau bach o ddysgwyr SIY allan o'r dosbarth a chanolbwyntio ar bynciau penodol wedi bod yn fuddiol iawn mewn rhai amgylchiadau. Cafodd pob un o'r staff yn yr ysgol hyfforddiant hanner diwrnod mewn theori addysgu SIY a chynghorion ymarferol ar gyfer addysgu disgyblion SIY, a gynhaliwyd gan y staff cymorth SIY.

A1.51 Adroddodd y staff fod hyfforddi athrawon i gynorthwyo disgyblion SIY wedi bod o fantais i'r rhai nad ydynt yn ddisgyblion SIY hefyd, yn enwedig y rhai ag AAA. Credai'r staff SIY eu bod wedi meithrin perthynas gadarnach gydag athrawon pwnc a'u bod yn gweithio'n agosach i gynllunio gwersi ar gyfer disgyblion SIY.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.52 Adroddodd yr athrawon eu bod wedi dod yn fwy ymwybodol o'r staff cymorth SIY a'u rôl. Fodd bynnag, teimlai'r athrawon hefyd y bu cynnydd yn nifer y dysgwyr SIY, felly bu angen y capasiti ychwanegol.

A1.53 Credai'r staff fod y sesiynau hyfforddi wedi cynyddu eu gwybodaeth, ond byddent wedi dymuno cael mwy o enghreifftiau ymarferol o ddelio â disgyblion SIY. O ganlyniad i'r hyfforddiant a gawsant, a chysylltu â staff SIY, dywedodd yr athrawon eu bod wedi newid eu dulliau addysgu yn y ffyrdd canlynol:

- Defnyddio delweddau a geiriau allweddol i helpu esbonio cysyniadau i ddisgyblion SIY (a rhai eraill yn yr ystafell dosbarth);
- Defnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiadau llechen i helpu gyda chyfarpar gweledol;
- Defnyddio rhestri geiriau allweddol sydd wedi'u creu ar gyfer pob adran;
- Ysgrifennu symiau a phroblemau mewn rhifau mewn mathemateg, yn hytrach nag mewn geiriau; ac

- Mewn Saesneg, darparu techneg bwrdd darlunio ar gyfer tasgau ysgrifennu estynedig (er bod hyn yn mynnu llawer iawn o amser ac nad yw'n bosibl ar gyfer pob tasg).

A1.54 Yn gyffredinol, credai'r staff pwnc a rheolwyr yr ysgol fod y gwelliant o ran cydlynu cymorth SIY ac ymwybyddiaeth o gymorth SIY yn yr ysgol wedi bod yn fuddiol i ddisgyblion (cael eu gosod yn y grŵp gallu cywir, gallu manteisio mwy ar y cwricwlwm a chael cymorth yn yr ysgol) ac i staff yr ysgol (disgyblion yn cyflawni canlyniadau gwell, disgyblion yn ymgysylltu mwy â'r dosbarth, gwybod pwy i holi ynghylch anghenion SIY).

Barnau disgyblion

A1.55 Adroddodd pob un o'r disgyblion eu bod wedi cael help, gyda chyfuniad o gymorth yn y dosbarth a chymorth y tu allan i'r dosbarth, i wella eu gallu mewn Saesneg. Dywedodd rhai o'r disgyblion eu bod wedi datblygu mecanweithiau ymdopi mewn dosbarthiadau ar y cyd â'r staff cymorth SIY, fel gofyn am help gan ffrind neu ddefnyddio gwirwyr sillafu ar gyfrifiaduron.

A1.56 Dim ond un disgybl a awgrymodd sut y gellid fod wedi gwella lefel y cymorth, ac y byddai wedi dymuno cael mwy o gyfieithu, yn enwedig cyfieithu tasgau neu gwestiynau, fel eu bod yn gallu deall beth yr oeddent i fod i'w wneud.

Ysgol Uwchradd Eirias, Conwy

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.57 Roedd 35 o ddisgyblion ag anghenion SIY yn mynychu'r ysgol yn 2012/13.

Mae nifer y disgyblion SIY wedi bod yn cynyddu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cyn cyflwyno cyllid MELAP, roedd yr ysgol yn cael cymorth gan weithwyr cymorth SIY, gan fod ynddi fwy o ddisgyblion SIY nag ysgolion eraill yn yr ardal. Mae pedwar aelod o staff SIY yn gweithio yn yr ysgol (mae hyn yn gynydd o gymharu â'r cyfnod cyn cael cyllid MELAP).

Gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol

A1.58 Mae'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol gan weithwyr cymorth SIY yr un fath â'r rhai a gynhaliwyd cyn cyllid MELAP. Fodd bynnag, gyda mwy o staff cymorth SIY, mae'r gweithgareddau'n cael eu cyflwyno i fwy o ddisgyblion. Cymorth yn y dosbarth yw'r mwyafrif o'r cymorth a ddarperir, ond mae staff cymorth SIY yn tynnu disgyblion allan o'r dosbarth i gael cymorth wedi'i dargedu ar sail un-i-un neu grŵp bach.

A1.59 Darparodd y staff cymorth SIY rywfaint o hyfforddiant i athrawon pwnc yn yr ysgol mewn perthynas â strategaethau addysgu SIY, a chynyddu ymwybyddiaeth o ddysgwyr SIY a'u hanghenion ymhlith holl staff yr ysgol.

Barnau staff cymorth SIY

A1.60 Credai'r staff cymorth SIY, gyda'r staff ychwanegol yn gweithio yn yr ysgol a'r gweithgareddau ychwanegol y maent yn gallu eu darparu, fod hyn wedi:

- Gwella proffil cymorth SIY yn yr ysgol, a bod hynny wedi helpu staff pwnc i ddod yn fwy ymwybodol o'r modd y gallant ddarparu cymorth yn y dosbarth. Erbyn hyn mae athrawon pwnc yn fwy rhagweithiol o ran gofyn am help ganddynt yn hytrach na'r staff SIY yn gorfod gwerthu'u hunain i'r staff;
- Darparu amser ar gyfer cymorth bugeiliol i newydd ddyfodiaid i'r ysgol. Credai'r staff fod hyn wedi helpu gwella hyder y disgyblion, a bod hynny'n helpu gwella eu cyflawniad; ac

- Wedi sicrhau ystafell SIY bwrpasol, lle gall staff gadw adnoddau a chynnig cymorth ad hoc i ddisgyblion SIY a staff prif ffrwd.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

- A1.61 Adroddodd yr athrawon pwnc eu bod hwythau a'r gweithwyr cymorth SIY yn cyfathrebu'n dda. Unwaith y tymor bydd yr athrawon a'r staff cymorth SIY yn trafod cynnydd yr holl ddysgwyr SIY y maent yn eu haddysgu, ac mae hynny yn helpu'r athrawon a'r staff cymorth SIY i gynllunio'r cymorth y maent yn ei ddarparu. Maent hefyd yn darparu adborth mewn dull mwy anffurfiol pan fyddant yn gweld y tîm SIY.
- A1.62 Roedd yr athrawon yn defnyddio'r ystafell SIY. Os oes problem ganddynt hwy neu gan ddisgybl (er enghraifft, angen cymorth ar ddisgybl i baratoi gwaith cwrs), gallant fynd yno a chnocio ar y drws, a bydd rhywun yno i'w helpu.
- A1.63 Cafodd yr athrawon hanner diwrnod o hyfforddiant ar strategaethau addysgu SIY, a ddarparwyd gan y staff cymorth SIY. Adroddodd yr athrawon fod yr hyfforddiant hwn wedi gwneud iddynt feddwl am eu harferion addysgu. Hefyd, fe wnaeth y cyflwyniad dynnu sylw athrawon hefyd at adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol nad oeddent yn gwybod amdanynt.
- A1.64 Mae rheolwyr yr ysgol yn ymwybodol bod barnau cymysg ynglŷn â darparu cymorth y tu allan i'r dosbarth i ddysgwyr SIY i wella eu Saesneg, ond ystyriant ei fod yn gweithio i'w hysgol nhw, yn enwedig gyda disgyblion sydd newydd gyrraedd o dramor ac â lefelau isel iawn o ran gallu yn y Saesneg.

Barnau disgyblion

- A1.65 Roedd y disgyblion a gyfwelwyd yn cofio eu bod wedi cael help a chefnogaeth ar unwaith gan y staff cymorth SIY wrth gyrraedd yr ysgol. Roedd un disgybl yn cofio mynd i'r dosbarth cymorth SIY yn fuan ar ôl dechrau yn yr ysgol, yn ogystal â chael help yn y dosbarth. Dywedodd y disgybl fod y cymorth y tu allan i'r dosbarth wedi'i helpu gyda'i Saesneg, ac nid oedd ots ganddo gael ei dynnu allan o'r dosbarth. Roedd dau ddisgybl yn cofio cael cymorth fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan yr ysgol, a'r rheolau yr oedd yn rhaid iddynt eu dilyn.

A1.66 Dywedodd dau o'r disgyblion fod ganddynt lefelau isel iawn o ran gallu yn y Saesneg pan gyrhaeddont gyntaf, a'u bod wedi treulio llawer o amser yn yr ystafell cymorth SIY, yn datblygu eu gallu mewn Saesneg. Fodd bynnag, maent bellach wedi'u hintegreiddio'n llawn yn yr ysgol, ac mae ganddynt lawer o ffrindiau. Credant fod y cymorth a gawsant wedi'u helpu'n fawr, nid yn unig yn academiaidd, ond yn gymdeithasol hefyd.

Ysgol Uwchradd Syr Thomas Picton, Sir Benfro

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.67 Mae 37 o ddysgwyr SIY yn yr ysgol, a siaredir ugain o ieithoedd gwahanol.

Mae nifer y disgyblion SIY yn yr ysgol wedi cynyddu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhai dysgwyr SIY wedi bod yn yr ysgol erioed. Cyn cyflwyno cyllid MELAP, roedd yr ysgol yn cael rhywfaint o gymorth gan y tîm Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn lleol, ac ategwyd hyn gyda chymorth gan staff ysgol y brif ffrwd (yn gynorthwyyr addysgu ac athrawon pwnc a oedd yn gallu siarad iaith ychwanegol). Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd hyn yn ddigon o gymorth. Erbyn hyn, mae tri o staff cymorth SIY ychwanegol yn gweithio yn yr ysgol.

Gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol

A1.68 Y staff cymorth SIY sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth yn y dosbarth. Caiff rhai disgyblion eu tynnu allan o'r dosbarth ac fe'u haddysgir i wella eu gallu yn y Saesneg os ydynt yn ei chael hi'n anodd. Teimla'r ysgol a'r staff cymorth SIY mai dull cynhwysol sydd orau, felly maent yn ceisio lleihau cymaint â phosibl nifer y disgyblion sy'n cael eu tynnu allan o'r dosbarth. Mae'r staff cymorth SIY yn darparu cymorth gyda chysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol, gan gynnwys cyfieithu llythyrau, siarad â rhieni dros y ffôn a chael eu stondin eu hunain yn ystod nosweithiau rhieni.

A1.69 Gan fod mwy o staff yn darparu cymorth SIY yn yr ysgol erbyn hyn, mae'r staff cymorth wedi gallu:

- Datblygu'n fwy penodol i bwnc - mae un cynorthwyydd addysgu yn darparu cymorth mewn mathemateg a phynciau gwyddoniaeth, ac mae un arall yn arbenigo yn y dyniaethau. Dywedont fod hyn wedi helpu eu gwybodaeth am yr hyn sydd ei angen mewn pwnc, ac i feithrin perthynas gyda'r staff addysgu;
- Darparu mwy o ofal bugeiliol (yn cynnwys cymorth ad hoc trwy gydol yr egwyl ginio, cymorth gyda gwaith cartref ar ôl ysgol, a chymorth i sicrhau

bod disgyblion yn cael eu hintegreiddio'n llawn yng nghymuned yr ysgol). Credai'r staff fod hyn yn arbennig o bwysig i'r disgyblion SIY.

- Ymweld ag ysgolion cynradd i gyfarfod â disgyblion SIY a fydd yn dod i'r ysgol yn y mis Medi canlynol er mwyn hyrwyddo trosglwyddo'n llwyddiannus o'r ysgol gynradd. Teimlent fod y dull hwn yn gweithio'n dda i gynorthwyo trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Barnau staff cymorth SIY

A1.70 Credai'r staff cymorth SIY a gyfwelwyd fod y cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol y maent yn eu darparu wedi helpu gwella presenoldeb mewn nosweithiau rheini, gan fod rhieni'n gallu siarad â'r tîm cymorth SIY yn eu hiaith gartref. Teimlai'r staff cymorth fod hyn yn helpu'r rhieni i ddeall beth sy'n digwydd yn yr ysgol, sy'n eu helpu i gynorthwyo eu plant gartref.

A1.71 Yn ôl y staff cymorth SIY, mae proffil y tîm cymorth SIY wedi gwella ers cael staff SIY yn barhaol yn yr ysgol ac ystafell SIY bwrpasol. Adroddodd y staff addysgu eu bod yn fwy agored o ran rhannu eu cynlluniau gwersi gyda'r staff SIY, ac maent yn barod i wrando ar eu mewnbwn ynglŷn ag addysgu'r disgyblion SIY.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.72 Adroddodd y staff addysgu eu bod bellach yn fwy ymwybodol o'r cymorth SIY sydd ar gael, a byddant yn gofyn am help gan y staff SIY pan fydd ganddynt broblemau. Mae'r staff SIY wedi helpu darparu atebion i broblemau gyda disgyblion SIY. Adroddodd yr athrawon eu bod bellach yn barod i roi cynnig ar weithgareddau a ddatblygwyd gan y staff cymorth SIY yn eu gwersi (er enghraifft, cyflwyno gemau bingo ar gyfer patrymau sillafu neu ymadroddion allweddol). Mae technegau eraill y mae staff cymorth SIY wedi'u hawgrymu i athrawon, ac y maent bellach yn eu defnyddio, yn cynnwys: rhoi amser meddwl ychwanegol i'r disgyblion; cyfieithu geiriau allweddol i iaith gartref y disgyblion; a darparu mwy o esboniadau gramadegol.

A1.73 Adroddodd rheolwyr yr ysgol eu bod yn cynllunio amserlenni ar y cyd â phennaeth y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, i sicrhau bod

dysgwyr SIY yn y grwpiau gallu cywir ar gyfer dosbarthiadau, ac maent yn rhoi disgyblion mewn dosbarthiadau gyda dysgwyr SIY eraill (sydd â gallu gwell yn y Saesneg) fel bod y disgyblion yn gallu helpu ei gilydd.

A1.74 Teimlai rheolwr yr ysgol fod y model cynorthwywyr addysgu yn datblygu arbenigeddau pwnc yn fodel da, gan fod gan y staff cymorth wybodaeth well am y pwnc a gallant helpu disgyblion yn annibynnol ar yr athro.

Barnau disgyblion

A1.75 Fe wnaeth rhai o'r disgyblion a gyfwelwyd fynychu ysgolion cynradd yn ardal yr ALI, ac maent yn cofio cyfarfod â'r gweithiwr cymorth SIY cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Credent fod hyn wedi'u helpu wrth ddechrau yn yr ysgol uwchradd, gan eu bod yn adnabod aelod o'r staff.

A1.76 Roedd yr holl ddisgyblion yn cael cymorth yn y dosbarth. Dywedodd y disgyblion fod yr help yr oeddent yn ei gael yn cynnwys esbonio ystyr geiriau, gwirio eu gwaith cartref a'u gwaith cwrs, chwarae gemau geiriau a darllen, a helpu gyda'u dewisiadau o bynciau yn y dyfodol. Roedd dau o'r disgyblion a gyfwelwyd wedi cael cymorth y tu allan i'r dosbarth, a oedd yn cynnwys ymarferion darllen mewn Saesneg. Credai pob un o'r disgyblion fod y cymorth yr oeddent wedi'i gael wedi'u helpu yn fawr.

Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent

Anghenion SIY yn yr ysgol

A1.77 Roedd llai nag 20 o ddisgyblion ag anghenion SIY yn yr ysgol yn 2012/13. Mae nifer y disgyblion SIY wedi cynyddu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr SIY naill ai o Bortiwgal neu Wlad Pwyl. Cyn cael cyllid MELAP, ychydig iawn o gymorth SIY oedd yn yr ysgol. Roedd un aelod o staff yn mynychu'r ysgol am gyfanswm o un diwrnod yr wythnos. Nid ystyriwyd bod y lefel hon o gymorth yn ddigonol i gynorthwyo dysgwyr SIY. Erbyn hyn, mae pedwar aelod o staff yn darparu cymorth yn rheolaidd yn yr ysgol. Nid yr ysgol yw eu canolfan weithio, ond byddant yn dod ar ddiwrnodau penodol i helpu rhai disgyblion.

Gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol

A1.78 Mae'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol gan y staff cymorth SIY yn cynnwys:

- Cymorth yn y dosbarth;
- Cymorth y tu allan i'r dosbarth – cymorth un-i-un, neu waith grŵp y tu allan i'r dosbarth;
- Clwb ar ôl ysgol;
- Darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddisgyblion;
- Cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol – cynorthwyo â chyfieithu dogfennau'r ysgol, dehongli, a chymorth yn ystod nosweithiau rheini; a
- Hyfforddiant yn cael ei ddarparu i athrawon neu gydweithwyr.

Barnau staff cymorth SIY

A1.79 Credai'r staff cymorth SIY y bu effaith MELAP yn gadarnhaol – nid yn unig i'r disgyblion, ond i'r ysgol a'r gymuned leol. Mae'r effeithiau cadarnhaol yr adroddwyd amdanynt gan y staff cymorth SIY yn cynnwys:

- Mae staff cymorth SIY wedi gallu treulio mwy o amser yn yr ysgolion y maent yn gweithio ynddynt, a olygai bod y staff yn treulio llai o amser yn teithio rhwng ysgolion ac yn defnyddio'u hamser yn fwy effeithlon. Golygai hyn hefyd fod y cymorth yn fwy cyson a bod y berthynas rhwng yr ysgol, y disgyblion a'r staff cymorth SIY yn un gadarnhaol;
- Mae'r berthynas rhwng teuluoedd disgyblion SIY a'r ysgol wedi gwella. Gall rhieni gyfathrebu â'r ysgol yn eu hiaith gartref drwy'r staff cymorth SIY, a gallant ymwneud yn fwy gweithredol â dysgu eu plentyn;
- Mae rhai disgyblion SIY yn darllen mwy nag yr arferent wneud, mae eu presenoldeb a'u hymddygiad wedi gwella, ac maent wedi dod yn fwy integredig yng nghymuned yr ysgol; ac
- Mae proffil y staff cymorth SIY yn yr ysgol wedi gwella, ac mae eu perthnasoedd gyda'r athrawon wedi gwella.

A1.80 Dywedodd y staff cymorth SIY ei bod yn well ganddynt dynnu disgyblion allan o'r dosbarth i ddarparu cymorth iddynt, am y gall darparu cymorth dwys yn y dosbarth dynnu sylw disgyblion oddi ar eu gwaith.

Barnau athrawon pwnc a rheolwyr yr ysgol

A1.81 Credai'r athrawon pwnc yn yr ysgol fod y cymorth er 2010 wedi datblygu'n fwy cyson, ac yn fwy safonedig nag o'r blaen. Teimlant yn fwy cyfforddus â'r staff cymorth SIY, am eu bod yn treulio mwy o amser yn yr ysgol. Mae'r athrawon hefyd wedi trefnu eu cynllun eistedd fel bod disgyblion SIY yn eistedd wrth ymyl disgyblion a all helpu, hyd yn oed pan na fydd y staff SIY yno.

A1.82 Roedd rheolwr yr ysgol yn canmol y gweithwyr cymorth SIY, gan ddweud bod y tîm yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud dan eu contract. Mae'r cymorth y maent wedi'i ddarparu wedi helpu disgyblion SIY gyda'u cyflawniad, ond gyda'u presenoldeb hefyd.

Barnau disgyblion

A1.83 Roedd un disgybl yn cofio gorfod darllen rhywfaint o Saesneg, i weld pa mor dda yr oeddent, ac fe'u tynnwyd allan o'u gwrs i wneud hynny. Dywedodd y

rhan fwyaf o'r disgyblion eu bod yn cael eu tynnu allan o'u gwersi i gael cymorth, a oedd y cynnwys cymysgedd o ddysgu Saesneg a thestunau penodol i wersi. Roedd y gwersi y tynnwyd disgyblion allan ohonynt yn cynnwys mathemateg, Cymraeg, Ffrangeg ac ymarfer corff.

Atodiad 2 Gwybodaeth fanwl o Wybodaeth Reoli

Tabl A2.1 Ethnigrwydd manwl y cyfranogwyr

Ethnigrwydd	Nifer	%	Ethnigrwydd	Nifer	%	Ethnigrwydd	Nifer	%
Pwylaidd	332	18.3%	Du Ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	13	0.7%	Sinhalesaidd	4	0.2%
Bangladesh-aidd	310	17.1%	Nigeraidd	13	0.7%	Prydeinig Du Affricanaidd	3	0.2%
Ffilipinaidd	100	5.5%	Rwsiaidd	13	0.7%	Ffrengig	3	0.2%
Indiaidd	77	4.2%	Affganistanaidd	11	0.6%	Groegaidd/ Cypraid Groegaidd	3	0.2%
Arabaidd	68	3.7%	Sbaenaidd	11	0.6%	Japaneaidd	3	0.2%
Portiwgeaidd	67	3.7%	Koreaidd	10	0.6%	Slofacaidd	3	0.2%
Arall	47	2.6%	Cwrdaidd	10	0.6%	Fietnameaidd	3	0.2%
Affricanaidd Du Arall	45	2.5%	Tamil Sri Lankaidd	9	0.5%	Yemeniaidd	3	0.2%
Gwyn - Ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	43	2.4%	Affricanaidd	8	0.4%	Asiaidd	2	0.1%
Pacistanaid Arall	41	2.3%	Asiaidd Affricanaidd	8	0.4%	Asiaidd a Tsieiniaidd	2	0.1%
Gwyn Ewropeaidd Arall	40	2.2%	Tsiecaidd	8	0.4%	Caribiaidd	2	0.1%
Thai	39	2.1%	Unrhyw gefndir Asiaidd arall	7	0.4%	Tras Ddeuol: Gwyn ac Asiaidd	2	0.1%
Iracaidd	34	1.9%	Tras Ddeuol: Gwyn a Du Affricanaidd	7	0.4%	Tras Ddeuol: Gwyn a Du Caribiaidd	2	0.1%
Tsieiniaidd Arall	33	1.8%	Hwngaraidd	7	0.4%	Sipsi Arall/ Sipsi Roma	2	0.1%
Twrcaidd/ Cypraid Twrcaidd	31	1.7%	Eidalaidd	7	0.4%	Sudaneaidd	2	0.1%
Lithwanaidd	27	1.5%	Tsieiniaidd Malaysiaidd	7	0.4%	Unrhyw gefndir Du arall	1	0.1%

Ethnigrwydd	Nifer	%	Ethnigrwydd	Nifer	%	Ethnigrwydd	Nifer	%
Gwyn Prydeinig	27	1.5%	Unrhyw gefndir Tras Ddeuol arall	6	0.3%	Asiaidd a Du	1	0.1%
Asiaidd ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	25	1.4%	Bwlgaraidd	6	0.3%	Bosniaidd-Herzegofinaidd	1	0.1%
Tsieiniäidd ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	23	1.3%	Libaneaidd	6	0.3%	Sipsi/Sipsi Roma o Wledydd Eraill	1	0.1%
Tsieineaidd	20	1.1%	Malayaidd	6	0.3%	Maltaidd	1	0.1%
Latfiaidd	18	1.0%	Ewropeaidd Du	5	0.3%	Teithiwr Arall	1	0.1%
Unrhyw Gefndir Gwyn Arall	17	0.9%	Eifftaidd	5	0.3%	Serbiaidd	1	0.1%
Almaenig	17	0.9%	Nepalaidd	5	0.3%	Sierra Leonaidd	1	0.1%
Tsieiniäidd Hong Kong	15	0.8%	Somaliäidd	5	0.3%	Taiwaneiaidd	1	0.1%
Iranaidd	15	0.8%	Wcrainaidd	5	0.3%	Gwyn a Tsieiniäidd	1	0.1%
Libyaidd	15	0.8%	Du	4	0.2%	Dim Ymateb	89	
Rwmanaidd	15	0.8%	Ghanaidd	4	0.2%	Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	40	
Pacistanaidd	14	0.8%	Americanaidd - Lladin/De/Canolbarth	4	0.2%			

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013

Tabl A2.2 Ysgolion lle darperir gweithgareddau drwy MELAP

Awdurdod Lleol	Enw'r ysgol	Nifer y disgyblion a gynorthwywyd
Blaenau Gwent	Ysgol Gyfun Abertyleri	12
	Ysgol Gyfun Brynmawr	4
	Ysgol Gyfun Glynebwy	7
	Ysgol Gyfun Glyncoed	1
	Ysgol Gyfun Tredegar	13
Sir Gaerfyrddin	Ysgol Cwm Aman	1
	Ysgol Bryngwyn	18
	Ysgol Coedcae	24
	Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth	16
	Ysgol Gyfun Gatholig Sant John Lloyd	41
	Ysgol Gyfun Tregib	1
Ceredigion	Ysgol Gyfun Penglais	49
	Ysgol Gyfun Aberaeron	6
	Ysgol Gyfun Llanbedr-Pont-Steffan	64
	Ysgol Uwchradd Aberteifi	16
Conwy	Ysgol Uwchradd Eirias	28
	Ysgol Aberconwy	9
	Ysgol Bryn Elan	7
	YSGOL DYFFRYN CONWY	3
	Ysgol Emrys Ap Iwan	2
	Ysgol John Bright	27
Sir Ddinbych	Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones	31
	Ysgol Uwchradd Dinbych	10
	Ysgol Uwchradd Prestatyn	12
	Ysgol Uwchradd y Rhyl	6
	Ysgol Brynhyfryd	10

Awdurdod Lleol	Enw'r ysgol	Nifer y disgyblion a gynorthwywyd
	Ysgol Dewi Sant	1
	Ysgol Dinas Brân	5
Merthyr Tudful	Ysgol Uwchradd Afon Taf	8
	Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley	120
	Ysgol Uwchradd Cyfarthfa	12
	Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre	2
Castell-nedd Port Talbot	Ysgol Gynradd Baglan	1
	Ysgol Gyfun Cefn Saeson	15
	Ysgol Iau Central	8
	Ysgol Gynradd Coedffranc	4
	Ysgol Gymunedol Cwmtawe	1
	Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart	5
	Ysgol Gyfun Cymer Afan	2
	Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin	2
	Ysgol Dyffryn	4
	Ysgol Gymunedol Llangatwg	2
	Ysgol Iau Melin	2
	Coleg Castell-nedd Port Talbot	1
	Ysgol Gyfun Sandfields	7
	Ysgol Gynradd Sandfields	3
	Ysgol Gatholig a Canolfan Chweched Dosbarth Joseph Sant	9
	Ysgol Gatholig y Santes Therese	1
	Ysgol Gynradd Ynysfach	1
	Ysgol Gyfun Ystalyfera	2
Sir Benfro	Ysgol Aberdaugleddau	29
	Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro	1

Awdurdod Lleol	Enw'r ysgol	Nifer y disgyblion a gynorthwywyd
	Ysgol Penfro	30
	Ysgol Syr Thomas Picton	51
	Ysgol Tasker-Milward a Reolir yn Wirfoddol	39
	Ysgol Greenhill	45
	Ysgol Bro Gwaun	6
	Ysgol Dewi Sant	6
Abertawe	Ysgol Gyfun Birchgrove	30
	Ysgol yr Esgob Gore	295
	Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan	243
	Ysgol Gyfun Bishopston	17
	Adeilad Carillion d/o Ysgol Gyfun Treforys	50
	Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed	31
	Ysgol Gymunedol Daniel James	3
	Ysgol Gymunedol Dylan Thomas	49
	Ysgol Gynradd Tre-gŵyr	1
	Ysgol Tre-gŵyr	25
	Ysgol Olchfa	185
	Ysgol Gyfun Pentrehafod	129
	Ysgol Gyfun Penyrheol	27
	Ysgol Gyfun Pontarddulais	11
	Ysgol Gyfun Bryn Tawe	2
	Ysgol Pen-y-Bryn	2

Ffynhonnell: Cronfa ddata disgyblion MELAP, Hydref 2013

Atodiad 3 Gweithgareddau a gyflwynwyd

Tabl A3.1 Gweithgareddau a gyflwynwyd yn ôl Awdurdod Lleol

Gweithgaredd	Blaenau Gwent	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy/ Sir Ddinbych	Merthyr Tudful	Castell-nedd Port Talbot	Sir Benfro	Abertawe	Cyfanswm ALlau
Integreiddio newydd ddyfodiaid yn effeithiol i amgylchedd yr ysgol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Darparu cysylltiadau rhwng y cartref/ysgol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Gwasanaethau cymorth dwyieithog gwell	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Gwasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) gwell	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Cynlluniau mentora a chymorth, yn enwedig mewn perthynas â phontio	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Ehangu gwasanaethau cyfieithu a dehongli	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Cymorth gydag Arholiadau TGAU, UG ac A2 yn yr Iaith Gartref	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8
Cymorth gwell ar gyfer trosglwyddo ôl-16 i lwybrau dysgu a ddewiswyd	✓	✓	✓			✓	✓	✓	6
Cymorth astudio ar ôl ysgol integredig		✓			✓	✓	✓	✓	5
Gweithio gyda rhieni i gynyddu cymorth addysgol yn y cartref a'r gymuned		✓		✓		✓	✓		4

Gweithgaredd	Blaenau Gwent	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy/ Sir Ddinbych	Merthyr Tudful	Castell-nedd Port Talbot	Sir Benfro	Abertawe	Cyfanswm ALLau
Integreiddio â chymorth yn y gymuned drwy gryfhau cysylltiadau â gwasanaethau cymorth ieuenctid		✓			✓	✓		✓	4
Arweiniad gyrfaoedd gwell a lleoliadau profiad gwaith gwell		✓	✓			✓	✓		4
Cymorth eirioli			✓			✓	✓		3
Darparu hyfforddiant SSIE i rieni					✓	✓	✓		3
Cryfhau a thargeddu'r ddarpariaeth gwybodaeth ieuenctid/addysg dinasyddiaeth						✓			1
Darparu cyrsiau "iaith gartref" i'r holl ddisgyblion									0

Ffynhonnell: Cyfweiliadau â rheolwyr prosiect ALLau

Tabl A3.2 Sut caiff gweithgareddau eu cyflwyno

Gweithgaredd	Disgrifiad
Integreiddio newydd ddyfodiaid yn effeithiol i amgylchedd yr ysgol	Gwneir hyn fel arfer wrth i'r myfyriwr gofrestru gyda'r ysgol. Caiff y myfyriwr a'i rieni eu cyflwyno i'r ysgol gan staff yr ysgol, a'u cyflwyno i'r rheolau a'r gofynion, a'r staff. Ar yr adeg hon bydd staff MELAP a'r disgybl yn cwblhau'r asesiad cychwynnol o'i allu yn yr iaith Saesneg, a phenderfynir ar lefel y cymorth sydd ei angen arno. Gwneir hyn fel arfer gan arweinydd Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr ALI neu'r athro SIY, er y gall y cynorthwyyr addysgu dwyieithog gyflawni'r gweithgaredd hwn hefyd mewn rhai awdurdodau lleol. Os oes angen cymorth dwys ar y disgybl, bydd yn cael ei diwtora ar sail un-i-un cyn cael ei gyflwyno i leoliad ystafell ddosbarth.
Darparu cysylltiadau rhwng y cartref/ysgol	Gwneir hyn yn gyffredinol gan y cynorthwyyr addysgu dwyieithog, a chan gyfieithwyr a dehonglwyr os bydd angen. Bydd y staff hyn yn helpu ysgolion i gyfathrebu â rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid drwy gyfieithu deunydd ysgrifenedig i'w anfon o'r ysgol i'r cartref, gwneud galwadau ffôn i gartrefi disgyblion, annog rhieni i fynychu digwyddiadau'r ysgol, fel nosweithiau rhieni a pherfformiadau'r ysgol, a darparu cymorth i rieni yn y digwyddiadau hyn.
Gwasanaethau cymorth dwyieithog estynedi	Mae 'Darparu cysylltiadau rhwng y cartref/ysgol' uchod yn ymdrin â rhywfaint o'r gweithgaredd hwn. Bydd staff MELAP hefyd yn darparu cymorth dwyieithog yn y dosbarth os oes ei angen ar ddisgyblion. Gall hyn hefyd ymestyn i ddeunyddiau wedi'u cyfieithu a baratowyd ymlaen llaw (gan gynnwys cyfieithu geiriau neu ymadroddion penodol cyn gwers) yn ogystal â helpu myfyrwyr yn eu hiaith eu hunain yn y dosbarth pan fydd angen. Cyflawnir y gweithgaredd hwn gan y cynorthwyyr addysgu dwyieithog neu'r athrawon SIY.
Gwasanaethau Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) estynedig	Mae athrawon SIY a chynorthwyyr addysgu dwyieithog wedi gallu darparu cymorth mewn mwy o ddosbarthiadau neu ddarparu cyfnodau hwy o gymorth dwys i helpu disgyblion SIY.
Hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth staff addysgu mewn ysgolion	Yn gyffredinol, cyflawnir hyn gan athrawon SIY, er y bydd y cynorthwyyr addysgu dwyieithog yn darparu hyn mewn rhai ALLau. Mae cynyddu ymwybyddiaeth ffurfiol yn cynnwys athrawon SIY yn rhoi cyflwyniadau ynglŷn â SIY, cynnal digwyddiadau lle bydd myfyrwyr SIY yn cyflwyno gwaith, ac, mewn un ardal, cynllun lle mae rhai myfyrwyr SIY yn cael sesiwn gydag athrawon ysgol uwchradd lle byddant yn siarad yn eu hiaith gartref yn unig, fel bod athrawon yn cael dealltwriaeth o sut beth ydyw i gael rhywun yn siarad mewn iaith nad eu hiaith nhw ydyw. Caiff hyfforddiant ffurfiol ei ddarparu hefyd gan staff MELAP mewn ysgolion, er mwyn gwella arfer addysgu a meithrin gallu SIY yn y dyfodol. Hyfforddiant mewn grwpiau bach yw hwn yn gyffredinol (un neu ddwy adran mewn ysgol ar y tro) i drafod ffyrdd penodol iddynt allu newid eu dull o addysgu er mwyn galluogi dysgwyr SIY i ddeall y cwricwlwm heb gymaint o angen am gymorth ychwanegol yn y dosbarth. Dylai'r hyfforddiant meithrin gallu hwn ddarparu buddion ychwanegol i fyfyrwyr nad ydynt yn rhan o MELAP hefyd, gan y gall yr hyfforddiant olygu bod athrawon yn defnyddio iaith gliriach a mwy o gyfarpar gweledol, a fydd yn helpu myfyrwyr â nam gweledol neu glywed a myfyrwyr eraill sy'n ei chael hi'n anodd gydag iaith (er


Gweithgaredd	Disgrifiad
	enghraifft, dyslecsia).
Cynlluniau mentora a chymorth, yn enwedig mewn perthynas â phontio	Mae'r cynorthwyyr addysgu dwyieithog ac athrawon SIY yn gweithredu fel mentoriaid ar gyfer disgyblion MELAP, gan gynnig cyngor iddynt ar unrhyw destun y bydd yr aelod staff MELAP yn teimlo y gall ateb. Mewn achosion lle bydd athrawon SIY yn teimlo nad ydynt yn gallu darparu cyngor neu arweiniad, byddant yn cyfeirio'r myfyriwr at unigolyn/sefydliad a all helpu. Mae rhai ALLau yn darparu cynlluniau mentora ychwanegol hefyd, fel ystafelloedd galw heibio, lle gall cyfranogwyr MELAP ofyn am gyngor ar faterion perthnasol, yn ogystal â gofyn am gymorth gyda'u gwaith cartref. Mae'r mentora yn bwysig ar adegau trosglwyddo – pan fydd y disgybl newydd ddechrau yn yr ysgol, pan fydd yn gwneud dewisiadau TGAU a phan fydd yn cyrraedd 16 oed ac yn ystyried llwybrau gyrfa posibl.
Gwasanaethau cyfieithu a dehongli estynedig	Mae'r gweithgaredd hwn yn cysylltu â'r rheiny a ddisgrifir o dan y gweithgareddau "Darparu cysylltiadau rhwng y cartref/ysgol" a "Gwasanaethau cymorth dwyieithog estynedig". Bydd cynorthwyyr addysgu dwyieithog a chyfieithwyr/dehonglwyr yn darparu cyfieithu a dehongli pan fydd angen, a all arwain at gyfieithu dogfennau mawr a gwneud gwaith dehongli ar gyfer rhieni disgyblion.
Cymorth gydag Arholiadau TGAU, UG ac A2 yn yr Iaith Gartref	Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu disgyblion i gael cymhwyster yn eu hiaith gartref. Yn aml, bydd gallu llafar da iawn gan y disgybl yn ei iaith gartref, ond bydd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â llenyddiaeth (ysgrifennu a dealltwriaeth). Bydd yr athrawon SIY neu'r Cynorthwyyr Addysgu dwyieithog (pwy bynnag sydd ag arbenigedd yn yr iaith) yn helpu addysgu'r myfyriwr yn ôl gofynion y cwricwlwm. Bydd staff MELAP hefyd yn darparu cymorth mewn arholiadau eraill lle bo angen, er enghraifft, fel darllenydd.
Cymorth gwell ar gyfer trosglwyddo ôl-16 i lwybrau dysgu a ddewiswyd	Gwneir hyn yn anffurfiol yn gyffredinol. Bydd yr athrawon SIY a'r cynorthwyyr addysgu dwyieithog yn cysylltu â Gyrfa Cymru a'r disgyblion i ganfod beth maent eisiau gwneud. Byddant wedyn yn ymchwilio i weld pa un a yw'n bosibl i'r disgybl ddilyn ei lwybr dewisedig, ac yn ei helpu gyda'i gais.
Cymorth astudio ar ôl ysgol integredig	Mewn rhai ALLau caiff y gweithgaredd hwn ei ddarparu gan staff MELAP yn mynychu grwpiau cymorth astudio ar ôl ysgol presennol, er enghraifft, clybiau gwaith cartref a dosbarthiadau adolygu TGAU, er mwyn i'r ddarpariaeth fod yn gynhwysol a pheidio â neilltuo cyfranogwyr MELAP. Mae Awdurdodau Lleol eraill yn darparu cymorth ar ôl ysgol i gyfranogwyr MELAP yn benodol, er enghraifft, clybiau gwaith cartref i fyfyrwyr Pwylaidd gydag aelod Pwylaidd o staff, i ddarparu clwb wedi'i deilwra at anghenion y cyfranogwyr. Cyflawnir y gweithgaredd hwn gan yr athrawon SIY neu'r cynorthwyyr addysgu dwyieithog.
Gweithio gyda rhieni i gynyddu cymorth addysgol yn y cartref a'r gymuned	Lle darperir hyn, caiff ei wneud fel arfer gan y cynorthwyyr addysgu dwyieithog ac athrawon SIY, a gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn bennaf yn hytrach na sefydliadau cymunedol. Bydd staff MELAP yn annog rhieni i helpu disgyblion SIY i gymryd ymagwedd flaenweithgar at eu haddysg (e.e. trwy fynychu nosweithiau rhieni).
Integreiddio â chymorth yn y	Lle caiff hyn ei ddarparu, bydd athrawon SIY a rheolwyr prosiect ALLau yn mynd at wasanaethau ieuenctid i godi proffil a

Gweithgaredd	Disgrifiad
gymuned drwy gryfhau cysylltiadau â gwasanaethau cymorth ieuenctid	dealltwriaeth o fyfyrwyr ag anghenion SIY, gyda'r bwriad y bydd gwasanaethau ieuenctid yn gallu integreiddio disgyblion ag anghenion SIY yn well.
Arweiniad gyrfaedd estynedig a lleoliadau profiad gwaith estynedig	Mae athrawon SIY a chynorthwyyr addysgu dwyieithog wedi helpu trefnu lleoliadau profiad gwaith a darparu arweiniad ar yrfaedd (er mai ar ffurf mentora y gwnaed hyn fwyaf). Aeth un ALL ati i drefnu mentora ffurfiol ac arweiniad ar yrfaedd, lle gwahoddwyd pobl lwyddiannus o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o'r gymuned leol i fentora disgyblion MELAP, drwy siarad am eu profiadau eu hunain a'u llwybrau gyrfa, yn ogystal â darparu cyngor ar yrfaedd iddynt.
Cymorth eirioli	Lle caiff ei ddarparu, bydd cynorthwyyr addysgu dwyieithog yn gweithredu ar ran y myfyriwr fel arfer i siarad â choleg (pan fydd myfyrwyr yn bwriadu gwneud cais) a gwasanaethau eraill nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg, ond lle mae'r myfyriwr wedi gofyn am gymorth (er enghraifft, gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol).
Cryfhau a thargedu'r ddarpariaeth gwybodaeth ieuenctid/addysg dinasyddiaeth	Fel rhan o addysg dinasyddiaeth, mae staff y prosiect wedi cefnogi diwrnodau a gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol, fel bod pob disgybl yn fwy ymwybodol o ddiwylliannau ei gilydd, ac yn oddefgar o wahaniaethau rhwng diwylliannau ei gilydd.

Ffynhonnell: Cyfweiliadau â rheolwyr prosiect ALLau

Atodiad 4 Cyflawniad dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd MELAP


Ffigur A4.1 Cyflawniad dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr SIY yn yr ardaloedd MELAP, 2010-2012



Ffynhonnell: Data CYBLD, 2013.

